**Rhif: WG53209**

Llywodraeth Cymru

# Crynodeb o'r Ymatebion ac Ymateb y Llywodraeth

# Ymgynghoriad ar y gyfundrefn rheolaeth adeiladu newydd ar gyfer adeiladau risg uwch a newidiadau ehangach i'r rheoliadau adeiladu yng Nghymru

Dyddiad cyhoeddi: 26 Tachwedd 2025

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg hefyd / This document is also available in English
Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg / We welcome correspondence and telephone calls in Welsh

OGL © Hawlfraint y Goron 2025 ISBN Digidol 978-1-80633-695-1

## Trosolwg

Crynodeb o'r ymatebion a gafwyd ac ymateb y Llywodraeth i'r ymgynghoriad ar y gyfundrefn rheolaeth adeiladu newydd ar gyfer adeiladau risg uwch a newidiadau ehangach i'r rheoliadau adeiladu yng Nghymru a gynhaliwyd rhwng 26 Mawrth 2025 a 25 Mai 2025.

## Y camau y mae angen eu cymryd

Er gwybodaeth yn unig y mae'r ddogfen hon.

## Rhagor o wybodaeth a dogfennau cysylltiedig

Mae fersiynau o'r ddogfen hon mewn print bras, Braille ac mewn ieithoedd eraill ar gael ar gais.

## Manylion cyswllt

I gael rhagor o wybodaeth:
Rheoliadau Adeiladu
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

E-bost: enquiries.brconstruction@gov.wales

## Copïau ychwanegol

Ar ffurf electronig yn unig y cyhoeddir y crynodeb hwn o'r ymatebion a'r copïau o holl ddogfennau'r ymgynghoriad, ac maent ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru: [Trefn rheoli adeiladu newydd ar gyfer adeiladau risg uwch a newidiadau ehangach i'r rheoliadau adeiladu yng Nghymru]

# Cynnwys


Cyflwyniad ..... 5
Ymatebion i'r Ymgynghoriad – Trosolwg ..... 6
Ymdrin ag ymatebion ..... 7
Deiliaid dyletswydd a chymhwysedd ..... 8
Crynodeb o'r ymatebion i'r cwestiynau ..... 8
Ymateb y Llywodraeth ..... 21
Llinyn aur o wybodaeth ..... 23
Crynodeb o'r ymatebion i'r cwestiynau ..... 23
Ymateb y Llywodraeth ..... 31
Prosesau pyrth ar gyfer gwaith adeiladu risg uwch ..... 32
Porth Cynllunio 1 ..... 32
Crynodeb o'r ymatebion i'r cwestiynau ..... 32
Ymateb y Llywodraeth ..... 38
Cais am gymeradwyaeth Rheolaeth Adeiladu (Porth 2) ..... 38
Crynodeb o'r ymatebion i'r cwestiynau ..... 38
Ymateb y Llywodraeth ..... 52
Gwaith adeiladu a wneir mewn adeiladau risg uwch sy'n bodoli eisoes ..... 54
Crynodeb o'r ymatebion i'r cwestiynau ..... 54
Ymateb y Llywodraeth ..... 56
Proses rheoli newid gryfach ar gyfer adeiladau risg uwch ..... 57
Crynodeb o'r ymatebion i'r cwestiynau ..... 57
Ymateb y Llywodraeth ..... 65
Unioniad Adeiladau Risg Uwch ..... 65
Crynodeb o'r ymatebion i'r cwestiynau ..... 65
Ymateb y Llywodraeth ..... 66
Cwblhau gwaith ar adeilad risg uwch (Porth 3) ..... 67
Crynodeb o'r ymatebion i'r cwestiynau ..... 67
Ymateb y Llywodraeth ..... 72
Adrodd Gorfodol am Ddigwyddiadau ..... 73
Crynodeb o'r ymatebion i'r cwestiynau ..... 73
Ymateb y Llywodraeth ..... 75
Hysbysiadau Cydymffurfio a Hysbysiadau Stop ..... 76
Crynodeb o'r ymatebion i'r cwestiynau ..... 76
Ymateb y Llywodraeth ..... 85
Gwaith Adeiladu Risg Uwch Awdurdodau Lleol ..... 86
Crynodeb o'r ymatebion i'r cwestiynau ..... 86

Ymateb y Llywodraeth ... 89
Newidiadau ehangach i reoliadau adeiladu ... 90
Cais am gymeradwyaeth rheolaeth adeiladu ar gyfer gwaith adeiladu nad yw'n risg uwch ... 90
Crynodeb o'r ymatebion i'r cwestiynau ... 90
Ymateb y Llywodraeth ... 90
Cymeradwyaeth rheolaeth adeiladu'n dod i ben ... 90
Crynodeb o'r ymatebion i'r cwestiynau ... 90
Ymateb y Llywodraeth ... 94
Ffurflenni annilys ... 94
Crynodeb o'r ymatebion i'r cwestiynau ... 94
Ymateb y Llywodraeth ... 95
Cyrff cyhoeddus ... 95
Crynodeb o'r ymatebion i'r cwestiynau ... 95
Ymateb y Llywodraeth ... 96
Diwygiadau i'r fframwaith Taliadau Awdurdodau Lleol ... 96
Crynodeb o'r ymatebion i'r cwestiynau ... 96
Ymateb y Llywodraeth ... 97
Profi a samplu awdurdodau lleol ... 98
Crynodeb o'r ymatebion i'r cwestiynau ... 98
Ymateb y Llywodraeth ... 98
Hysbysiadau tramgwyddo difrifol a gyflwynir i Gymeradwywyr Cofrestredig Rheolaeth Adeiladu ... 98
Crynodeb o'r ymatebion i'r cwestiynau ... 98
Ymateb y Llywodraeth ... 99
Diwygiadau canlyniadol i ddeddfwriaeth arall ... 99
Crynodeb o'r ymatebion i'r cwestiynau ... 99
Ymateb y Llywodraeth ... 100
Darpariaethau trosiannol ... 101
Crynodeb o'r ymatebion i'r cwestiynau ... 101
Ymateb y Llywodraeth ... 106
Y Gymraeg ... 108
Crynodeb o'r ymatebion i'r cwestiynau ... 108
Ymateb y Llywodraeth ... 108
Y camau nesaf ... 109

# Cyflwyniad

**1.** Mae'r adroddiad hwn yn rhoi crynodeb o'r ymatebion i'r ymgynghoriad a gyhoeddwyd ar 26 Mawrth 2025 mewn perthynas â chynigion ar gyfer cyfundrefn rheolaeth adeiladu newydd ar gyfer adeiladau risg uwch a newidiadau ehangach i'r rheoliadau adeiladu yng Nghymru.

**2.** Roedd y cynigion yn yr ymgynghoriad yn cynrychioli ail gam cynllun Llywodraeth Cymru i roi Deddf Diogelwch Adeiladau 2022 ar waith.

**3.** Roedd cam cyntaf y cynllun gweithredu yn ymwneud â chofrestr a rheoleiddio'r proffesiwn rheolaeth adeiladu yn bennaf. Cyflwynwyd safonau a chodau ymddygiad newydd y mae'n rhaid i'r proffesiwn gydymffurfio â nhw. Hefyd, daeth yn orfodol i arolygwyr adeiladu unigol a chwmnïau rheolaeth adeiladu yn y sector preifat gofrestru â'r Rheoleiddiwr Diogelwch Adeiladau er mwyn parhau i oruchwylio gwaith adeiladu.

**4.** Cafodd y dewis o gorff rheolaeth adeiladu ar gyfer gwaith adeiladu risg uwch hefyd ei gyfyngu i awdurdodau lleol yng Nghymru yn unig, gan atal cwmnïau rheolaeth adeiladu yn y sector preifat rhag goruchwylio gwaith adeiladu risg uwch newydd.

**5.** Ail gam y cynllun i roi Deddf Diogelwch Adeiladau 2022 ar waith oedd ffocws yr ymgynghoriad a gynhaliwyd ym mis Mawrth 2025. Er i ran helaeth o'r ymgynghoriad ganolbwyntio ar gynigion ar gyfer cyfundrefn reoleiddio newydd, ymdriniodd hefyd ag amrywiaeth eang o faterion, megis cyflwyno dyletswyddau newydd ar gyfer y sawl sy'n gwneud penderfyniadau allweddol mewn prosiectau adeiladu a rhoi pwerau grymuso newydd i awdurdodau lleol.

**6.** At ei gilydd, ymdriniodd yr ymgynghoriad â'r pynciau canlynol:

- Cyfrifoldebau a gofynion cymhwysedd deiliaid dyletswydd
- Llinyn Aur o wybodaeth adeiladu
- Prosesau pyrth ar gyfer gwaith adeiladu risg uwch
- Adrodd gorfodol am ddigwyddiadau ynghylch problemau diogelwch yn ystod y gwaith adeiladu
- Hysbysiadau Cydymffurfio a Hysbysiadau Stop sy'n rhoi pwerau gorfodi newydd i awdurdodau lleol
- Proses newydd i awdurdodau lleol sydd am wneud gwaith adeiladu risg uwch
- Newidiadau ehangach i reoliadau adeiladu, gan gynnwys
    - Diwygio ceisiadau am waith adeiladu nad ydynt yn risg uwch
    - Terfyn awtomatig i gymeradwyo rheoli adeiladu ar ôl 3 blynedd
    - Cyrff cyhoeddus yn gwneud gwaith adeiladu risg uwch

- Darpariaethau trosiannol

7. Nid yw'r adroddiad hwn yn ceisio nodi pob pwynt a godwyd gan ymatebwyr yn fanwl, er y dylid nodi bod ystyriaeth briodol wedi'i roi i bob sylw p'un a yw'n cael ei nodi yma ai peidio. Mae Llywodraeth Cymru wedi darparu ymateb i bob grŵp o gwestiynau yn yr ymgynghoriad.

8. Y safbwyntiau a nodir yn y crynodeb hwn yw'r rhai a fynegwyd gan yr ymatebwyr i'r ymgynghoriad ac nid ydynt o reidrwydd yn adlewyrchu safbwyntiau Llywodraeth Cymru.

# Ymatebion i'r Ymgynghoriad – Trosolwg

9. Cafwyd 61 o ymatebion i'r ymgynghoriad. Rydym yn ddiolchgar i bawb a ymatebodd. Mae'r holl ymatebion i'r ymgynghoriad wedi cael eu darllen a'u hystyried fel rhan o'r dadansoddiad hwn.

10. Gofynnwyd i'r ymatebwyr a lenwodd y ffurflen ymateb i'r ymgynghoriad ddewis un o 12 o fathau o sefydliadau a oedd wedi'u nodi ar y ffurflen (gan gynnwys opsiwn ‘arall’ lle y gallent ychwanegu eu hateb eu hunain) i ddisgrifio eu sefydliad. Dengys y tabl isod nifer yr ymatebion a gafwyd gan bob sector.

| Math o Sefydliad | Nifer yr Ymatebwyr | % |
|---|---|---|
| Adeiladwr/Datblygwr | 1 | 2% |
| Adeiladwr bach/canolig | 0 | 0% |
| Adeiladwr tai mawr | 0 | 0% |
| Dylunydd/Peiriannydd/Syrfëwr | 5 | 8% |
| Awdurdod Lleol | 14 | 23% |
| Cymeradwywr Cofrestredig Rheolaeth Adeiladu | 6 | 10% |
| Pensaer | 1 | 2% |
| Gwneuthurwr/cadwyn gyflenwi | 1 | 2% |
| Aseswr Ynni | 0 | 0% |
| Y Sector Ynni | 0 | 0% |
| Gweithiwr Adeiladu Proffesiynol | 6 | 10% |
| Rheolwr Eiddo/Cymdeithas Dai/Landlord | 6 | 10% |
| Deiliad Adeilad/Preswylydd | 0 | 0% |
| Parti Arall sydd â Diddordeb (nodwch) | 17 | 28% |
| Dim Ateb | 4 | 7% |

*Nid yw'r canrannau yn gwneud cyfanswm o 100% oherwydd talgrynnu

# Ymdrin ag ymatebion

**11.** Darparwyd ffurflen ymateb safonol er hwylustod. Fodd bynnag, os na ddefnyddiodd ymatebwyr y ffurflen, mae sylwadau wedi'u priodoli i'r cwestiwn mwyaf priodol. Hefyd, cafodd rhai cwestiynau eu llunio i arwain at bedwar ateb posibl; ydw/cytuno, nac ydw/anghytuno, ddim yn siŵr a ddim yn gymwys.

**12.** Os nad yw ymatebwyr wedi ateb gan ddefnyddio'r ymatebion safonol a gynigiwyd ond eu bod wedi nodi safbwynt clir yn eu hateb, mae'r ymateb hwnnw wedi'i bennu iddynt yn y dadansoddiad ystadegol. Er enghraifft, os defnyddiodd ymatebydd yr ymadrodd ‘Rwyf o blaid y cynnig’ nodwyd bod ei ymateb yn un cadarnhaol ('ydw'). Os nad oedd yr ymateb yn glir, nodwyd bod yr atebion yn perthyn i'r categori ‘dim ymateb’ yn y dadansoddiad ystadegol gyda'r ymatebion yn cael eu cynnwys yn y crynodeb o'r ymatebion.

# Deiliaid dyletswydd a chymhwysedd

**Crynodeb o'r ymatebion i'r cwestiynau**

**Cwestiwn 2.1**
**A ydych yn cytuno a'r teitlau arfaethedig Prif Ddylunydd a Phrif Gontractwr ar gyfer deiliaid dyletswydd?**

Crynodeb o'r ymatebion

| | | |
|---|---|---|
| Cytuno | 35 | 65% |
| Anghytuno | 16 | 30% |
| Ddim yn cytuno nac yn anghytuno | 3 | 6% |
| Ddim yn gwybod | 0 | 0% |
| Cyfanswm yr ymatebion | 54 | 100%* |

*Nid yw'r canrannau yn gwneud cyfanswm o 100% oherwydd talgrynnu

**Cwestiwn 2.2**
**Rhowch esboniad dros eich ateb. Os ydych wedi nodi eich bod yn anghytuno, esboniwch pa newidiadau y dylid eu gwneud yn eich barn chi.**

Crynodeb o'r ymatebion

**13.** Er bod mwyafrif o'r ymatebwyr yn cytuno y dylid cadw'r teitlau Prif Ddylunydd a Phrif Gontractwr, yn aml roedd y gefnogaeth hon yn amodol ar yr angen i wahaniaethu'n glir rhyngddynt a rolau adeiladu, dylunio a rheoli a darparu canllawiau cadarn er mwyn osgoi dryswch. Roedd awydd cryf i sicrhau cysondeb rheoleiddiol â Lloegr, ond cydnabuwyd hefyd bod eglurder, addysg ac, o bosibl, derminoleg ddiwygiedig yn hanfodol er mwyn sicrhau effeithiolrwydd y gyfundrefn newydd yng Nghymru.

**Cwestiwn 2.3**
**A ydych yn cytuno neu'n anghytuno â'r dyletswyddau arfaethedig a fydd yn gymwys i bob deiliad dyletswydd yn ystod y camau dylunio ac adeiladu?**

Crynodeb o'r ymatebion

| | | |
|---|---|---|
| Cytuno | 47 | 89% |
| Anghytuno | 2 | 4% |
| Ddim yn cytuno nac yn anghytuno | 3 | 6% |
| Ddim yn gwybod | 1 | 2% |
| Cyfanswm yr ymatebion | 53 | 100%* |

*Nid yw'r canrannau yn gwneud cyfanswm o 100% oherwydd talgrynnu

**Cwestiwn 2.4**
**Rhowch esboniad dros eich ateb. Os ydych wedi nodi  eich bod yn anghytuno, esboniwch pa newidiadau y dylid eu gwneud yn eich barn chi.**

Crynodeb o'r ymatebion

**14.** Roedd yr ymatebion yn adlewyrchu cefnogaeth gyffredinol i egwyddorion atebolrwydd, eglurder a chymhwysedd. Fodd bynnag, pwysleisiodd sawl ymatebydd fod angen y canlynol:

- canllawiau a diffiniadau clir er mwyn osgoi dryswch â rheoliadau presennol.

- Aliniad â fframwaith Lloegr er mwyn sicrhau cysondeb.

- Mecanweithiau i asesu a sicrhau cymhwysedd, gan gynnwys cofrestrau cyhoeddus a chyfeiriadau at safonau cenedlaethol.

**15.** Er mai dim ond lleiafrif bach a oedd yn anghytuno, roedd eu hadborth yn canolbwyntio ar heriau ymarferol a'r angen am gymorth manylach i roi'r gyfundrefn newydd ar waith. Ar y cyfan, nododd yr ymatebion i'r ymgynghoriad fod cefnogaeth gref i'r dyletswyddau arfaethedig, gydag awgrymiadau adeiladol ar gyfer mireinio ac eglurder.

**Cwestiwn 2.5**
**A ydych yn cytuno neu'n anghytuno â'r dyletswyddau arfaethedig a fydd yn gymwys i'r cleient yn ystod y camau dylunio ac adeiladu?**

Crynodeb o'r ymatebion

| | | |
|---|---|---|
| Cytuno | 42 | 82% |
| Anghytuno | 4 | 8% |
| Ddim yn cytuno nac yn anghytuno | 4 | 8% |
| Ddim yn gwybod | 1 | 2% |
| Cyfanswm yr ymatebion | 51 | 100% |

**Cwestiwn 2.6**
**Rhowch esboniad dros eich ateb. Os ydych wedi nodi eich bod yn anghytuno, esboniwch pa newidiadau y dylid eu gwneud yn eich barn chi.**

Crynodeb o'r ymatebion

**16.** Roedd yr ymatebion yn dangos cefnogaeth gyffredinol gref o blaid dyletswyddau arfaethedig cleientiaid yn ystod y camau dylunio ac adeiladu. Pwysleisiodd yr adborth bwysigrwydd cyfrifoldebau clir a chyson sy'n cael eu cyfleu'n dda, yn enwedig mewn perthynas ag atebolrwydd cyfreithiol, cysondeb trawsffiniol â Lloegr a'r llinyn aur o wybodaeth.

**17.** Fodd bynnag, tynnodd yr ymatebion sylw hefyd at yr angen i wneud y canlynol:

- Darparu canllawiau a hyfforddiant manwl er mwyn cefnogi cleientiaid, yn arbennig y rhai heb fawr ddim profiad ym maes adeiladu.

- Egluro rolau mewn prosiectau cymhleth neu risg uchel.

- Ystyried y goblygiadau o ran adnoddau, yn enwedig i gleientiaid yn y sector cyhoeddus.

**Cwestiwn 2.7**
**A ydych yn cytuno neu'n anghytuno â'r cynnig i gyflwyno Cleientiaid Domestig ac, o bosibl, lacio gofynion o gymharu â'r prif fath o Gleient sy'n ddeiliad dyletswydd?**

Crynodeb o'r ymatebion

| | | |
|---|---|---|
| Cytuno | 34 | 63% |
| Anghytuno | 11 | 20% |
| Ddim yn cytuno nac yn anghytuno | 7 | 13% |
| Ddim yn gwybod | 2 | 4% |
| Cyfanswm yr ymatebion | 54 | 100% |

**Cwestiwn 2.8**
**Rhowch esboniad dros eich ateb. Os ydych wedi nodi eich bod yn anghytuno, esboniwch pa newidiadau y dylid eu gwneud yn eich barn chi.**

Crynodeb o'r ymatebion

**18.** Roedd y mwyafrif o'r ymatebwyr o blaid cyflwyno Cleientiaid Domestig â gofynion wedi'u llacio, ond gyda chafeatau:

- Roedd cefnogaeth eang o blaid trosglwyddo dyletswyddau yn awtomatig i weithwyr proffesiynol er mwyn diogelu cleientiaid a sicrhau cydymffurfedd.
- Nodwyd yn glir fod angen addysg, canllawiau a chymorth ar gyfer cleientiaid domestig.
- Ystyriwyd bod cysondeb â rheoliadau Lloegr yn fuddiol er mwyn lleihau dryswch.
- Argymhellwyd dull cymesur seiliedig ar risg, yn arbennig ar gyfer prosiectau bach neu brosiectau risg isel.
- Cododd rhai rhanddeiliaid bryderon difrifol ynghylch diogelwch, yn arbennig ar gyfer adeiladau cymhleth neu risg uchel.

**19.** Awgrymodd yr ymatebion, er bod y cynnig yn dderbyniol ar y cyfan, fod yn rhaid cynllunio'r broses o'i roi ar waith yn ofalus, gyda rolau clir, mesurau diogelwch cadarn a chyfathrebu cryf er mwyn sicrhau ei bod yn effeithiol ac yn ddiogel.

**Cwestiwn 2.9**
**A ydych yn cytuno neu'n anghytuno mai dim ond unigolion nad ydynt yn gwneud y gwaith fel rhan o fusnes a all fod yn Gleient Domestig ac y dylid cyfyngu cwmpas lleoliadau lle y cânt weithio i'w cartref(i) eu hunain?**

Crynodeb o'r ymatebion

| | | |
|---|---|---|
| Cytuno | 38 | 75% |
| Anghytuno | 8 | 16% |
| Ddim yn cytuno nac yn anghytuno | 5 | 10% |
| Ddim yn gwybod | 0 | 0% |

| | | |
|---|---|---|
| Cyfanswm yr ymatebion | 51 | 100%* |

*Nid yw'r canrannau yn gwneud cyfanswm o 100% oherwydd talgrynnu

**Cwestiwn 2.10**
**Rhowch esboniad dros eich ateb. Os ydych wedi nodi eich bod yn anghytuno, esboniwch pa newidiadau y dylid eu gwneud yn eich barn chi.**

Crynodeb o'r ymatebion

**20.** Roedd y mwyafrif o'r ymatebwyr yn cytuno â'r diffiniad arfaethedig o Gleient Domestig fel unigolion nad yw'n gweithredu fel rhan o fusnes ac sydd wedi'i gyfyngu i'w gartref(i) ei hun. Roedd y rhai a oedd yn cytuno yn rhoi pris ar eglurder a chysondeb â rheoliadau presennol yn Lloegr. Fodd bynnag, codwyd pryderon ynghylch rhoi'r cynnig ar waith ymarferol, achosion ymyl a'r angen am ganllawiau cliriach neu hyblygrwydd mewn senarios penodol.

**Cwestiwn 2.11**
**A ydych yn cytuno neu'n anghytuno y dylai Cleientiaid Domestig drosglwyddo cyfrifoldebau i gydymffurfio â rheoliadau adeiladu a deddfwriaeth arall i ddeiliaid dyletswydd penodedig?**

Crynodeb o'r ymatebion

| | | |
|---|---|---|
| Cytuno | 40 | 78% |
| Anghytuno | 6 | 12% |
| Ddim yn cytuno nac yn anghytuno | 4 | 8% |
| Ddim yn gwybod | 1 | 2% |
| Cyfanswm yr ymatebion | 51 | 100% |

**Cwestiwn 2.12**
**Rhowch esboniad dros eich ateb. Os ydych wedi nodi eich bod yn anghytuno, esboniwch pa newidiadau y dylid eu gwneud yn eich barn chi.**

Crynodeb o'r ymatebion

**21.** Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr yn cytuno y dylai cleientiaid domestig allu trosglwyddo eu cyfrifoldebau cyfreithiol o dan reoliadau adeiladu i weithwyr proffesiynol cymwys. Mae hyn yn adlewyrchu cydnabyddiaeth ymarferol nad oes gan lawer os nad y rhan fwyaf o berchenogion tai yr arbenigedd i reoli cydymffurfiaeth eu hunain.

**22.** Roedd cefnogwyr yn credu y byddai'r dull hwn o weithredu yn gwella diogelwch, yn sicrhau atebolrwydd ac yn alinio Cymru ag arferion presennol yn Lloegr. Fodd bynnag, codwyd pryderon ynghylch costau, llai o gyfranogiad gan gleientiaid a'r angen am gyfathrebu clir ac addysg gyhoeddus

**Cwestiwn 2.13**
**A ydych yn cytuno neu'n anghytuno â'n dull o ymdrin â Chleientiaid 'DIY' sy'n gweithredu ar eu pen eu hunain?**

Crynodeb o'r ymatebion

| | | |
|---|---|---|
| Cytuno | 27 | 53% |
| Anghytuno | 16 | 31% |

| | | |
|---|---|---|
| Ddim yn cytuno nac yn anghytuno | 6 | 12% |
| Ddim yn gwybod | 2 | 4% |
| Cyfanswm yr ymatebion | 51 | 100% |

**Cwestiwn 2.14**
**Rhowch esboniad dros eich ateb. Os ydych wedi nodi eich bod yn anghytuno, esboniwch pa newidiadau y dylid eu gwneud yn eich barn chi.**

Crynodeb o'r ymatebion

**23.** Roedd y mwyafrif o'r ymatebwyr yn cytuno â'r dull arfaethedig o ymdrin â chleientiaid 'DIY', gan gydnabod yr ymarferoldeb a'r angen am gyfrifoldeb personol. Fodd bynnag, cododd lleiafrif bryderon ynghylch cymhwysedd, gorfodi ac eglurder – yn enwedig yng nghyd-destun adeiladau risg uwch. Mae cefnogaeth gref o blaid darparu canllawiau clir, hygyrch ac ystyried mesurau diogelwch ychwanegol megis cyngor cyn gwneud cais neu gyfyngu ar waith 'DIY' mewn cyd-destunau risg uchel.

**Cwestiwn 2.15**
**A ydych yn cytuno neu'n anghytuno â'r dyletswyddau arfaethedig a fydd yn gymwys i'r Prif Ddylunydd yn ystod y camau dylunio ac adeiladu?**

Crynodeb o'r ymatebion

| | | |
|---|---|---|
| Cytuno | 43 | 84% |
| Anghytuno | 4 | 8% |
| Ddim yn cytuno nac yn anghytuno | 3 | 6% |
| Ddim yn gwybod | 1 | 2% |
| Cyfanswm yr ymatebion | 51 | 100% |

**Cwestiwn 2.16**
**Rhowch esboniad dros eich ateb. Os ydych wedi nodi eich bod yn anghytuno, esboniwch pa newidiadau y dylid eu gwneud yn eich barn chi.**

Crynodeb o'r ymatebion

**24.** Roedd cefnogaeth eang i'r dyletswyddau arfaethedig ar gyfer y Prif Ddylunydd gan fod yr ymatebwyr o'r farn y byddent yn gwella eglurder, atebolrwydd a diogelwch. Ystyriwyd bod cysondeb â'r rheoliadau yn Lloegr a ffocws ar gymhwysedd yn hanfodol Codwyd rhai pryderon ynghylch sut y byddai'r dyletswyddau'n cael eu defnyddio'n ymarferol ac eglurder rolau mewn prosiectau llai neu anffurfiol.

**Cwestiwn 2.17**
**A ydych yn cytuno neu'n anghytuno â'r dyletswyddau arfaethedig a fydd yn gymwys i ddylunwyr yn ystod y camau dylunio ac adeiladu?**

Crynodeb o'r ymatebion

| | | |
|---|---|---|
| Cytuno | 44 | 90% |
| Anghytuno | 2 | 4% |

| | | |
|---|---|---|
| Ddim yn cytuno nac yn anghytuno | 2 | 4% |
| Ddim yn gwybod | 1 | 2% |
| Cyfanswm yr ymatebion | 49 | 100%* |

*Nid yw'r canrannau yn gwneud cyfanswm o 100% oherwydd talgrynnu

**Cwestiwn 2.18**
**Rhowch esboniad dros eich ateb. Os ydych wedi nodi eich bod yn anghytuno, esboniwch pa newidiadau y dylid eu gwneud yn eich barn chi.**

Crynodeb o'r ymatebion

**25.** Dangosodd yr ymatebion fod y mwyafrif helaeth o'r ymatebwyr yn cefnogi'r dyletswyddau arfaethedig i ddylunwyr, gyda rhanddeiliaid yn cydnabod y gallent wella diogelwch adeiladau a chydymffurfiaeth â rheoliadau. Roedd galw cryf am alinio Cymru â rheoliadau yn Lloegr, yn enwedig er mwyn helpu i sicrhau cysondeb trawsffiniol a lleihau dryswch. Cafodd cysyniad y llinyn aur gymeradwyaeth eang a nododd ymatebwyr fod angen canllawiau cliriach a diffiniadau cyfreithiol er mwyn sicrhau y rhoddir y cynnig ar waith yn effeithiol.

**Cwestiwn 2.19**
**A ydych yn cytuno neu'n anghytuno â'r dyletswyddau arfaethedig a fydd yn gymwys i'r *Prif Gontractwr* yn ystod y camau dylunio ac adeiladu?**

Crynodeb o'r ymatebion

| | | |
|---|---|---|
| Cytuno | 45 | 90% |
| Anghytuno | 2 | 4% |
| Ddim yn cytuno nac yn anghytuno | 2 | 4% |
| Ddim yn gwybod | 1 | 2% |
| Cyfanswm yr ymatebion | 50 | 100% |

**Cwestiwn 2.20**
**Rhowch esboniad dros eich ateb. Os ydych wedi nodi eich bod yn anghytuno, esboniwch pa newidiadau y dylid eu gwneud yn eich barn chi.**

Crynodeb o'r ymatebion

**26.** Dangosodd yr ymgynghoriad fod cefnogaeth gref o blaid dyletswyddau arfaethedig y Prif Gontractwr yn ystod y camau dylunio ac adeiladu, gyda'r ymatebwyr yn nodi'n glir eu bod yn ffafrio alinio Cymru â rheoliadau yn Lloegr er mwyn sicrhau cysondeb a lleihau dryswch. Pwysleisiodd ymatebwyr fod angen canllawiau clir, yn enwedig mewn perthynas â rolau deuol, gofynion o ran cymhwysedd a strwythurau prosiect cymhleth. Roedd consensws bod y dyletswyddau hyn yn hanfodol er mwyn sicrhau cydymffurfedd, diogelwch a chyfanrwydd y Llinyn Aur drwy gydol y broses adeiladu.

**Cwestiwn 2.21**
**A ydych yn cytuno neu'n anghytuno â'r dyletswyddau arfaethedig a fydd yn gymwys i gontractwyr yn ystod y camau dylunio ac adeiladu?**

Crynodeb o'r ymatebion

| | | |
|---|---|---|
| Cytuno | 42 | 86% |

| | | |
|---|---|---|
| Anghytuno | 44 | 8% |
| Ddim yn cytuno nac yn anghytuno | 2 | 4% |
| Ddim yn gwybod | 1 | 2% |
| Cyfanswm yr ymatebion | 49 | 100% |

**Cwestiwn 2.22**
**Rhowch esboniad dros eich ateb. Os ydych wedi nodi eich bod yn anghytuno, esboniwch pa newidiadau y dylid eu gwneud yn eich barn chi.**

Crynodeb o'r ymatebion

**27.** Dangosodd yr ymatebion i'r ymgynghoriad fod cefnogaeth gref o blaid y dyletswyddau arfaethedig i gontractwyr yn ystod y camau dylunio ac adeiladu, gyda'r ymatebwyr yn nodi'n glir eu bod yn ffafrio alinio Cymru â rheoliadau yn Lloegr er mwyn sicrhau cysondeb a lleihau dryswch. Roedd ymatebwyr yn gwerthfawrogi'r pwyslais ar eglurder, atebolrwydd a phroffesiynoldeb, yn enwedig mewn perthynas â'r Llinyn Aur ac adeiladau risg uchel.

**28.** Fodd bynnag, mae galw nodedig am welliannau, gan gynnwys ychwanegu dyletswyddau sydd wedi'u hepgor o'r rheoliadau yn Lloegr, egluro bwriadau cyfreithiol, darparu canllawiau manwl ac ystyried y gallu i leihau dyletswyddau ar gyfer prosiectau llai o faint.

**Cwestiwn 2.23**
**A ydych yn cytuno neu'n anghytuno, os bydd busnes wedi'i benodi'n ddeiliad dyletswydd, fod yn rhaid iddo benodi unigolyn dynodedig sy'n bodloni'r meini prawf perthnasol i reoli ei swyddogaethau fel deiliad dyletswydd?**

Crynodeb o'r ymatebion

| | | |
|---|---|---|
| Cytuno | 41 | 82% |
| Anghytuno | 4 | 8% |
| Ddim yn cytuno nac yn anghytuno | 5 | 10% |
| Ddim yn gwybod | 0 | 0% |
| Cyfanswm yr ymatebion | 50 | 100% |

**Cwestiwn 2.24**
**Rhowch esboniad dros eich ateb. Os ydych wedi nodi eich bod yn anghytuno, esboniwch pa newidiadau y dylid eu gwneud yn eich barn chi.**

Crynodeb o'r ymatebion

**29.** Tynnodd ymatebwyr sylw at fanteision atebolrwydd, eglurder a chysondeb â rheoliadau presennol yn Lloegr. Fodd bynnag, codwyd pryderon ynghylch y risgiau cyfreithiol posibl i unigolion, yr angen am ganllawiau clir ar brosesau pontio a phwysigrwydd parhau i ganolbwyntio ar gymhwysedd sefydliadol. Ar y cyfan, ystyrir bod y cynnig yn gam cadarnhaol, ar yr amod yr ymdrinnir â'r broses o'i roi ar waith yn ofalus ac ag eglurder.

**Cwestiwn 2.25**
**A ydych yn cytuno neu'n anghytuno â'r amserlenni arfaethedig ar gyfer penodi Prif Ddylunydd?**

Crynodeb o'r ymatebion

| | | |
|---|---|---|
| Cytuno | 30 | 61% |
| Anghytuno | 11 | 22% |
| Ddim yn cytuno nac yn anghytuno | 7 | 14% |
| Ddim yn gwybod | 1 | 2% |
| Cyfanswm yr ymatebion | 49 | 100%* |

*Nid yw'r canrannau yn gwneud cyfanswm o 100% oherwydd talgrynnu

**Cwestiwn 2.26**
**Rhowch esboniad dros eich ateb. Os ydych wedi nodi eich bod yn anghytuno, esboniwch pa newidiadau y dylid eu gwneud yn eich barn chi.**

Crynodeb o'r ymatebion

**30.** Roedd cefnogaeth gyffredinol i'r amserlenni arfaethedig ar gyfer penodi Prif Ddylunydd, gyda chonsensws cryf bod penodiad cynnar yn hanfodol er mwyn sicrhau diogelwch, cydymffurfiaeth a gwaith cynllunio prosiect effeithiol. Fodd bynnag, cododd ymatebwyr bryderon ynghylch geiriad amwys a allai ganiatáu penodiadau hwyr, gan alw am ddiffiniadau cyfreithiol ac amserlenni cliriach, cysondeb â rheoliadau yn Lloegr er mwyn lleihau dryswch a chanllawiau manwl ar orfodi a chymhwyso ar gyfer pob math o brosiect, gan gynnwys senarios 'DIY'.

**Cwestiwn 2.27**
**A ydych yn cytuno neu'n anghytuno â'r amserlenni arfaethedig ar gyfer penodi Prif Gontractwr?**

Crynodeb o'r ymatebion

| | | |
|---|---|---|
| Cytuno | 39 | 78% |
| Anghytuno | 4 | 8% |
| Ddim yn cytuno nac yn anghytuno | 6 | 12% |
| Ddim yn gwybod | 1 | 2% |
| Cyfanswm yr ymatebion | 50 | 100% |

**Cwestiwn 2.28**
**Rhowch esboniad dros eich ateb. Os ydych wedi nodi eich bod yn anghytuno, esboniwch pa newidiadau y dylid eu gwneud yn eich barn chi.**

Crynodeb o'r ymatebion

**31.** Roedd cefnogaeth gyffredinol i'r amserlenni arfaethedig ar gyfer penodi Prif Gontractwr, gydag ymatebwyr yn cydnabod manteision cynnwys y Prif Gontractwr yn gynnar er mwyn cydgysylltu'r prosiect a sicrhau diogelwch a chydymffurfedd. Fodd bynnag, codwyd pryderon ymarferol ynghylch hyblygrwydd, yn arbennig ar gyfer prosiectau llai o faint neu brosiectau 'DIY', a'r potensial ar gyfer oedi anfwriadol wrth brosesu ceisiadau rheolaeth adeiladu.

**Cwestiwn 2.29**
**A ydych yn cytuno neu'n anghytuno â'r meini prawf arfaethedig ynglŷn â phenodi deiliaid dyletswydd?**

Crynodeb o'r ymatebion

| | | |
|---|---|---|
| Cytuno | 38 | 79% |
| Anghytuno | 4 | 8% |
| Ddim yn cytuno nac yn anghytuno | 5 | 10% |
| Ddim yn gwybod | 1 | 2% |
| Cyfanswm yr ymatebion | 48 | 100%* |

*Nid yw'r canrannau yn gwneud cyfanswm o 100% oherwydd talgrynnu

**Cwestiwn 2.30**
**Rhowch esboniad dros eich ateb. Os ydych wedi nodi eich bod yn anghytuno, esboniwch pa newidiadau y dylid eu gwneud yn eich barn chi.**

Crynodeb o'r ymatebion

**32.** Roedd cefnogaeth gyffredinol gref ymhlith yr ymatebwyr o blaid y meini prawf arfaethedig ynglŷn â phenodi deiliaid dyletswydd. Mae'r adborth yn awgrymu bod y diwydiant wedi'i alinio'n gyffredinol ag egwyddorion atebolrwydd a chymhwysedd mewn rolau deiliaid dyletswydd ac roedd llawer o'r ymatebwyr yn gwerthfawrogi'r cysondeb â rheoliadau yn Lloegr. Fodd bynnag, cododd rhai bryderon ynghylch rhoi'r cynnig ar waith yn ymarferol, yn arbennig mewn perthynas ag awdurdod contractiol a'r potensial ar gyfer dryswch mewn prosiectau trawsffiniol.

**Cwestiwn 2.31**
**A ydych yn cytuno neu'n anghytuno â'r dull hwn o weithredu, a fyddai'n trin y cleient fel y deiliad dyletswydd coll tra na fydd unrhyw berson arall yn dal y swydd benodedig?**

Crynodeb o'r ymatebion

| | | |
|---|---|---|
| Cytuno | 37 | 76% |
| Anghytuno | 6 | 12% |
| Ddim yn cytuno nac yn anghytuno | 4 | 8% |
| Ddim yn gwybod | 2 | 4% |
| Cyfanswm yr ymatebion | 49 | 100% |

**Cwestiwn 2.32**
**Rhowch esboniad dros eich ateb. Os ydych wedi nodi eich bod yn anghytuno, esboniwch pa newidiadau y dylid eu gwneud yn eich barn chi.**

Crynodeb o'r ymatebion

**33.** Roedd mwyafrif sylweddol o'r ymatebwyr yn cytuno â'r dull arfaethedig o drin y cleient fel y deiliad dyletswydd coll pan na fydd unrhyw berson arall yn dal y swydd benodedig? Fodd bynnag, codwyd pryderon ynghylch cymhwysedd cleientiaid, yn arbennig ar brosiectau cymhleth neu risg uchel. Awgrym cyffredin oedd y dylid atal gwaith nes i Brif Ddylunydd neu Brif Gontractwr cymwys gael ei benodi, yn hytrach na thrin y cleient fel y deiliad dyletswydd coll yn ddiofyn.

**Cwestiwn 2.33**
**A ydych yn cytuno neu'n anghytuno â'r cynnig bod yn rhaid i sefydliadau a benodir yn *Brif Ddylunydd* neu'n *Brif Gontractwr* gymryd camau rhesymol i sicrhau bod gan yr unigolyn/unigolion a benodir i reoli swyddogaethau'r *Prif Ddylunydd* neu'r *Prif Gontractwr* ar gyfer y prosiect penodol hwnnw y cymhwysedd perthnasol i wneud hynny?**

Crynodeb o'r ymatebion

| | | |
|---|---|---|
| Cytuno | 47 | 94% |
| Anghytuno | 1 | 2% |
| Ddim yn cytuno nac yn anghytuno | 2 | 4% |
| Ddim yn gwybod | 0 | 0% |
| Cyfanswm yr ymatebion | 50 | 100% |

**Cwestiwn 2.34**
**Rhowch esboniad dros eich ateb. Os ydych wedi nodi eich bod yn anghytuno, esboniwch pa newidiadau y dylid eu gwneud yn eich barn chi.**

Crynodeb o'r ymatebion

**34.** Roedd y mwyafrif helaeth o'r ymatebwyr o blaid y cynnig bod yn rhaid i sefydliadau a benodir yn Brif Ddylunydd neu'n Brif Gontractwr sicrhau bod unigolion a benodir yn gymwys. Mae'r ymatebwyr yn ystyried bod hwn yn fesur hollbwysig er mwyn sicrhau diogelwch, atebolrwydd a safonau proffesiynol. Fodd bynnag, roedd galw clir am ganllawiau manylach ar asesu cymhwysedd, diffinio camau rhesymol a rheoli prosesau pontio pan fydd unigolion yn gadael rolau.

**Cwestiwn 2.35**
**A ydych yn cytuno neu'n anghytuno y dylai rheoliadau gynnwys y gofyniad ar unigolion neu sefydliadau i hysbysu'r deiliaid dyletswydd perthnasol a'r rhai a'u penododd neu a ofynnodd iddynt wneud y gwaith os byddant yn peidio â bodloni'r gofynion cymhwysedd?**

Crynodeb o'r ymatebion

| | | |
|---|---|---|
| Cytuno | 45 | 92% |
| Anghytuno | 3 | 6% |
| Ddim yn cytuno nac yn anghytuno | 1 | 2% |
| Ddim yn gwybod | 0 | 0% |
| Cyfanswm yr ymatebion | 49 | 100% |

**Cwestiwn 2.36**
**Rhowch esboniad dros eich ateb. Os ydych wedi nodi eich bod yn anghytuno, esboniwch pa newidiadau y dylid eu gwneud yn eich barn chi.**

Crynodeb o'r ymatebion

**35.** Roedd y mwyafrif helaeth o'r ymatebwyr o blaid ei gwneud yn ofynnol i unigolion neu sefydliadau hysbysu deiliaid dyletswydd perthnasol os na fyddant yn bodloni gofynion cymhwysedd mwyach. Nododd ymatebwyr fod hyn yn cael

ei ystyried yn hanfodol er mwyn cynnal atebolrwydd, diogelwch a chysondeb ag arferion presennol.

**Cwestiwn 2.37**
**A ydych yn cytuno neu'n anghytuno â'r gofynion ychwanegol a gynigir ar gyfer deiliaid dyletswydd sy'n ymwneud â gwaith ar adeiladau risg uwch?**

Crynodeb o'r ymatebion

| | | |
|---|---|---|
| Cytuno | 43 | 90% |
| Anghytuno | 3 | 6% |
| Ddim yn cytuno nac yn anghytuno | 1 | 2% |
| Ddim yn gwybod | 1 | 2% |
| Cyfanswm yr ymatebion | 48 | 100% |

**Cwestiwn 2.38**
**Esboniwch eich ateb. Os ydych wedi nodi eich bod yn anghytuno, nodwch pa newidiadau y dylid eu gwneud yn eich barn chi.**

Crynodeb o'r ymatebion

**36.** Roedd y mwyafrif helaeth o'r ymatebwyr yn cefnogi'r gofynion ychwanegol arfaethedig ar gyfer deiliaid dyletswydd sy'n gweithio ar adeiladau risg uwch. Roedd yr adborth yn dangos bod awydd cryf am gysondeb rheoleiddiol â Lloegr, diogelwch ac atebolrwydd gwell a chanllawiau ymarferol, clir er mwyn cefnogi'r broses weithredu. Cododd rhai ymatebwyr bryderon ynghylch cost a chymhlethdod, gan nodi y byddai modd rheoli'r rhain, ar y cyfan, petaent yn cael eu hategu â gofynion a chanllawiau clir.

**Cwestiwn 2.39**
**A ydych yn cytuno neu'n anghytuno â'r gofyniad i gleientiaid hysbysu deiliaid dyletswydd eraill am unrhyw waith adeiladu risg uwch, neu newid i waith a fyddai'n golygu ei fod yn waith adeiladu risg uwch?**

Crynodeb o'r ymatebion

| | | |
|---|---|---|
| Cytuno | 41 | 85% |
| Anghytuno | 3 | 6% |
| Ddim yn cytuno nac yn anghytuno | 3 | 6% |
| Ddim yn gwybod | 1 | 2% |
| Cyfanswm yr ymatebion | 48 | 100%* |

*Nid yw'r canrannau yn gwneud cyfanswm o 100% oherwydd talgrynnu

**Cwestiwn 2.40**
**Esboniwch eich ateb. Os ydych wedi nodi eich bod yn anghytuno, nodwch pa newidiadau y dylid eu gwneud yn eich barn chi.**

Crynodeb o'r ymatebion

**37.** Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr yn cytuno y dylai cleientiaid hysbysu deiliaid dyletswydd eraill am waith adeiladu risg uwch neu newidiadau i waith a fyddai'n golygu ei fod yn waith adeiladu risg uwch. Ystyriwyd bod hyn yn hanfodol er mwyn sicrhau goruchwyliaeth briodol ac osgoi bylchau rheoleiddiol, yn arbennig

mewn senarios risg uchel. Codwyd rhai pryderon ynghylch gallu cleientiaid i nodi a rheoli gwaith adeiladu risg uwch.

**Cwestiwn 2.41**
**A ydych yn cytuno neu'n anghytuno â'r gofyniad ar y cleient i gofnodi'r camau a gymerwyd ganddo i fodloni ei hun bod gan y *Prif Ddylunydd* a'r *Prif Gontractwr* a benodwyd y cymhwysedd perthnasol ar gyfer y rôl a'u cynnwys yn y datganiad o gymhwysedd sydd angen ei gyflwyno gyda'r cais am gymeradwyaeth rheolaeth adeiladu ar gyfer gwaith adeiladu risg uwch?**

Crynodeb o'r ymatebion

| | | |
|---|---|---|
| Cytuno | 41 | 87% |
| Anghytuno | 3 | 6% |
| Ddim yn cytuno nac yn anghytuno | 2 | 4% |
| Ddim yn gwybod | 1 | 2% |
| Cyfanswm yr ymatebion | 47 | 100%* |

*Nid yw'r canrannau yn gwneud cyfanswm o 100% oherwydd talgrynnu

**Cwestiwn 2.42**
**Rhowch esboniad dros eich ateb. Os ydych wedi nodi eich bod yn anghytuno, esboniwch pa newidiadau y dylid eu gwneud yn eich barn chi.**

Crynodeb o'r ymatebion

**38.** Roedd mwyafrif mawr o blaid ei gwneud yn ofynnol i gleientiaid ddogfennu sut roeddent yn dilysu cymhwysedd Prif Ddylunwyr a Chontractwyr. Ystyriwyd bod hwn yn fesur diogelu rhag penodiadau gwael ac yn ffordd o greu llwybr archwiliad amddiffynadwy. Fodd bynnag, cododd rhai ymatebwyr bryderon ynghylch cymhwysedd cleientiaid, gan gynnwys cleientiaid domestig, a gofyn am ganllawiau ar y materion hyn.

**Cwestiwn 2.43**
**A ydych yn cytuno neu'n anghytuno y dylai unrhyw un sy'n gwneud penodiadau ar gyfer gwaith adeiladu ar adeilad risg uwch ystyried a allai trosedd ddifrifol fwrw amheuaeth ar sgiliau, gwybodaeth, profiad ac ymddygiadau person?**

Crynodeb o'r ymatebion

| | | |
|---|---|---|
| Cytuno | 41 | 84% |
| Anghytuno | 1 | 2% |
| Ddim yn cytuno nac yn anghytuno | 6 | 12% |
| Ddim yn gwybod | 1 | 2% |
| Cyfanswm yr ymatebion | 49 | 100% |

**Cwestiwn 2.44**
**Rhowch esboniad dros eich ateb. Os ydych wedi nodi eich bod yn anghytuno, esboniwch pa newidiadau y dylid eu gwneud yn eich barn chi.**

Crynodeb o'r ymatebion

**39.** Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr yn cytuno y dylai troseddau difrifol gael eu hystyried wrth benodi unigolion ar gyfer gwaith adeiladu risg uwch. Ystyriwyd bod hwn yn gam angenrheidiol er mwyn cynnal diogelwch a safonau proffesiynol. Nododd sawl ymatebydd fod angen diffiniadau a dulliau gorfodi clir.

**Cwestiwn 2.45**
**A ydych yn cytuno neu'n anghytuno ag ystyr arfaethedig trosedd ddifrifol?**

Crynodeb o'r ymatebion

| | | |
|---|---|---|
| Cytuno | 35 | 73% |
| Anghytuno | 8 | 17% |
| Ddim yn cytuno nac yn anghytuno | 2 | 4% |
| Ddim yn gwybod | 3 | 6% |
| Cyfanswm yr ymatebion | 48 | 100% |

**Cwestiwn 2.46**
**Rhowch esboniad dros eich ateb. Os ydych wedi nodi eich bod yn anghytuno, esboniwch pa newidiadau y dylid eu gwneud yn eich barn chi.**

Crynodeb o'r ymatebion

**40.** Er bod y rhan fwyaf o'r ymatebwyr yn cytuno â'r diffiniad arfaethedig, codwyd pryderon ynghylch tegwch, eglurder a'r potensial ar gyfer newid i enw da heb ddilyn proses ddyladwy. Galwodd rhai am sicrhau cysondeb â therminoleg Saesneg a chynnwys troseddau mwy cyffredinol. Cafwyd rhai sylwadau hefyd am derminoleg benodol a ddefnyddir yn y cynnig, gan nodi gwahaniaethau rhwng y derminoleg hon â rheoliadau sydd eisoes ar waith yn Lloegr.

**Cwestiwn 2.47**
**A ydych yn cytuno neu'n anghytuno y dylid cyfyngu'r gofyniad i ystyried troseddau difrifol i'r pum mlynedd flaenorol?**

Crynodeb o'r ymatebion

| | | |
|---|---|---|
| Cytuno | 24 | 49% |
| Anghytuno | 13 | 27% |
| Ddim yn cytuno nac yn anghytuno | 11 | 22% |
| Ddim yn gwybod | 1 | 2% |
| Cyfanswm yr ymatebion | 49 | 100% |

**Cwestiwn 2.48**
**Rhowch esboniad dros eich ateb. Os ydych wedi nodi eich bod yn anghytuno, esboniwch pa newidiadau y dylid eu gwneud yn eich barn chi.**

Crynodeb o'r ymatebion

**41.** Er bod rhywfaint o gefnogaeth o blaid alinio Cymru â safon pum mlynedd Lloegr, roedd cryn nifer o ymatebwyr o'r farn bod y cyfnod hwn yn rhy fyr, yn arbennig ar gyfer troseddau difrifol, a gwnaethant awgrymu y dylid ei estyn i 10 neu 12 mlynedd.

**Cwestiwn 2.49**
**A ydych yn cytuno neu'n anghytuno na ddylai'r rheoliadau ynglŷn â deiliaid dyletswydd a chymhwysedd fod yn gymwys i waith a ragnodir yn Atodlen 4 i Reoliadau Adeiladu 2010?**

Crynodeb o'r ymatebion

| | | |
|---|---|---|
| Cytuno | 33 | 69% |
| Anghytuno | 9 | 19% |
| Ddim yn cytuno nac yn anghytuno | 5 | 10% |
| Ddim yn gwybod | 1 | 2% |
| Cyfanswm yr ymatebion | 48 | 100% |

**Cwestiwn 2.50**
**Rhowch esboniad dros eich ateb. Os ydych wedi nodi eich bod yn anghytuno, esboniwch pa newidiadau y dylid eu gwneud yn eich barn chi.**

Crynodeb o'r ymatebion

**42.** Roedd mwyafrif o'r ymatebwyr yn cytuno na ddylai rheoliadau ynglŷn â dyletswyddau deiliaid a chymhwysedd fod yn gymwys i waith a ragnodir yn Atodlen 4, gan nodi bod y gwaith hwn yn gymharol fach. Nododd rhai ymatebwyr y gall hyd yn oed mân waith beri risgiau i ddiogelwch a chafwyd rhai sylwadau hefyd ynghylch cynlluniau personau cymwys a chymhwysedd y rhai sy'n gwneud y math hwn o waith.

**Cwestiwn 2.51**
**A oes gennych unrhyw sylwadau eraill mewn perthynas â'r cynigion?**

Crynodeb o'r ymatebion

**43.** Pwysleisiodd ymatebwyr fod angen canllawiau clir ar rolau a disgwyliadau o ran cymhwysedd ar gyfer deiliaid dyletswydd. At hynny, ailadroddodd rhai ymatebwyr ddatganiadau yn cefnogi cysondeb â rheoliadau yn Lloegr. Roedd galwadau hefyd am systemau cyfryngu a dulliau mwy manwl o ymdrin â phrosiectau cymhleth neu brosiectau treftadaeth.

**Ymateb y Llywodraeth**

**44.** Mae Llywodraeth Cymru yn croesawu'r gefnogaeth gref a fynegwyd i'r dyletswyddau a'r diffiniadau arfaethedig sy'n ymwneud â deiliaid dyletswydd a chymhwysedd. Mae'n werth nodi bod 89% o'r ymatebwyr yn cytuno â'r dyletswyddau arfaethedig ar gyfer pob deiliad dyletswydd yn ystod y camau dylunio ac adeiladu, gyda chefnogaeth debyg yn cael ei dangos i gynigion ar gyfer Dylunwyr a Chontractwyr, sy'n dangos bod consensws clir ynghylch pwysigrwydd atebolrwydd ac eglurder yn y rolau hyn. Ar y cyfan, mae'r ymatebion hyn yn cadarnhau cyfeiriad y fframwaith rheoleiddio arfaethedig ac yn pwysleisio bod angen systemau gweithredu cadarn, gan gynnwys darparu canllawiau clir ac alinio Cymru â rheoliadau yn Lloegr er mwyn sicrhau cysondeb a lleihau dryswch.

**45.** Rydym wedi adolygu sylwadau ymatebwyr ynglŷn ag ymarferoldeb y cynnig hwn. O ganlyniad, rydym wedi diwygio'r cynnig er mwyn caniatáu i Gleientiaid Domestig, pan fyddant yn credu bod ganddynt y cymhwysedd perthnasol,

ymgymryd â dyletswyddau cleient penodol a gweithredu fe Prif Gontractwr a/neu Brif Ddylunydd eu hunain.

**46.** Fodd bynnag, rydym yn disgwyl i unigolion nad oes ganddynt y cymhwysedd angenrheidiol, benodi person neu bersonau priodol i gyflawni'r rolau hyn ar eu rhan. Byddwn hefyd yn cadw'r man 'cilio' arfaethedig. Os na fydd Cleient Domestig yn penodi unrhyw un i'r rolau hyn, y Prif Gontractwr neu'r Prif Ddylunydd, fel y bo'n briodol, a fydd yn gyfrifol, yn awtomatig, am gyflawni'r dyletswyddau cysylltiedig.

**47.** Rydym yn cydnabod pwysigrwydd cysondeb â fframweithiau yn Lloegr a bydd yn cysoni terminoleg ac amserlenni lle y bo'n bosibl, fel yr adlewyrchir yn y penderfyniad i fabwysiadu terfyn pum mlynedd ar gyfer ystyried sancsiynau yn unol â rheoliadau sydd ar waith yn Lloegr.

# Llinyn aur o wybodaeth

**Crynodeb o'r ymatebion i'r cwestiynau**

**Cwestiwn 3.1**
**A ydych yn cytuno neu'n anghytuno â'r cynnig i gadw gwybodaeth sy'n gysylltiedig â'r cam ymgeisio am gymeradwyaeth rheolaeth adeiladu a'r cam ymgeisio am dystysgrif cwblhau yn union fel y byddant ar bwynt penodol o amser ac â’r cynnig i beidio â diweddaru'r wybodaeth honno ar ôl y cam cymeradwyo?**

Crynodeb o'r ymatebion

| | | |
|---|---|---|
| Cytuno | 30 | 70% |
| Anghytuno | 9 | 21% |
| Ddim yn cytuno nac yn anghytuno | 4 | 9% |
| Ddim yn gwybod | 0 | 0% |
| Cyfanswm yr ymatebion | 43 | 100% |

**Cwestiwn 3.2**
**Rhowch resymau dros eich ateb. Esboniwch pa newidiadau (os o gwbl) y dylid eu gwneud, yn eich barn chi.**

Crynodeb o'r ymatebion

**48.** Roedd y mwyafrif o'r ymatebwyr yn cefnogi'r cynnig i gadw gwybodaeth sy'n gysylltiedig â'r cam ymgeisio am gymeradwyaeth rheolaeth adeiladu a'r cam ymgeisio am dystysgrif cwblhau fel cyfeiriadau sefydlog ar bwynt penodol o amser. Roedd ymatebwyr yn gwerthfawrogi'r dull hwn o weithredu am ei fod yn glir, yn archwiliadwy ac yn gallu meincnodi cydymffurfiaeth ar adegau penodol. Fodd bynnag, pwysleisiodd llawer fod angen dogfennaeth atodol er mwyn adlewyrchu newidiadau dros gylch oes yr adeilad, gan sicrhau na chaiff diweddariadau sy'n hollbwysig o safbwynt diogelwch eu colli.

**Cwestiwn 3.3**
**A ydych yn cytuno neu'n anghytuno â'r cynnig i bennu gofynion cyffredinol ar gyfer iaith a chysondeb, yn hytrach na diffinio safonau penodol?**

Crynodeb o'r ymatebion

| | | |
|---|---|---|
| Cytuno | 25 | 60% |
| Anghytuno | 9 | 21% |
| Ddim yn cytuno nac yn anghytuno | 8 | 19% |
| Ddim yn gwybod | 0 | 0% |
| Cyfanswm yr ymatebion | 42 | 100% |

**Cwestiwn 3.4**
**Rhowch resymau dros eich ateb. Os ydych wedi nodi eich bod yn anghytuno, esboniwch pa newidiadau y dylid eu gwneud, yn eich barn chi.**

Crynodeb o'r ymatebion

**49.** Er bod mwyafrif o'r ymatebwyr yn cefnogi egwyddor gofynion cyffredinol, codwyd sawl pryder ynghylch goblygiadau ymarferol peidio â phennu safonau penodol neu beidio â chyfeirio atynt. Cafwyd galwadau am ganllawiau clir, templedi a safonau cyfeirio.

**Cwestiwn 3.5**

**A ydych yn cytuno neu'n anghytuno â sut y bwriedir sicrhau bod pobl wahanol yn gallu gweld y llinyn aur a bod modd trosglwyddo'r llinyn rhwng systemau gwahanol?**

Crynodeb o'r ymatebion

| | | |
|---|---|---|
| Cytuno | 40 | 93% |
| Anghytuno | 1 | 2% |
| Ddim yn cytuno nac yn anghytuno | 2 | 5% |
| Ddim yn gwybod | 0 | 0% |
| Cyfanswm yr ymatebion | 43 | 100% |

**Cwestiwn 3.6**

**Rhowch resymau dros eich ateb. Esboniwch pa newidiadau (os o gwbl) y dylid eu gwneud, yn eich barn chi.**

Crynodeb o'r ymatebion

**50.** Roedd mwyafrif mawr o'r ymatebwyr yn cytuno bod yn rhaid i'r llinyn aur fod yn hygyrch a chael ei drosglwyddo rhwng systemau Pwysleisiodd ymatebwyr bwysigrwydd defnyddioldeb hirdymor, yn arbennig ar gyfer gwaith cynnal a chadw ac ymyriadau diogelwch yn y dyfodol. Roedd cefnogaeth gref hefyd i fformatau system-agnostig, trywyddau archwilio a phrotocolau rhannu diogel er mwyn sicrhau parhad a thryloywder ar draws rhanddeiliaid a phlatfformau gwahanol.

**Cwestiwn 3.7**

**A ydych yn cytuno neu'n anghytuno â sut y bwriedir sicrhau bod y llinyn aur yn ddiogel?**

Crynodeb o'r ymatebion

| | | |
|---|---|---|
| Cytuno | 38 | 90% |
| Anghytuno | 3 | 7% |
| Ddim yn cytuno nac yn anghytuno | 1 | 2% |
| Ddim yn gwybod | 0 | 0% |
| Cyfanswm yr ymatebion | 42 | 100%* |

*Nid yw'r canrannau yn gwneud cyfanswm o 100% oherwydd talgrynnu

**Cwestiwn 3.8**

**Rhowch resymau dros eich ateb. Esboniwch pa newidiadau y dylid eu gwneud (os o gwbl)**

Crynodeb o'r ymatebion

**51.** Roedd y mwyafrif o'r ymatebwyr yn cytuno â'r dull gweithredu arfaethedig, gan ddangos cefnogaeth gref o blaid sicrhau'r llinyn aur. Pwysleisiodd ymatebwyr yn gyson bwysigrwydd diogelu gwybodaeth am adeiladau rhag mynediad heb awdurdod neu ymyrraeth fwriadol neu rhag cael ei cholli'n ddamweiniol. Gwnaethant hefyd dynnu sylw am yr angen am eglurder mewn perthynas â chaniatadau mynediad a rolau sy'n rhyngweithio â'r data.

**52.** Roedd dealltwriaeth a rennir, er bod angen fformatau digidol, fod yn rhaid iddynt gael eu hategu gan fesurau seiberddiogelwch cadarn a phrotocolau clir ar gyfer cadw data a rheoli fersiynau Lleisiodd rhai ymatebwyr bryder ynghylch cynnwys data personol neu ariannol sensitif ac argymell y dylid cyfyngu ar gynnwys o'r fath yn y llinyn aur.

**Cwestiwn 3.9**
**A ydych yn cytuno neu'n anghytuno â sut y bwriedir trefnu'r llinyn aur a sicrhau mynediad hwylus iddo?**

Crynodeb o'r ymatebion

| | | |
|---|---|---|
| Cytuno | 36 | 88% |
| Anghytuno | 4 | 10% |
| Ddim yn cytuno nac yn anghytuno | 1 | 2% |
| Ddim yn gwybod | 0 | 0% |
| Cyfanswm yr ymatebion | 41 | 100% |

**Cwestiwn 3.10**
**Rhowch resymau dros eich ateb. Esboniwch pa newidiadau (os o gwbl) y dylid eu gwneud, yn eich barn chi.**

Crynodeb o'r ymatebion

**53.** Roedd y mwyafrif o'r ymatebwyr yn cefnogi'r dull arfaethedig o sicrhau bod y llinyn aur yn hygyrch ac yn drefnus. Pwysleisiodd ymatebwyr fod angen templedi wedi'u strwythuro, hierarchaethau data clir a hawliau mynediad diffiniedig er mwyn sicrhau defnyddioldeb ar draws gwahanol grwpiau defnyddwyr.

**54.** Galwyd hefyd ar i Lywodraeth Cymru ddarparu canllawiau arfer gorau ac enghreifftiau i hyrwyddo cysondeb ac eglurder.

**Cwestiwn 3.11**
**A ydych yn cytuno neu'n anghytuno â sut y bwriedir sicrhau atebolrwydd yn y llinyn aur?**

Crynodeb o'r ymatebion

| | | |
|---|---|---|
| Cytuno | 38 | 93% |
| Anghytuno | 1 | 2% |
| Ddim yn cytuno nac yn anghytuno | 2 | 5% |
| Ddim yn gwybod | 0 | 0% |
| Cyfanswm yr ymatebion | 41 | 100% |

**Cwestiwn 3.12**
**Rhowch resymau dros eich ateb. Esboniwch pa newidiadau (os o gwbl) y dylid eu gwneud, yn eich barn chi.**

Crynodeb o'r ymatebion

**55.** Roedd bron pob un o'r ymatebwyr yn cytuno bod atebolrwydd yn bwysig i reoli'r llinyn aur. Pwysleisiodd ymatebwyr fod cyfrifoldeb clir, olrhain newidiadau a thrywyddau archwilio yn hanfodol er mwyn sicrhau cywirdeb data a'i gwneud yn bosibl i gamau gorfodi gael eu cymryd petai materion yn codi.

**Cwestiwn 3.13**
**A ydych yn cytuno neu'n anghytuno â'r cynnig i beidio diffinio ystyr 'digidol' mewn rheoliadau ond i bennu gofyniad ar yr un pryd i fedru trosglwyddo'n electronig?**

Crynodeb o'r ymatebion

| | | |
|---|---|---|
| Cytuno | 29 | 69% |
| Anghytuno | 9 | 21% |
| Ddim yn cytuno nac yn anghytuno | 4 | 10% |
| Ddim yn gwybod | 0 | 0% |
| Cyfanswm yr ymatebion | 42 | 100% |

**Cwestiwn 3.14**
**Rhowch resymau dros eich ateb. Esboniwch pa newidiadau a ddylai gael eu gwneud yn eich barn chi (os oes rhai)**

Crynodeb o'r ymatebion

**56.** Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr yn cytuno â'r cynnig i beidio â diffinio "digidol" mewn rheoliadau er mwyn rhoi hyblygrwydd a galluogi arloesi. Fodd bynnag, cafwyd sylwadau yn gofyn am safoni a chanllawiau clir er mwyn sicrhau hygyrchedd, y gallu i ryngweithredu a gwaith rheoli data costeffeithiol.

**Cwestiwn 3.15**
**A ydych yn cytuno neu'n anghytuno â'r dyletswyddau arfaethedig ar y cleient mewn perthynas â'r llinyn aur?**

Crynodeb o'r ymatebion

| | | |
|---|---|---|
| Cytuno | 36 | 90% |
| Anghytuno | 3 | 8% |
| Ddim yn cytuno nac yn anghytuno | 1 | 3% |
| Ddim yn gwybod | 0 | 0% |
| Cyfanswm yr ymatebion | 40 | 100%* |

*Nid yw'r canrannau yn gwneud cyfanswm o 100% oherwydd talgrynnu

**Cwestiwn 3.16**
**Rhowch resymau dros eich ateb. Esboniwch pa newidiadau y dylid eu gwneud (os o gwbl).**

Crynodeb o'r ymatebion

**57.** Roedd y mwyafrif helaeth o'r ymatebwyr o blaid gosod dyletswyddau ar y cleient, gan gydnabod i rôl ganolog. Fodd bynnag, nododd sawl ymatebydd fod angen canllawiau manwl ar ddelio â rhai o'r heriau ymarferol sy'n gysylltiedig â rhoi'r cynnig ar waith, a chymorth er mwyn sicrhau bod cleientiaid yn deall eu cyfrifoldebau ac yn gallu eu cyflawni'n llawn.

**Cwestiwn 3.17**
**A ydych yn cytuno neu'n anghytuno â'r dyletswyddau y bwriedir eu rhoi ar y Prif Ddylunydd a'r Prif Gontractwr mewn perthynas â'r llinyn aur?**

Crynodeb o'r ymatebion

| | | |
|---|---|---|
| Cytuno | 36 | 90% |
| Anghytuno | 4 | 10% |
| Ddim yn cytuno nac yn anghytuno | 0 | 0% |
| Ddim yn gwybod | 0 | 0% |
| Cyfanswm yr ymatebion | 40 | 100% |

**Cwestiwn 3.18**
**Rhowch resymau dros eich ateb. Esboniwch pa newidiadau (os o gwbl) y dylid eu gwneud, yn eich barn chi.**

Crynodeb o'r ymatebion

**58.** Dangosodd yr ymatebwyr gefnogaeth gref i'r dyletswyddau arfaethedig, gan nodi eu bod yn cyd-fynd â rolau a chyfrifoldebau presennol. Fodd bynnag, pwysleisiodd llawer o ymatebion fod angen eglurder ynglŷn â sut y caiff cyfrifoldebau eu rhannu gan nodi pwysigrwydd cydweithio rhwng prif ddylunwyr, prif gontractwyr a chleientiaid.

**Cwestiwn 3.19**
**A ydych yn cytuno neu'n anghytuno â'r cynnig i roi dyletswydd ar bob deiliad dyletswydd i adolygu'r wybodaeth sydd yn y llinyn aur drwy gydol y broses ddylunio ac adeiladu er mwyn sicrhau ei bod yn parhau'n berthnasol, yn ddefnyddiol, yn gymesur ac o gymorth i gydymffurfio â'r rheoliadau adeiladu?**

Crynodeb o'r ymatebion

| | | |
|---|---|---|
| Cytuno | 40 | 98% |
| Anghytuno | 1 | 2% |
| Ddim yn cytuno nac yn anghytuno | 0 | 0% |
| Ddim yn gwybod | 0 | 0% |
| Cyfanswm yr ymatebion | 41 | 100% |

**Cwestiwn 3.20**
**Rhowch resymau dros eich ateb. Esboniwch pa newidiadau (os o gwbl) y dylid eu gwneud, yn eich barn chi.**

Crynodeb o'r ymatebion

**59.** Roedd bron pob un o'r ymatebwyr yn cytuno y dylai pob deiliad dyletswydd adolygu gwybodaeth llinyn aur. Gan amlaf, nododd sylwadau fod hyn yn

hanfodol i gynnal cydymffurfedd, sicrhau diogelwch a sicrhau bod cofnodion yn parhau i fod yn gywir ac yn gyfredol drwy gydol cylch oes y prosiect.

**Cwestiwn 3.21**
**A ydych yn cytuno neu'n anghytuno â'r dyletswyddau y bwriedir eu rhoi, yng nghyswllt y llinyn aur, ar y cleient, y Prif Ddylunydd a'r Prif Gontractwr mewn perthynas â gwaith adeiladu mewn adeilad risg uwch sydd eisoes yn bod?**

Crynodeb o'r ymatebion

| | | |
|---|---|---|
| Cytuno | 38 | 93% |
| Anghytuno | 2 | 5% |
| Ddim yn cytuno nac yn anghytuno | 1 | 2% |
| Ddim yn gwybod | 0 | 0% |
| Cyfanswm yr ymatebion | 41 | 100% |

**Cwestiwn 3.22**
**Rhowch resymau dros eich ateb. Esboniwch pa newidiadau (os o gwbl) y dylid eu gwneud, yn eich barn chi.**

Crynodeb o'r ymatebion

**60.** Roedd yr ymatebwyr yn cytuno y dylai dyletswyddau ymestyn i gynnwys adeilad risg uwch er mwyn sicrhau cysondeb a diogelwch. Fodd bynnag, codwyd pryderon ynghylch sut i reoli gwaith domestig neu waith 'DIY', gyda rhai enghreifftiau penodol yn cael eu rhoi, a nododd sawl ymatebydd fod angen canllawiau clir.

**Cwestiwn 3.23**
**A ydych yn cytuno neu'n anghytuno â'r cynnig y dylai'r holl wybodaeth y mae'n rhaid i'r ymgeisydd ei chyflwyno yn y cais am gymeradwyaeth rheolaeth adeiladu gael ei storio yn y llinyn aur?**

Crynodeb o'r ymatebion

| | | |
|---|---|---|
| Cytuno | 38 | 93% |
| Anghytuno | 1 | 2% |
| Ddim yn cytuno nac yn anghytuno | 1 | 2% |
| Ddim yn gwybod | 1 | 2% |
| Cyfanswm yr ymatebion | 41 | 100%* |

*Nid yw'r canrannau yn gwneud cyfanswm o 100% oherwydd talgrynnu

**Cwestiwn 3.24**
**Rhowch resymau dros eich ateb. Os ydych yn anghytuno, esboniwch pa wybodaeth (os o gwbl) o'r cais am gymeradwyaeth rheolaeth adeiladu y dylid ei storio yn y llinyn aur.**

Crynodeb o'r ymatebion

**61.** Roedd consensws cryf bod storio'r holl wybodaeth am gais am gymeradwyaeth rheolaeth adeiladu yn y llinyn aur yn hanfodol. Pwysleisiodd ymatebwyr bwysigrwydd tryloywder, y gallu i olrhain a chynnal cofnod cyflawn ar gyfer

diogelwch a chydymffurfedd. Gofynnodd rhai ymatebwyr am eglurder ynghylch yr hyn sy'n gyfystyr â gwybodaeth berthnasol.

**Cwestiwn 3.25**
**A ydych yn cytuno neu'n anghytuno â'r cynigion o ran yr wybodaeth o'r llinyn aur y dylid ei rhoi i'r person cyfrifol?**

Crynodeb o'r ymatebion

| | | |
|---|---|---|
| Cytuno | 40 | 98% |
| Anghytuno | 1 | 2% |
| Ddim yn cytuno nac yn anghytuno | 0 | 0% |
| Ddim yn gwybod | 0 | 0% |
| Cyfanswm yr ymatebion | 41 | 100% |

**Cwestiwn 3.26**
**Rhowch resymau dros eich ateb. Nodwch pa newidiadau (os o gwbl) y dylid eu gwneud, yn eich barn chi.**

Crynodeb o'r ymatebion

**62.** Roedd mwyafrif helaeth o'r ymatebwyr yn cytuno â'r cynnig, gan bwysleisio pwysigrwydd proses drosglwyddo wedi'i strwythuro er mwyn sicrhau bod adeiladau yn cael eu rheoli'n ddiogel. Mae'r broses drosglwyddo yn cefnogi cydymffurfedd, atebolrwydd a chynllunio effeithiol ar gyfer gwaith cynnal a chadw ac argyfyngau. Cyfeiriodd sawl sylwebydd at gymariaethau â darpariaethau sydd ar waith ar gyfer trosglwyddo gwybodaeth yn Rheoliad 38, yn Rheoliadau Adeiladu 2010 a'r rheoliadau ynglŷn â'r gweithdrefnau ar gyfer adeiladau risg uwch sydd ar waith yn Lloegr.

**Cwestiwn 3.27**
**A ydych yn cytuno neu'n anghytuno, ar gyfer adeiladau risg uwch, y dylid trosglwyddo'r wybodaeth sydd yn y llinyn aur a gwybodaeth sy'n ymwneud â diogelwch tân, awyru, defnydd o danwydd a phŵer, systemau ar gyfer cynhyrchu trydan ar y safle a gorboethi i'r person cyfrifol heb fod yn hwyrach na'r dyddiad cwblhau?**

Crynodeb o'r ymatebion

| | | |
|---|---|---|
| Cytuno | 36 | 88% |
| Anghytuno | 5 | 12% |
| Ddim yn cytuno nac yn anghytuno | 0 | 0% |
| Ddim yn gwybod | 0 | 0% |
| Cyfanswm yr ymatebion | 41 | 100% |

**Cwestiwn 3.28**
**Rhowch resymau dros eich ateb. Os ydych yn anghytuno, nodwch pryd, yn eich barn chi, y dylid trosglwyddo'r wybodaeth honno.**

Crynodeb o'r ymatebion

**63.** Roedd y mwyafrif o'r ymatebwyr yn cytuno â'r cynigion gan bwysleisio bod yn rhaid i'r person cyfrifol allu gweld gwybodaeth sy'n hanfodol o safbwynt

diogelwch cyn i'r adeilad gael ei feddiannu. Awgrymodd sawl ymateb y dylai fod yn ofynnol i wybodaeth o'r fath gael ei throsglwyddo cyn cwblhau'r gwaith adeiladu, neu o leiaf ymhell cyn iddo gael ei feddiannu, er mwyn darparu ar gyfer gwaith cynllunio a lliniaru risg priodol. Cafwyd sylwadau hefyd yn gofyn am i ystyriaeth gael ei rhoi i sut y dylid ymdrin â phroses feddiannu fesul cam.

**Cwestiwn 3.29**
**A ydych yn cytuno neu'n anghytuno â'r cynnig bod y cleient a'r person cyfrifol yn rhannu gwybodaeth ac yn cael mynediad i'r llinyn aur pan fydd adeilad yn cael ei gwblhau'n rhannol?**

Crynodeb o'r ymatebion

| | | |
|---|---|---|
| Cytuno | 37 | 90% |
| Anghytuno | 1 | 2% |
| Ddim yn cytuno nac yn anghytuno | 3 | 7% |
| Ddim yn gwybod | 0 | 0% |
| Cyfanswm yr ymatebion | 41 | 100%* |

*Nid yw'r canrannau yn gwneud cyfanswm o 100% oherwydd talgrynnu

**Cwestiwn 3.30**
**Rhowch resymau dros eich ateb. Esboniwch pa newidiadau (os o gwbl) y dylid eu gwneud, yn eich barn chi.**

Crynodeb o'r ymatebion

**64.** Roedd mwyafrif o'r ymatebwyr yn cefnogi'r cynnig, gan gydnabod bod angen i'r cleient a'r person cyfrifol gael gweld y wybodaeth berthnasol yn ystod y broses feddiannau fesul cam. Thema gyffredin yn y sylwadau oedd y dylai'r cynigion sicrhau diogelwch a pharodrwydd gweithredol ar gyfer ardaloedd a feddiennir a'u bod yn cefnogi proses drosglwyddo derfynol ddidrafferth. Serch hynny, gofynnodd rhai sylwadau am i ofynion a chyfrifoldebau o ran mynediad i wybodaeth yn ystod proses gwblhau rannol gael eu hegluro.

**Cwestiwn 3.31**
**A ydych yn cytuno neu'n anghytuno bod angen rhoi dyletswydd barhaus i gydweithredu ar y cleient a'r person cyfrifol drwy gydol y broses cwblhau'n rhannol?**

Crynodeb o'r ymatebion

| | | |
|---|---|---|
| Cytuno | 39 | 100% |
| Anghytuno | 0 | 0% |
| Ddim yn cytuno nac yn anghytuno | 0 | 0% |
| Ddim yn gwybod | 0 | 0% |
| Cyfanswm yr ymatebion | 39 | 100% |

**Cwestiwn 3.32**
**Rhowch resymau dros eich ateb. Esboniwch pa newidiadau (os o gwbl) y dylid eu gwneud, yn eich barn chi.**

Crynodeb o'r ymatebion

**65.** Cafwyd cytundeb unfrydol. Pwysleisiodd ymatebwyr fod cydweithredu parhaus yn hanfodol i reoli risgiau, cynnal diogelwch a sicrhau bod mesurau dros dro a diweddariadau yn cael eu rhannu'n effeithiol.

**Cwestiwn 3.33**
**A oes gennych unrhyw sylwadau eraill mewn perthynas â'r cynigion?**

Crynodeb o'r ymatebion

**66.** Cyflwynwyd saith sylw ar gyfer y cwestiwn hwn. Roedd yr ymatebwyr yn cefnogi'r cynigion, ar y cyfan, yn arbennig y Llinyn Aur am eu bod yn ei ystyried yn gam hollbwysig tuag at wella diogelwch adeiladau. Fodd bynnag, gofynnodd rhai o'r sylwadau am fwy o eglurder ynglŷn â manylion gweithredu, yn arbennig ynglŷn â fformatau digidol, gofynion o ran data ac integreiddio rheoleiddiol. Codwyd pryderon hefyd ynghylch agweddau gweithdrefnol fel Porth 3 a gwaith adeiladau wedi'i gwblhau'n rhannol a allai effeithio ar ddiogelwch.

**Ymateb y Llywodraeth**

**67.** Rydym yn cydnabod y gefnogaeth gref i'r cynigion sy'n ymwneud â'r Llinyn Aur o wybodaeth. Ar draws yr adran hon o gynigion, roedd lefel gyfartalog y cytuno yn nodedig o uchel, gyda sawl cwestiwn yn cael cyfraddau cytuno o 90% neu fwy. Mae'r ymatebion hyn yn adlewyrchu consensws clir ynghylch pwysigrwydd tryloywder, hygyrchedd ac atebolrwydd wrth reoli gwybodaeth am ddiogelwch adeiladau.

**68.** Er bod mwyafrif o'r ymatebwyr yn cefnogi'r dyletswyddau arfaethedig ar gyfer Prif Ddylunwyr a Phrif Gontractwyr, ar ôl ystyried yr holl sylwadau a gweithgarwch ymgysylltu â rhanddeiliaid, rydym yn newid y cynigion drwy roi'r cyfrifoldeb am ddiweddaru'r Llinyn Aur i'r Cleient yn hytrach na'r Prif Ddylunydd a'r Prif Gontractwr fel y cynigiwyd yn wreiddiol. Ein bwriad yw mai'r Cleient fydd yn bennaf cyfrifol am y prosiect ac, felly, mai ef a ddylai fod yn gyfrifol am gyflawni'r ddyletswydd allweddol hon i sicrhau bod y Llinyn Aur wedi'i gwblhau. At hynny, mae hyn yn cyd-fynd â'r rheoliadau sydd eisoes ar waith yn Lloegr ac, felly, bydd yn lleihau dryswch i ddeiliaid dyletswydd a all fod yn gweithio yn y ddwy wlad.

**69.** Pwysleisiodd ymatebwyr yn gyson fod angen systemau strwythuredig, diogel a rhyngweithredol i gefnogi'r Llinyn Aur. Er bod y mwyafrif yn cytuno â'r egwyddorion cyffredinol, galwodd llawer am ganllawiau ychwanegol ac adnoddau ymarferol i gefnogi'r broses o roi'r cynigion ar waith. Mae hyn yn cynnwys ceisiadau am dempledi, safonau cyfeirio ac eglurder ynglŷn â rolau a chyfrifoldebau–yn enwedig ar gyfer cleientiaid, Prif Ddylunwyr a Phrif Gontractwyr. Mae'r llywodraeth yn cydnabod y pryderon hyn ac, er nad oes unrhyw newidiadau i'r cynigion yn y maes hwn, byddwn yn ystyried y ffordd orau o helpu rhanddeiliaid i gyflawni eu dyletswyddau, gan sicrhau bod y Llinyn Aur yn parhau i fod yn ddull cadarn a defnyddiadwy o sicrhau diogelwch adeiladau drwy gydol cylch oes adeiladau risg uwch.

# Prosesau pyrth ar gyfer gwaith adeiladu risg uwch

## Porth Cynllunio 1

**Crynodeb o'r ymatebion i'r cwestiynau**

**Cwestiwn 4.1**
**A ydych chi'n cytuno y dylid ymestyn y gofynion ymgynghori statudol ar gyfer awdurdodau tân ac achub i gynnwys adeiladau risg uwch yn benodol?**

Crynodeb o'r ymatebion

| | | |
|---|---|---|
| Cytuno | 4 | 36% |
| Anghytuno | 4 | 36% |
| Ddim yn cytuno nac yn anghytuno | 2 | 18% |
| Ddim yn gwybod | 1 | 1% |
| Cyfanswm yr ymatebion | 0 | 0% |

**Cwestiwn 4.2**
**Esboniwch eich ateb. Os ateboch 'Anghytuno', amlinellwch ba newidiadau y credwch y dylid eu gwneud.**

Crynodeb o'r ymatebion

**70.** Roedd llawer o'r ymatebwyr yn cytuno y dylai awdurdodau tân ac achub fod yn ymgyngoreion statudol ar gyfer adeiladau risg uwch. Roedd y safbwynt hwn yn cael ei rannu ar draws awdurdodau lleol, gweithwyr adeiladu proffesiynol, rheolwyr eiddo, dylunwyr, gweithgynhyrchwyr a chyrff proffesiynol. Roedd y prif resymau yn cynnwys gwella canlyniadau o ran diogelwch tân, galluogi mewnbwn cynharach i waith dylunio a sicrhau cysondeb â rheoliadau presennol. Tynnodd sawl ymateb sylw at bwysigrwydd ystyried meddianwyr sy'n agored i niwed a mathau cymhleth o adeiladau, gan argymell y dylid ehangu'r diffiniad o adeiladau risg uwch i gynnwys adeiladau sydd dros 11 metr o uchder neu sydd â mwy na thri llawr a'r rhai sydd â defnyddwyr sy'n agored i niwed megis ysbytai, cartrefi gofal ac ysgolion. Awgrymodd rhai awdurdodau lleol y dylid cyfyngu gweithgarwch ymgynghori i ddarpariaethau ar gyfer mynediad os bydd tân a diffodd tanau, tra cododd eraill bryderon ynghylch y posibilrwydd o orlwytho gwybodaeth o fân waith. Dim ond un sefydliad a oedd yn anghytuno, gan ddadlau bod y diffiniad presennol o adeiladau risg uwch yn rhy gul ac y dylid cynnwys mathau eraill o adeiladau hefyd. Ar y cyfan, roedd cefnogaeth gref i'r cynnig, gydag awgrymiadau i fireinio ei gwmpas a'r broses o'i roi ar waith.

**Cwestiwn 4.3**
**A ydych chi'n cytuno y dylai datganiadau tân fynnu'r un wybodaeth y gofynnir amdani ar hyn o bryd yn y ffurflen datganiad tân Porth Cynllunio Un a ddefnyddir yn Lloegr? (gweler [https://www.gov.uk/government/publications/planning-application-forms-templates-for-local-planning-authorities](https://www.gov.uk/government/publications/planning-application-forms-templates-for-local-planning-authorities) )**

Crynodeb o'r ymatebion

| | | |
|---|---|---|
| Cytuno | 4 | 36% |
| Anghytuno | 4 | 36% |
| Ddim yn cytuno nac yn anghytuno | 2 | 18% |
| Ddim yn gwybod | 1 | 1% |
| Cyfanswm yr ymatebion | 0 | 0% |

**Cwestiwn 4.4**
**Esboniwch eich ateb. Os ateboch 'Anghytuno', amlinellwch ba newidiadau y credwch y dylid eu gwneud.**

Crynodeb o'r ymatebion

**71.** Roedd cefnogaeth gref ymhlith amrywiaeth eang o sefydliadau o blaid mynnu bod datganiadau tân yng Nghymru yn cynnwys yr un wybodaeth y gofynnir amdani ar hyn o bryd yn y ffurflen datganiad tân Porth Cynllunio Un a ddefnyddir yn Lloegr? Ymhlith yr ymatebwyr a oedd yn cytuno roedd awdurdodau lleol, gweithwyr adeiladu proffesiynol, peirianwyr, syrfewyr, cymeradwywyr cofrestredig rheolaeth adeiladu, datblygwyr, penseiri, rheolwyr eiddo, cymdeithasau tai, gweithgynhyrchwyr a gwahanol gyrff proffesiynol a chyrff masnach.

**72.** Roedd llawer o'r ymatebwyr yn cefnogi'r cynnig am resymau'n ymwneud â chysondeb, eglurder ac ystyried diogelwch tân yn gynnar. Nododd sawl un fod y ffurflen a ddefnyddir yn Lloegr yn hirsefydlog a'i bod yn darparu fframwaith cadarn ar gyfer asesu diogelwch tân yn ystod y cam cynllunio. Nododd ymatebwyr eraill y byddai dull gweithredu unffurf o fudd i gontractwyr sy'n gweithio yng Nghymru a Lloegr. Roedd rhai o'r farn bod y ffurflen yn ymdrin ag agweddau allweddol megis mynediad tân ac achub a dylunio adeiladau a'i bod yn annog rhoi ystyriaeth briodol i ddiogelwch tân a bywyd o'r cychwyn.

**73.** Cynigiodd rhai sefydliadau welliannau i'r ffurflen. Awgrymodd gweithgynhyrchwr y dylai cynnwys gwybodaeth am ddeunyddiau llosgadwy a phaneli solar ffotofoltaidd, gan nodi eu risgiau tân posibl a chyfyngiadau safonau dosbarthu presennol. Argymhellodd rheolwr eiddo y dylid cynnwys sgwteri symudedd a cherbydau trydan eraill mewn ystyriaethau o ran diogelwch tân sy'n ymwneud â pharcio. Pwysleisiodd elusen cadwraeth fod angen cysoni â strategaethau tân a'r "Llinyn Aur" o wybodaeth am ddiogelwch, yn arbennig ar gyfer adeiladau treftadaeth. Roedd y sector iechyd o blaid y cynnig ond nododd y dylid addasu'r ffurflen i adlewyrchu safonau Cymreig a chynnwys systemau atal anweddu.

**74.** Cododd sawl awdurdod lleol bryderon ymarferol. Gwnaethant nodi fod dyluniadau diogelwch tân yn aml yn datblygu yn ystod asesiadau rheoliadau adeiladu, a allai arwain at anghysondebau rhwng dyluniadau cynllunio a dyluniadau terfynol. Codwyd pryderon hefyd ynghylch gorgyffwrdd posibl rhwng cyfrifoldebau am wasanaethau tân a chyfrifoldebau am reoli adeilad, a'r angen am strategaethau tân manwl ar y cam cynllunio. Gofynnodd un awdurdod a fyddai'r gofyniad yn gymwys i waith adnewyddu a gwaith mawr ar adeiladau presennol.

**75.** Ni nododd yr un ymatebydd yn benodol ei fod yn anghytuno â'r cynnig, er na ddarparodd nifer bach ymateb nac esboniad.

**Cwestiwn 4.5**
**A oes unrhyw fathau eraill o geisiadau cynllunio sy'n ymwneud ag adeiladau risg uwch y dylid cyflwyno datganiad tân gyda nhw?**

Crynodeb o'r ymatebion

**76.** Ar y cyfan, roedd yr ymatebwyr o blaid estyn gofynion o ran datganiadau tân y tu hwnt i adeiladau risg uwch newydd. Cynigiodd awdurdodau lleol y dylid cynnwys ceisiadau sy'n cynnwys ceblau uwchben, coed, digwyddiadau dros dro, gwaith adnewyddu a datblygiadau o dan y Gorchymyn Diwygio Rheoleiddio. Argymhellodd Cymeradwywyr Cofrestredig Rheolaeth Adeiladu y dylid cymhwyso datganiadau tân at bob annedd newydd a gwaith addasu i adeiladau risg uwch newydd, gan gyfeirio at bryderon ynghylch mynediad annigonol i wasanaethau tân.

**77.** Awgrymodd gweithwyr adeiladu proffesiynol a dylunwyr y dylid cynnwys pob adeilad newydd, estyniadau mwy o faint, ceisiadau amlinellol a datblygiadau sy'n cynnwys deunyddiau peryglus. Nododd rhai y dylid hyd yn oed ymdrin ag ystyriaethau sylfaenol o ran diogelwch tân–megis mynediad, llwybrau gwagio adeilad ac atal tanau rhag ymledu–ar y cam cynllunio.

**78.** Dadleuodd cyrff proffesiynol dros gynnwys adeiladau cyhoeddus mawr, gwaith addasu i adeiladau sy'n golygu bod ganddynt statws risg uwch a safleoedd cymhleth. Pwysleisiodd Sefydliad Siartredig y Technolegwyr Pensaernïol (CIAT) fod angen dull dylunio'n gyntaf a chwmpas cliriach ar gyfer adeiladau sy'n newid i gategorïau risg uwch.

**79.** Nododd partïon eraill â diddordeb newid defnydd ar gyfer adeiladau uchel iawn, safleoedd treftadaeth a datblygiadau sy'n effeithio ar gyflenwadau dŵr ar gyfer diffodd tanau. Codwyd pryderon ynghylch canlyniadau anfwriadol mewn cyd-destunau treftadaeth. Cynigiodd gweithgynhyrchwyr y dylid cynnwys risgiau tân ar lefel to a mynegodd rhai rheolwyr eiddo a chyrff masnach ansicrwydd neu gwnaethant ddewis peidio â gwneud sylwadau.

**Cwestiwn 4.6**
**A oes sefydliadau eraill a ddylai fod yn ymgynghorai statudol ar geisiadau sy'n cynnwys Datganiadau Tân, a pha faterion y byddent yn cynghori arnynt?**

Crynodeb o'r ymatebion

**80.** Argymhellodd sawl awdurdod lleol y dylai Rheoli Adeiladu Awdurdodau Lleol fod yn ymgynghorai statudol ym Mhorth Un, o ystyried ei rôl reoleiddio a'i allu i roi cyngor ar faterion diogelwch tân yn gynnar yn y broses gynllunio. Awgrymodd rhai hefyd y dylid ymgynghori ag ymgymerwyr dŵr ynglŷn â digonolrwydd cyflenwadau dŵr ar gyfer ymladd tanau ac, mewn achosion penodol, yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch pan fydd pryderon ynghylch diogelwch adeilad yn codi.

**81.** Roedd Cymeradwywyr Cofrestredig Rheolaeth Adeiladu o blaid cynnwys arbenigwyr allanol, yn enwedig ar gyfer cynlluniau cymhleth a gwnaethant

gynnig y dylai Llywodraeth Cymru gadw'r opsiwn i ymgynghori ag arbenigwyr o'r fath pan fydd adnoddau mewnol yn gyfyngedig.

**82.** Ar y cyfan, roedd gweithwyr adeiladu proffesiynol o blaid cynnal gweithgarwch ymgynghori ychwanegol ar gyfer adeiladau cymhleth, megis ysbytai, lle mae angen atebion peirianyddol tân a strategaethau gwagio adeilad arbenigol. Nododd un ymatebydd fod gan Gymru gyfle i gymhwyso proses y pyrth at bob adeiladau risg uwch, yn wahanol i Loegr lle y caiff ysbytai eu heithrio ar y cam cynllunio.

**83.** Awgrymodd dylunwyr, peirianwyr a syrfewyr y dylid cynnwys cyflenwyr dŵr ac awdurdodau gorfodi ar gyfer deddfwriaeth ynglŷn â deunyddiau peryglus (e.e. DSEAR, COMAH). Roedd rhai hefyd o blaid gweithgarwch ymgynghori ehangach yn dibynnu ar gymhlethdod y datblygiad.

**84.** Argymhellodd Heddlu De Cymru y dylai gwasanaethau'r heddlu fod yn ymgyngoreion statudol er mwyn iddynt roi cyngor ar ddiogelwch adeiladau a defnyddwyr.

**85.** Cynigiodd cyrff proffesiynol y dylid cynnwys sefydliadau megis RICS, CABE, IFE, a CIAT oherwydd eu harbenigedd ym maes peirianneg dân. Tynnodd CIAT sylw hefyd at yr angen i ystyried safleoedd cymhleth ac adeiladau sy'n newid i statws risg uwch, ac awgrymodd y dylai Llywodraeth Cymru fabwysiadau dull dylunio'n gyntaf.

**86.** Argymhellodd cymdeithasau masnach, gan gynnwys Ffederasiwn Adeiladwyr Cartrefi, y dylid defnyddio Tîm Arolygu ar y Cyd Llywodraeth Cymru fel adnodd tebyg i'r Rheoleiddiwr Diogelwch Adeiladau yn Lloegr, er mwyn cefnogi awdurdodau lleol a hwyluso cymeradwyaethau ar gyfer gwaith adeiladu risg uwch.

**87.** Awgrymodd penseiri y dylai Llywodraeth Cymru ehangu ei harbenigedd mewnol er mwyn sicrhau safonau cyson mewn ymgynghoriadau tân.

**88.** Mynegodd elusen cadwraeth bryder ynghylch y ffaith na chyfeirir at arbenigedd ym maes diogelwch tân sy'n ymwneud yn benodol â threftadaeth ac argymhellodd y dylid cynnwys sefydliadau megis Cadw, swyddogion cadwraeth a grŵp treftadaeth Sefydliad y Peirianwyr Tân.

**89.** Roedd cynrychiolwyr o'r sector gofal iechyd a rhai rheolwyr eiddo o'r farn bod y cwmpas presennol yn ddigonol, gydag adolygu gan gymheiriaid ymhlith gwasanaethau tân ac achub yn cael ei awgrymu fel dewis amgen yn lle cynyddu nifer yr ymgyngoreion statudol.

**Cwestiwn 4.7**
**A ydych chi'n cytuno y dylai elfennau dylunio fel llwybrau mynediad tân gael eu diogelu rhag diwygiadau gan gynigion datblygu yn y dyfodol trwy ymgynghoriad ychwanegol ag ymgyngoreion statudol? Rhowch resymau dros eich ateb.**

Crynodeb o'r ymatebion

**90.** Roedd cytundeb cyffredinol ymhlith yr ymatebwyr y dylid diogelu llwybrau mynediad tân ac elfennau dylunio hanfodol eraill rhag diwygiadau drwy

weithgarwch ymgynghori ychwanegol ag ymgyngoreion statudol. Roedd awdurdodau lleol yn gyson o blaid y dull hwn o weithredu, gan bwysleisio y gallai hyd yn oed mân ddatblygiadau yn y dyfodol danseilio diogelwch tân ac y dylai diogelu fod yn weithdrefn safonol. Nododd sawl un y dylid cynnwys Rheoli Adeiladu Awdurdodau Lleol mewn gweithgarwch ymgynghori parhaus er mwyn sicrhau bod cydymffurfiaeth yn cael ei gynnal.

**91.** Roedd Cymeradwywyr Cofrestredig Rheolaeth Adeiladu yn cytuno, gan dynnu sylw at yr angen am sbardunau clir ar gyfer ymgynghori a'r defnydd cyson o fesurau diogelwch. Roeddent yn cefnogi mesurau i sicrhau na fydd datblygiadau oddi amgylch yn rhwystro mynediad i adeiladau risg uwch at ddibenion ymladd tân.

**92.** Roedd gweithwyr adeiladu proffesiynol yn cefnogi'r cynnig, ar y cyfan, gyda rhai yn nodi y dylid adolygu newidiadau er mwyn sicrhau y parheir i gydymffurfio â rheoliadau adeiladu. Pwysleisiodd un ymatebydd y byddai caniatáu i adeiladau fod yn llai diogel o ganlyniad i waith datblygu yn y dyfodol yn annerbyniol.

**93.** Roedd dylunwyr, peirianwyr a syrfewyr yn cytuno hefyd, gan gyfeirio at bwysigrwydd cynnal mynediad ar gyfer cyfarpar tân a threfniadau dianc, gan gynnwys y rhai sy'n dibynnu ar safleoedd cyfagos. Gwnaethant bwysleisio na ddylai mesurau diogelwch ar y ffyrdd na mesurau traffig yn y dyfodol rwystro llwybrau tân penodedig.

**94.** Roedd Heddlu De Cymru o blaid llwybrau brys at ddibenion diogelu, gan nodi y gallai newidiadau beryglu diogelwch gweithredol.

**95.** Roedd partïon eraill â diddordeb, gan gynnwys gwasanaethau tân ac achub, cynrychiolwyr o'r sector gofal iechyd a chyrff diwydiant traws-broffesiynol, yn cytuno y dylai elfennau diogelwch tân allweddol gael eu diogelu a'u hadolygu'n rheolaidd. Tynnodd sefydliad proffesiynol sylw at bwysigrwydd cydgysylltu rhwng datblygiadau er mwyn sicrhau na chaiff diogelwch ei beryglu.

**96.** Roedd rheolwyr eiddo a chymdeithasau tai yn cytuno, ar y cyfan, er bod un ymatebydd o'r farn y dylid caniatáu newidiadau petaent yn cynnal mynediad digonol ac yn cael eu hadlewyrchu yn y Llinyn Aur. Pwysleisiodd eraill fod angen cadw strategaethau tân gwreiddiol a sicrhau na fydd datblygiadau newid yn ymyrryd â nhw.

**97.** Roedd cyrff masnach a gweithgynhyrchwyr yn cefnogi'r cynnig, gydag un gweithgynhyrchydd yn argymell y dylid ymgynghori ynghylch newidiadau i elfennau dylunio sy'n sensitif o safbwynt tân, megis waliau allanol, toeau a llwybrau gwagio adeilad. Awgrymodd corff masnach arall y gallai diwygiadau fod yn dderbyniol petaent yn darparu mynediad amgen sy'n cydymffurfio â rheoliadau.

**98.** Roedd penseiri a chyrff proffesiynol yn cytuno, gyda rhai yn nodi ei bod yn bwysig cynnal safonau cyson a sicrhau na fydd gwaith datblygu yn y dyfodol yn lleihau diogelwch tân.

**99.** Ni nododd yr un ymatebydd yn benodol ei fod yn gwrthwynebu'r cynnig, er i nifer bach beidio â darparu ymateb neu fynegi ansicrwydd.

**Cwestiwn 4.8**
**Sut dylai elfennau dylunio sy’n allweddol i ddiogelwch yn ymwneud ag adeiladau risg uwch gael eu hamlygu fel y gallant sbarduno trefniadau ymgynghori ynglyn â diogelu?**

Crynodeb o'r ymatebion

**100.** Roedd awdurdodau lleol o blaid nodi elfennau dylunio sy'n allweddol i ddiogelwch drwy ddogfennaeth wedi'i strwythuro megis cofnodlyfr dylunio hanfodol, integreiddio â'r Llinyn Aur a systemau cynllunio neu systemau rheolaeth adeiladu. Argymhellodd sawl un ddiogelu drwy amodau cynllunio a sbardunau ymgynghori sy'n gysylltiedig â newidiadau yn yr amgylchedd oddi amgylch.

**101.** Cynigiodd Cymeradwywyr Cofrestredig Rheolaeth Adeiladu y dylid defnyddio'r datganiad tân fel y ddogfen ganolog i ddiffinio sbardunau diogelu, gan gynnwys athroniaethau mynediad a pharthau agosrwydd. Roeddent hefyd yn cefnogi trefniadau asesu ac ymgynghori fesul achos pan allai newidiadau effeithio ar weithrediadau gwasanaethau tân.

**102.** Pwysleisiodd gweithwyr adeiladu proffesiynol rôl unigolion cymwys o ran nodi elfennau hanfodol. Roeddent o blaid defnyddio lluniadau fel y'i hadeiladwyd ac adolygiadau gan arbenigwyr, a rhybuddiodd rhai rhag defnyddio mesurau diogelwch cyffredinol a allai gyfyngu ar waith datblygu yn y dyfodol. Roedd eraill o blaid adneuo cynlluniau gydag awdurdodau lleol ar gyfer nodweddion y tu allan i ffin yr adeilad sy'n effeithio ar ddiogelwch tân.

**103.** Argymhellodd dylunwyr, peirianwyr a syrfewyr fapio gofodol, asesiadau risg ar gam gynnar a nodi gwasanaethau allweddol (e.e. hydrantau tân, y prif gyflenwad nwy). Gwnaethant bwysleisio pwysigrwydd cael sawl llwybr gwagio adeilad ac asesu risgiau i strwythurau cyfagos.

**104.** Galwodd Heddlu De Cymru am ddiffiniadau clir a therminoleg gyson mewn datganiadau tân a chynlluniau, wedi'u hategu gan gofrestr o elfennau hanfodol.

**105.** Cynigiodd cynrychiolwyr o'r sector gofal iechyd ymgynghori cyn ymgeisio wedi'i sbarduno drwy gyfeirio at gynlluniau wedi'i hadneuo, yn debyg i weithdrefnau cynllunio presennol yng Nghymru.

**106.** Tynnodd cyrff diwydiant traws-broffesiynol a sefydliadau proffesiynol sylw at yr angen am ganllawiau ar yr hyn sy'n gyfystyr ag elfennau sy'n allweddol i ddiogelwch, gan argymell nodi'n gynnar, adolygu parhaus a chyfrifoldeb deiliaid dyletswydd i hysbysu cyrff statudol pan fydd angen cynnal ailymgynghoriad diogelu.

**107.** Ildiodd cyrff masnach i arbenigwyr cymwys ond gwnaethant gydnabod pwysigrwydd diogelu Roedd gweithgynhyrchwyr o blaid cyhoeddi datganiadau tân er mwyn sicrhau tryloywder ac ymwybyddiaeth o nodweddion diogelwch tân hanfodol.

**108.** Argymhellodd penseiri y dylid ymgorffori elfennau sy'n allweddol i ddiogelwch mewn cynlluniau pensaernïol a chynnwys y Prif Ddylunydd mewn unrhyw ddiwygiadau. Awgrymwyd proses rheoli newid ffurfiol hefyd.

**109.** Galwodd elusennau cadwraeth am strategaethau diogelu rhag tân, cynlluniau gwagio adeilad a seilwaith ymladd tanau o fewn cwrtil adeiladau risg uwch a thu hwnt iddo, yn arbennig mewn cyd-destunau treftadaeth.

**110.** Cynigiodd rheolwyr eiddo a chymdeithasau tai y dylid tagio nodweddion hanfodol neu roi marc arnynt, cynnal ffeiliau adeiladau a sicrhau cyfathrebu â phreswylwyr. Nododd rhai yr her sy'n gysylltiedig â chynnal storfa hygyrch a chyfredol o nodweddion o'r fath.

**111.** Nid oedd yr un ymatebydd yn gwrthwynebu'r egwyddor o nodi elfennau dylunio sy'n allweddol i ddiogelwch, er i sawl un bwysleisio bod angen hyblygrwydd, barn arbenigwyr a chanllawiau i gefnogi'r broses weithredu.

**Ymateb y Llywodraeth**

**112.** Rydym yn croesawu'r gefnogaeth gref o blaid estyn y trefniadau ymgynghori statudol i gynnwys yn glir adeiladau risg uwch, gan nodi, ar yr un pryd, y pryderon ynghylch lefel y wybodaeth sy'n gysylltiedig â mân waith.Rydym yn fodlon y gall meintiau ymgynghori gael eu rheoli gan Wasanaethau Tân ac Achub a fyddai'n gallu lleihau nifer y mathau o geisiadau y maent am gael eu hysbysu amdanynt gan ddefnyddio'r mecanwaith presennol yng Ngorchymyn 2012.

**113.** Mae'r gefnogaeth eang o blaid cyflwyno Datganiadau Tân hefyd i'w groesawu. Rydym yn bwriadu cyflwyno Datganiadau Tân ar gyfer adeiladau risg uwch fel y cynigiwyd a byddwn yn ystyried ymhellach yr awgrymiadau ar gyfer cymhwyso'r gofyniad at fathau eraill o ddatblygiadau. O ran y materion sydd i'w cynnwys mewn Datganiad Tân, nodir y gefnogaeth o blaid cysondeb â Lloegr.Caiff hyn ei adolygu yng ngoleuni'r gefnogaeth gyffredinol o blaid trefniadau diogelu, er mwyn sicrhau y gall y wybodaeth a gesglir drwy'r Datganiad gael ei defnyddio'n hawdd ar gyfer gweithgarwch diogelu parhaus. Bydd ymatebion yn helpu i lywio cwmpas trefniadau diogelu rydym yn bwriadu eu cyflwyno ochr yn ochr â Datganiadau Tân.

**114.** Awgrymwyd nifer o ymgyngoreion statudol ychwanegol ar gyfer ceisiadau sy'n cynnwys Datganiadau Tân. Y mater allweddol a nodwyd oedd sicrhau bod adolygiad yn cael ei gynnal gan sefydliadau â digon o adnoddau ac arbenigedd technegol. Byddwn yn rhoi ystyriaeth bellach i'r mater hwn drwy drafod â'r cyrff a nodwyd.

## Cais am gymeradwyaeth Rheolaeth Adeiladu (Porth 2)

**Crynodeb o'r ymatebion i'r cwestiynau**

**Cwestiwn 4.9**
**Ydych chi'n cytuno y dylai'r cleient, y Prif Gontractwr neu'r Prif Ddylunydd allu cyflwyno'r cais gofynnol am gymeradwyaeth rheolaeth adeiladu i'r awdurdod lleol ar gyfer gwaith adeiladu risg uwch, ond bod yn rhaid iddo gael ei lofnodi gan y cleient?**

Crynodeb o'r ymatebion

| | | |
|---|---|---|
| Cytuno | 36 | 88% |
| Anghytuno | 1 | 2% |
| Ddim yn cytuno nac yn anghytuno | 3 | 7% |
| Ddim yn gwybod | 1 | 2% |
| Cyfanswm yr ymatebion | 41 | 100%* |

*Nid yw'r canrannau yn gwneud cyfanswm o 100% oherwydd talgrynnu

**Cwestiwn 4.10**
**Rhowch esboniad dros eich ateb. Os ydych wedi nodi eich bod yn anghytuno, nodwch pa newidiadau y dylid eu gwneud yn eich barn chi.**

Crynodeb o'r ymatebion

**115.** Roedd cefnogaeth gref o blaid caniatáu i'r cleient, y Prif Ddylunydd a'r Prif Gontractwr gyflwyno'r cais, ar yr amod ei fod wedi'i lofnodi gan y cleient. Bydd hyn yn sicrhau atebolrwydd a bod y cleient yn ymwybodol o'r ffaith bod y cais wedi'i gyflwyno.

**116.** Awgrymodd rhai ymatebwyr y dylai cais gael ei gydlofnodi gan bob deiliad dyletswydd.

**Cwestiwn 4.11**
**Ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'r gofynion arfaethedig o ran gwybodaeth ar gyfer ceisiadau am gymeradwyaeth rheolaeth adeiladu ar gyfer adeiladau risg uwch newydd?**

Crynodeb o'r ymatebion

| | | |
|---|---|---|
| Cytuno | 33 | 85% |
| Anghytuno | 4 | 10% |
| Ddim yn cytuno nac yn anghytuno | 2 | 5% |
| Ddim yn gwybod | 0 | 0% |
| Cyfanswm yr ymatebion | 39 | 100% |

**Cwestiwn 4.12**
**Rhowch esboniad dros eich ateb. Os ydych wedi nodi eich bod yn anghytuno, nodwch pa newidiadau y dylid eu gwneud yn eich barn chi.**

Crynodeb o'r ymatebion

**117.** Roedd mwyafrif helaeth o'r ymatebwyr yn cytuno â'r gofynion arfaethedig o ran gwybodaeth. Pwysleisiodd ymatebwyr fod angen eglurder, cysondeb â Lloegr a chanllawiau cynhwysfawr i gefnogi'r broses o roi'r cynnig ar waith ac osgoi camddehongli. Roedd rhai sylwadau yn cynnwys cynigion yn galw am i wybodaeth ychwanegol gael ei chynnwys gyda cheisiadau, er enghraifft, pan fyd cais ar gyfer adeilad defnydd cymysg.

**Cwestiwn 4.13**
**Ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'r wybodaeth arfaethedig y mae'n rhaid ei chynnwys mewn datganiad o gymhwysedd?**

Crynodeb o'r ymatebion

| | | |
|---|---|---|
| Cytuno | 37 | 95% |
| Anghytuno | 0 | 0% |
| Ddim yn cytuno nac yn anghytuno | 2 | 5% |
| Ddim yn gwybod | 0 | 0% |
| Cyfanswm yr ymatebion | 39 | 100% |

**Cwestiwn 4.14**
**Rhowch esboniad dros eich ateb. Os ydych wedi nodi eich bod yn anghytuno, nodwch pa newidiadau y dylid eu gwneud yn eich barn chi.**

Crynodeb o'r ymatebion

**118.** Roedd mwyafrif helaeth o'r ymatebwyr yn cytuno â'r cynnwys arfaethedig. Ystyriwyd bod y datganiad yn hanfodol i sicrhau atebolrwydd a rhoi sicrwydd, er i bryderon gael eu codi ynghylch y ffaith y gallai droi'n ymarfer ticio blychau.

**Cwestiwn 4.15**
**Ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'r dull arfaethedig o ymdrin â datganiadau o gymhwysedd a phroses dilysu cymhwysedd awdurdod lleol?**

Crynodeb o'r ymatebion

| | | |
|---|---|---|
| Cytuno | 31 | 78% |
| Anghytuno | 4 | 10% |
| Ddim yn cytuno nac yn anghytuno | 5 | 13% |
| Ddim yn gwybod | 0 | 0% |
| Cyfanswm yr ymatebion | 40 | 100%* |

*Nid yw'r canrannau yn gwneud cyfanswm o 100% oherwydd talgrynnu

**Cwestiwn 4.16**
**Rhowch esboniad dros eich ateb. Os ydych wedi nodi eich bod yn anghytuno, nodwch pa newidiadau y dylid eu gwneud.**

Crynodeb o'r ymatebion

**119.** Er bod mwyafrif o'r ymatebwyr yn cytuno â'r dull gweithredu, codwyd pryderon ynghylch capasiti a rôl awdurdodau lleol o ran dilysu cymhwysedd a sut y byddai hyn yn gweithio'n ymarferol. Awgrymodd llawer y byddai angen canllawiau i gefnogi'r broses weithredu.

**Cwestiwn 4.17**
**Ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'r cynnig i gynnwys datganiad i'w lofnodi gan y prif ddylunydd, a geiriad y datganiad hwnnw?**

Crynodeb o'r ymatebion

| | | |
|---|---|---|
| Cytuno | 37 | 95% |
| Anghytuno | 1 | 3% |
| Ddim yn cytuno nac yn anghytuno | 1 | 3% |
| Ddim yn gwybod | 0 | 0% |
| Cyfanswm yr ymatebion | 39 | 100%* |

*Nid yw'r canrannau yn gwneud cyfanswm o 100% oherwydd talgrynnu

**Cwestiwn 4.18**
**Rhowch esboniad dros eich ateb. Esboniwch pa newidiadau y dylid eu gwneud (os o gwbl).**

Crynodeb o'r ymatebion

**120.** Roedd cefnogaeth sylweddol o blaid cynnwys datganiad i'w lofnodi gan y prif ddylunydd, a geiriad y datganiad hwnnw? Roedd ymatebwyr o'r farn ei fod yn gam pwysig tuag at wella atebolrwydd, sicrhau diogelwch a rhoi'r gwersi a ddysgwyd o drychineb Tŵr Grenfell ar waith. Er i un ymateb godi pryderon ynghylch atebolrwydd ac ymwahanu oddi wrth reoliadau yn Lloegr, roedd consensws cryf o blaid y cynnig fel mesur angenrheidiol a chymesur i wella diogelwch adeiladau yng Nghymru.

**Cwestiwn 4.19**
**Ar wahân i'r datganiad i'w lofnodi gan y prif ddylunydd, ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'r rhestr arfaethedig o wybodaeth y mae'n rhaid ei chynnwys mewn datganiad o gydymffurfiaeth â'r rheoliadau adeiladu?**

Crynodeb o'r ymatebion

| | | |
|---|---|---|
| Cytuno | 38 | 95% |
| Anghytuno | 0 | 0% |
| Ddim yn cytuno nac yn anghytuno | 2 | 5% |
| Ddim yn gwybod | 0 | 0% |
| Cyfanswm yr ymatebion | 40 | 100% |

**Cwestiwn 4.20**
**Rhowch esboniad dros eich ateb. Os ydych wedi nodi eich bod yn anghytuno, esboniwch pa newidiadau y dylid eu gwneud.**

Crynodeb o'r ymatebion

**121.** Roedd mwyafrif helaeth o'r ymatebwyr yn cytuno â'r rhestr arfaethedig o wybodaeth sydd angen ei chynnwys. Pwysleisiodd ymatebwyr gysondeb â rheoliadau sydd ar waith yn Lloegr, yn ogystal â'r angen i ddefnyddio iaith glir er mwyn osgoi camddehongli. Codwyd rhai pryderon ynghylch sut y byddai'r datganiad yn gweithio yng nghyd-destun dulliau adeiladau ansafonol ac adeiladau hanesyddol.

**Cwestiwn 4.21**
**Ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'r rhestr arfaethedig o wybodaeth y mae'n rhaid ei chynnwys mewn ffeil tân ac argyfwng?**

Crynodeb o'r ymatebion

| | | |
|---|---|---|
| Cytuno | 33 | 83% |
| Anghytuno | 5 | 13% |
| Ddim yn cytuno nac yn anghytuno | 2 | 5% |
| Ddim yn gwybod | 0 | 0% |
| Cyfanswm yr ymatebion | 40 | 100%* |

*Nid yw'r canrannau yn gwneud cyfanswm o 100% oherwydd talgrynnu

**Cwestiwn 4.22**
**Rhowch esboniad dros eich ateb. Os ydych wedi nodi eich bod yn anghytuno, esboniwch pa newidiadau y dylid eu gwneud.**

Crynodeb o'r ymatebion

**122.** Roedd mwyafrif helaeth o'r ymatebwyr yn cytuno â'r rhestr arfaethedig. Pwysleisiodd ymatebwyr bwysigrwydd cynnwys egwyddorion peirianneg dân a sicrhau eu bod yn glir ac yn hawdd eu deall. Roedd cefnogaeth o blaid alinio Cymru â rheoliadau yn Lloegr a sicrhau bod y ffeil yn adlewyrchu tybiaethau realistig, megis ar gyfer y defnydd o'r adeilad yn y dyfodol a risgiau sy'n benodol i'r adeilad. Thema gyffredin yn yr ymatebion oedd cais am ganllawiau neu fframweithiau clir er mwyn nodi'r disgwyliad o ran lefel y manylder sydd ei hangen.

**Cwestiwn 4.23**
**Ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'r rhestr arfaethedig o wybodaeth y mae'n rhaid ei chynnwys mewn cynllun rheoli adeiladu?**

Crynodeb o'r ymatebion

| | | |
|---|---|---|
| Cytuno | 37 | 93% |
| Anghytuno | 1 | 3% |
| Ddim yn cytuno nac yn anghytuno | 2 | 5% |
| Ddim yn gwybod | 0 | 0% |
| Cyfanswm yr ymatebion | 40 | 100% |

*Nid yw'r canrannau yn gwneud cyfanswm o 100% oherwydd talgrynnu

**Cwestiwn 4.24**
**Rhowch esboniad dros eich ateb. Os ydych wedi nodi eich bod yn anghytuno, esboniwch pa newidiadau y dylid eu gwneud yn eich barn chi.**

Crynodeb o'r ymatebion

**123.** Roedd mwyafrif helaeth o'r ymatebwyr yn cytuno a phrin iawn oedd y rhai a oedd yn anghytuno. Roedd ymatebwyr yn cefnogi natur gynhwysfawr y rhestr ond gwnaethant ofyn am eglurhad ynglŷn â chyfrifoldebau a chysondeb â gofynion presennol yn Rheoliadau Adeiladu (Dylunio a Rheoli) 2015.

**Cwestiwn 4.25**
**Ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno y dylai'r Cynllun Rheoli Adeiladu nodi cynlluniau i ddangos sut y bydd y cleient yn cynnal ac yn rheoli'r llinyn aur?**

Crynodeb o'r ymatebion

| | | |
|---|---|---|
| Cytuno | 35 | 90% |
| Anghytuno | 2 | 5% |
| Ddim yn cytuno nac yn anghytuno | 2 | 5% |
| Ddim yn gwybod | 0 | 0% |
| Cyfanswm yr ymatebion | 39 | 100% |

**Cwestiwn 4.26**
**Rhowch esboniad dros eich ateb. Os ydych wedi nodi eich bod yn anghytuno, esboniwch pa newidiadau y dylid eu gwneud yn eich barn chi.**

Crynodeb o'r ymatebion

**124.** Roedd y mwyafrif helaeth o'r ymatebwyr o blaid cynnwys rheoli'r Llinyn Aur. Pwysleisiodd ymatebwyr ei bwysigrwydd i ddiogelwch a chydymffurfedd, gyda phwyslais ar bwysigrwydd perchenogaeth cleientiaid a gwaith rheoli parhaus.

**Cwestiwn 4.27**
**Ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'r rhestr arfaethedig o wybodaeth y mae'n rhaid ei chynnwys yn y cynllun rheoli adeiladu, gan gynnwys y gofynion o ran gwybodaeth yn y cofnod rheoli newid arfaethedig?**

Crynodeb o'r ymatebion

| | | |
|---|---|---|
| Cytuno | 35 | 90% |
| Anghytuno | 2 | 5% |
| Ddim yn cytuno nac yn anghytuno | 2 | 5% |
| Ddim yn gwybod | 0 | 0% |
| Cyfanswm yr ymatebion | 39 | 100% |

**Cwestiwn 4.28**
**Rhowch esboniad dros eich ateb. Os ydych wedi nodi eich bod yn anghytuno, esboniwch pa newidiadau y dylid eu gwneud yn eich barn chi.**

Crynodeb o'r ymatebion

**125.** Roedd mwyafrif helaeth o'r ymatebwyr yn cefnogi'r cynigion, gyda sylwadau yn pwysleisio'r angen am dryloywder, trywyddau archwilio ac eglurder. Codwyd rhai pryderon ynghylch baich cofnodi mân newidiadau. Roedd thema gyffredin yn ymwneud â chysondeb â rheoliadau yn Lloegr er mwyn cadw pethau'n syml.

**Cwestiwn 4.29**
**Ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno y dylai fod yn rhaid darparu datganiad yn disgrifio'r system adrodd gorfodol am ddigwyddiadau fel rhan o gais am gymeradwyaeth rheolaeth adeiladu?**

Crynodeb o'r ymatebion

| | | |
|---|---|---|
| Cytuno | 28 | 70% |
| Anghytuno | 5 | 13% |
| Ddim yn cytuno nac yn anghytuno | 6 | 15% |
| Ddim yn gwybod | 1 | 3% |
| Cyfanswm yr ymatebion | 40 | 100%* |

*Nid yw'r canrannau yn gwneud cyfanswm o 100% oherwydd talgrynnu

**Cwestiwn 4.30**
**Rhowch esboniad dros eich ateb. Os ydych wedi nodi eich bod yn anghytuno, esboniwch pa newidiadau y dylid eu gwneud yn eich barn chi.**

Crynodeb o'r ymatebion

126. Er bod mwyafrif o'r ymatebwyr yn cytuno â'r cynigion, codwyd pryderon ynghylch y baich y byddai cyflwyno adroddiadau i Lywodraeth Cymru yn ei roi ar systemau rheolaeth adeiladu yn ogystal ag eglurder y cynigion ar gyfer systemau adrodd.

**Cwestiwn 4.31**
**A oes unrhyw wybodaeth wedi'i nodi yn y dogfennau rhagnodedig na fyddai modd ei darparu cyn i'r gwaith adeiladu gychwyn?**

Crynodeb o'r ymatebion

| | | |
|---|---|---|
| Oes | 10 | 26% |
| Nac oes | 14 | 36% |
| Ddim yn gwybod | 15 | 38% |
| Cyfanswm yr ymatebion | 39 | 100% |

**Cwestiwn 4.32**
**Rhowch esboniad dros eich ateb. Os ydych wedi nodi Oes, amlinellwch pa wybodaeth na fyddai modd ei darparu.**

Crynodeb o'r ymatebion

127. Cymysg iawn oedd yr ymatebion i'r cwestiwn hwn. Rhoddodd sylwadau i'r perwyl na fydd modd darparu gwybodaeth fanwl enghreifftiau megis manylion is-gontractwyr a chynlluniau meddiannu fesul cam. Ailadroddodd sylwadau eraill alwadau am i wybodaeth ychwanegol gael ei darparu megis ar gyfer adeiladau defnydd cymysg.

**Cwestiwn 4.33**
**Ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno bod y gofynion penodol ar gyfer ymgeisydd sy'n cynnig adeiladu adeilad risg uwch fesul camau yn ddigonol i sicrhau bod deiliaid dyletswydd yn dangos sut y byddant yn cydymffurfio â holl ofynion cymwys y rheoliadau adeiladu?**

Crynodeb o'r ymatebion

| | | |
|---|---|---|
| Cytuno | 26 | 67% |
| Anghytuno | 7 | 18% |
| Ddim yn cytuno nac yn anghytuno | 5 | 13% |
| Ddim yn gwybod | 1 | 3% |
| Cyfanswm yr ymatebion | 39 | 100%* |

*Nid yw'r canrannau yn gwneud cyfanswm o 100% oherwydd talgrynnu

**Cwestiwn 4.34**
**Rhowch esboniad dros eich ateb. Os ydych wedi nodi eich bod yn anghytuno, esboniwch pa newidiadau y dylid eu gwneud yn eich barn chi.**

Crynodeb o'r ymatebion

128. Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr yn cefnogi ceisiadau fesul cam fel ateb ymarferol ar gyfer adeiladau cymhleth, yn arbennig prosiectau cyhoeddus mawr. Fodd bynnag, mae pryder ynghylch y potensial ar gyfer camddefnyddio a'r angen am ganllawiau clir ar fwriad.

**Cwestiwn 4.35**
**A ddylai fod unrhyw addasiadau ychwanegol (y tu hwnt i'r rhai a gynigiwyd ar gyfer cynlluniau a'r datganiad o gydymffurfiaeth â'r Rheoliadau Adeiladu) i'r dogfennau rhagnodedig os yw'r ymgeisydd wedi darparu datganiad "gwaith fesul cam"?**

Crynodeb o'r ymatebion

| | | |
|---|---|---|
| Dylai | 12 | 32% |
| Na ddylai | 12 | 32% |
| Ddim yn gwybod | 14 | 37% |
| Cyfanswm yr ymatebion | 38 | 100%* |

*Nid yw'r canrannau yn gwneud cyfanswm o 100% oherwydd talgrynnu

**Cwestiwn 4.36**
**Rhowch esboniad dros eich ateb. Os ydych wedi nodi Dylai, esboniwch pa newidiadau y dylid eu gwneud yn eich barn chi.**

Crynodeb o'r ymatebion

**129.** Nid oedd unrhyw gonsensws clir ynghylch a oes angen addasiadau ychwanegol, ond mae llawer o ymatebwyr yn pwysleisio pwysigrwydd rheoli risg, yn enwedig rheoli risgiau diogelwch tân a'r angen am eglurder mewn dogfennau.

**Cwestiwn 4.37**
**Ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'r gofynion hysbysu ychwanegol a osodir ar ddeiliaid dyletswydd sy'n adeiladu adeilad risg uwch newydd fesul cam?**

Crynodeb o'r ymatebion

| | | |
|---|---|---|
| Cytuno | 39 | 100% |
| Anghytuno | 0 | 0% |
| Ddim yn cytuno nac yn anghytuno | 0 | 0% |
| Ddim yn gwybod | 0 | 0% |
| Cyfanswm yr ymatebion | 39 | 100% |

**Cwestiwn 4.38**
**Rhowch esboniad dros eich ateb. Os ydych wedi nodi eich bod yn anghytuno, esboniwch pa newidiadau y dylid eu gwneud yn eich barn chi.**

Crynodeb o'r ymatebion

**130.** Roedd pob un o'r ymatebwyr yn cytuno bod hysbysiadau ychwanegol yn hanfodol i gynnal diogelwch a goruchwyliaeth yn ystod gwaith adeiladu fesul cam. Gofynnodd rhai sylwadau am eglurder ychwanegol ynghylch yr hyn a ystyrir yn ddull gweithredu fesul cam.

**Cwestiwn 4.39**
**Ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'r rhestr arfaethedig o wybodaeth y dylid ei chynnwys mewn strategaeth ar gyfer gwaith adeiladu wedi'i gwblhau'n rhannol?**

Crynodeb o'r ymatebion

| | | |
|---|---|---|
| Cytuno | 36 | 92% |
| Anghytuno | 1 | 3% |
| Ddim yn cytuno nac yn anghytuno | 2 | 5% |
| Ddim yn gwybod | 0 | 0% |
| Cyfanswm yr ymatebion | 39 | 100% |

**Cwestiwn 4.40**
**Rhowch esboniad dros eich ateb. Os ydych wedi nodi eich bod yn anghytuno, esboniwch pa newidiadau y dylid eu gwneud yn eich barn chi.**

Crynodeb o'r ymatebion

**131.** Roedd y mwyafrif helaeth o'r ymatebwyr yn cefnogi'r rhestr arfaethedig, gan ddangos consensws eang ei fod yn darparu sylfaen gadarn ar gyfer sicrhau diogelwch a chydymffurfiaeth yn ystod proses feddiannu fesul cam. Fodd bynnag, tynnodd sawl ymateb sylw at yr angen i ddarparu mwy o eglurder ac arweiniad ymarferol a rhoi ystyriaeth bellach i rolau a chyfrifoldebau gwahanol randdeiliaid, yn enwedig yr Arolygwyr Cofrestredig Adeiladu a fydd yn asesu'r strategaeth.

**Cwestiwn 4.41**
**Ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno y dylai'r awdurdod lleol ymgynghori â'r awdurdod tân ac achub ar gydymffurfiaeth â'r Gorchymyn Diwygio Rheoleiddio (Diogelwch Tân) 2005 cyn penderfynu ar geisiadau am gymeradwyaeth rheolaeth adeiladu?**

Crynodeb o'r ymatebion

| | | |
|---|---|---|
| Cytuno | 38 | 93% |
| Anghytuno | 2 | 5% |
| Ddim yn cytuno nac yn anghytuno | 1 | 2% |
| Ddim yn gwybod | 0 | 0% |
| Cyfanswm yr ymatebion | 41 | 100% |

**Cwestiwn 4.42**
**Rhowch esboniad dros eich ateb. Os ydych wedi nodi eich bod yn anghytuno, esboniwch pa newidiadau y dylid eu gwneud yn eich barn chi, gan gynnwys beth arall y dylid ymgynghori â'r awdurdod lleol yn ei gylch, yn eich barn chi.**

Crynodeb o'r ymatebion

**132.** Roedd y mwyafrif helaeth o'r ymatebwyr o blaid cynnwys Awdurdodau Tân ac Achub, ond codwyd pryderon ynghylch capasiti awdurdodau i ymateb i ymgynghoriadau a'r amserlenni arfaethedig.

**Cwestiwn 4.43**
**Ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno na ddylid penderfynu ar gais am gymeradwyaeth rheolaeth adeiladu cyn pen 15 diwrnod gwaith ar ôl y dyddiad y cyflwynwyd y cynlluniau i'r awdurdod tân ac achub?**

Crynodeb o'r ymatebion

| | | |
|---|---|---|
| Cytuno | 28 | 74% |
| Anghytuno | 4 | 11% |
| Ddim yn cytuno nac yn anghytuno | 6 | 16% |
| Ddim yn gwybod | 0 | 0% |
| Cyfanswm yr ymatebion | 38 | 100%* |

*Nid yw'r canrannau yn gwneud cyfanswm o 100% oherwydd talgrynnu

**Cwestiwn 4.44**
**Rhowch esboniad dros eich ateb. Os ydych wedi nodi eich bod yn anghytuno, beth fyddai'n gyfnod rhesymol o amser yn eich barn chi?**

Crynodeb o'r ymatebion

**133.** Roedd y rhan fwyaf yn cytuno â'r cyfnod lleiaf o 15 diwrnod ond gofynnodd sawl ymatebydd am hyblygrwydd a gweithdrefnau clir ar gyfer achosion 'dim ymateb' neu achosion cymhleth.

**Cwestiwn 4.45**
**Ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'r cynnig i newid pryd y dylai awdurdod lleol ymgynghori ag awdurdod gorfodi o pan fydd "addasiad strwythurol" i adeilad i pan fydd "addasiad sylweddol" i adeilad?**

Crynodeb o'r ymatebion

| | | |
|---|---|---|
| Cytuno | 33 | 85% |
| Anghytuno | 2 | 5% |
| Ddim yn cytuno nac yn anghytuno | 4 | 10% |
| Ddim yn gwybod | 0 | 0% |
| Cyfanswm yr ymatebion | 39 | 100% |

**Cwestiwn 4.46**
**Rhowch esboniad dros eich ateb. Esboniwch pa newidiadau y dylid eu gwneud (os o gwbl) yn eich barn chi.**

Crynodeb o'r ymatebion

**134.** Ar y cyfan, roedd cefnogaeth gref i'r newid, gyda nifer o sylwadau yn nodi y gall addasiadau sylweddol effeithio ar ddiogelwch Fodd bynnag, gofynnodd sawl ymatebydd am eglurder mewn diffiniadau er mwyn osgoi dryswch.

**Cwestiwn 4.47**
**Ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno y dylai'r awdurdod lleol ymgynghori â'r ymgymerwr carthffosiaeth ar Ran H o Atodlen 1 i'r Rheoliadau Adeiladu wrth benderfynu ar geisiadau am gymeradwyaeth rheolaeth adeiladu?**

Crynodeb o'r ymatebion

| | | |
|---|---|---|
| Cytuno | 29 | 76% |
| Anghytuno | 1 | 3% |
| Ddim yn cytuno nac yn anghytuno | 4 | 11% |
| Ddim yn gwybod | 4 | 11% |

| | | |
|---|---|---|
| Cyfanswm yr ymatebion | 38 | 100%* |

*Nid yw'r canrannau yn gwneud cyfanswm o 100% oherwydd talgrynnu

**Cwestiwn 4.48**
**Rhowch esboniad dros eich ateb. Os ydych wedi nodi eich bod yn anghytuno, esboniwch pa newidiadau y dylid eu gwneud yn eich barn chi.**

Crynodeb o'r ymatebion

**135.** Roedd mwyafrif helaeth o'r ymatebwyr yn cytuno y dylai awdurdodau lleol ymgynghori ag ymgymerwyr carthffosiaeth. Pwysleisiodd ymatebwyr bwysigrwydd diogelu seilwaith a chydymffurfiaeth amgylcheddol. Fodd bynnag, codwyd pryderon ynghylch amharodrwydd ymgymerwyr i ymgysylltu ag ymgeiswyr a rheolaeth adeiladu oherwydd cyfyngiadau ar adnoddau.

**Cwestiwn 4.49**
**Ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno na ddylid penderfynu ar gais cyn pen 15 diwrnod gwaith ar ôl y dyddiad y cyflwynwyd y cynlluniau i'r ymgymerwr carthffosiaeth o leiaf?**

Crynodeb o'r ymatebion

| | | |
|---|---|---|
| Cytuno | 25 | 66% |
| Anghytuno | 4 | 11% |
| Ddim yn cytuno nac yn anghytuno | 5 | 13% |
| Ddim yn gwybod | 4 | 11% |
| Cyfanswm yr ymatebion | 38 | 100%* |

*Nid yw'r canrannau yn gwneud cyfanswm o 100% oherwydd talgrynnu

**Cwestiwn 4.50**
**Rhowch esboniad dros eich ateb. Os ydych wedi nodi eich bod yn anghytuno, esboniwch pa newidiadau y dylid eu gwneud yn eich barn chi.**

Crynodeb o'r ymatebion

**136.** Roedd y rhan fwyaf o bobl yn cytuno â'r cyfnod lleiaf o 15 diwrnod, gyda sylwadau cyffredin yn nodi bod angen hyn er mwyn sicrhau adolygiadau trylwyr, er i rai awgrymu y dylid estyn y cyfnod i 30 diwrnod. Codwyd pryderon ynghylch oedi o ganlyniad i'r ffaith bod yn well gan ymgymerwyr gysylltu ag ymgeiswyr yn uniongyrchol ac oherwydd cymhlethdod cynlluniau.

**Cwestiwn 4.51**
**Ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'r mathau arfaethedig o ofynion y gall yr awdurdod lleol eu gosod wrth gymeradwyo cais?**

Crynodeb o'r ymatebion

| | | |
|---|---|---|
| Cytuno | 37 | 97% |
| Anghytuno | 1 | 3% |
| Ddim yn cytuno nac yn anghytuno | 0 | 0% |
| Ddim yn gwybod | 0 | 0% |
| Cyfanswm yr ymatebion | 38 | 100% |

**Cwestiwn 4.52**
**Rhowch esboniad dros eich ateb. Os ydych wedi nodi eich bod yn anghytuno, esboniwch pa newidiadau y dylid eu gwneud yn eich barn chi.**

Crynodeb o'r ymatebion

**137.** Roed mwyafrif mawr iawn o'r ymatebwyr yn cytuno. Roedd ymatebwyr yn cefnogi cymeradwyaethau amodol ar gyfer mân fanylion sydd ar goll ond gwnaethant bwysleisio bod angen eglurder a chysondeb. Er eu bod yn cytuno â'r cynnig, nododd rhai ymatebwyr fod angen sicrhau na fydd hyn yn gwneud adeiladau yn llai diogel.

**Cwestiwn 4.53**
**Ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'r cynnig i alluogi'r awdurdod lleol i atal gwaith adeiladu rhag dechrau nes bod yr ymgeisydd wedi bodloni gofyniad o fath a ddisgrifir isod?**

Crynodeb o'r ymatebion

| | | |
|---|---|---|
| Cytuno | 34 | 89% |
| Anghytuno | 3 | 8% |
| Ddim yn cytuno nac yn anghytuno | 1 | 3% |
| Ddim yn gwybod | 0 | 0% |
| Cyfanswm yr ymatebion | 38 | 100% |

**Cwestiwn 4.54**
**Rhowch esboniad dros eich ateb. Os ydych wedi nodi eich bod yn anghytuno, esboniwch pa newidiadau y dylid eu gwneud yn eich barn chi.**

Crynodeb o'r ymatebion

**138.** Er bod mwyafrif helaeth o'r ymatebwyr yn cefnogi'r cynnig am resymau diogelwch a rheolaeth, cododd rhai bryderon ynghylch y risg y perir oedi i brosiectau a'r angen am amserlenni ac atebolrwydd clir gan awdurdodau lleol.

**Cwestiwn 4.55**
**Ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'r seiliau arfaethedig dros wrthod cais am gymeradwyaeth rheolaeth adeiladu?**

Crynodeb o'r ymatebion

| | | |
|---|---|---|
| Cytuno | 36 | 97% |
| Anghytuno | 0 | 0% |
| Ddim yn cytuno nac yn anghytuno | 1 | 3% |
| Ddim yn gwybod | 0 | 0% |
| Cyfanswm yr ymatebion | 37 | 100% |

**Cwestiwn 4.56**
**Rhowch esboniad dros eich ateb. Os ydych wedi nodi eich bod yn anghytuno, esboniwch pa newidiadau y dylid eu gwneud yn eich barn chi.**

Crynodeb o'r ymatebion

**139.** Roedd mwyafrif helaeth o'r ymatebwyr yn cytuno â'r cynigion. Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr o blaid gwrthod ceisiadau annigonol ond thema gyffredin a gododd yn y sylwadau oedd bod angen i hyn gael ei gymhwyso'n gyson a bod angen meini prawf clir i sicrhau bod hyn yn digwydd.

**Cwestiwn 4.57**
**Ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'r dull arfaethedig a amlinellwyd y dylai awdurdodau lleol ei ddefnyddio i roi gwybod i ymgeiswyr am benderfyniad?**

Crynodeb o'r ymatebion

| | | |
|---|---|---|
| Cytuno | 36 | 97% |
| Anghytuno | 0 | 0% |
| Ddim yn cytuno nac yn anghytuno | 1 | 3% |
| Ddim yn gwybod | 0 | 0% |
| Cyfanswm yr ymatebion | 37 | 100% |

**Cwestiwn 4.58**
**Rhowch esboniad dros eich ateb. Os ydych wedi nodi eich bod yn anghytuno, esboniwch pa newidiadau y dylid eu gwneud yn eich barn chi.**

Crynodeb o'r ymatebion

**140.** Roedd bron pob un o'r ymatebwyr yn cytuno. Roedd cefnogaeth gref o blaid rhoi gwybod am benderfyniadau yn ysgrifenedig ac yn dryloyw. Codwyd rhai pryderon er bod y rhain yn ymwneud â sicrhau bod awdurdodau lleol yn cael adnoddau priodol i ddarparu'r gwasanaeth, yn hytrach na'r cynigion penodol.

**Cwestiwn 4.59**
**Ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno bod 12 wythnos yn gyfnod priodol o amser i awdurdod lleol benderfynu ar gais am gymeradwyaeth rheolaeth adeiladu ar gyfer adeilad risg uwch newydd?**

Crynodeb o'r ymatebion

| | | |
|---|---|---|
| Cytuno | 29 | 73% |
| Anghytuno | 5 | 13% |
| Ddim yn cytuno nac yn anghytuno | 5 | 13% |
| Ddim yn gwybod | 1 | 3% |
| Cyfanswm yr ymatebion | 40 | 100%* |

*Nid yw'r canrannau yn gwneud cyfanswm o 100% oherwydd talgrynnu

**Cwestiwn 4.60**
**Rhowch esboniad dros eich ateb. Os ydych wedi nodi eich bod yn anghytuno, esboniwch beth fyddai'n gyfnod rhesymol o amser yn eich barn chi.**

Crynodeb o'r ymatebion

**141.** Roedd mwyafrif o'r ymatebwyr yn cytuno â'r cyfnod o amser, ond nododd sawl un mai 12 wythnos ddylai fod y cyfnod hwyaf o amser a ganiateir ac na ddylid ei estyn, gyda chyfeiriadau mynych at y gyfundrefn sydd ar waith yn Lloegr. Ymhlith y pryderon a leisiwyd roedd cymhlethdod adeiladau risg uwch,

cyfyngiadau ar adnoddau a'r angen am hyblygrwydd a diweddariadau rheolaidd.

**Cwestiwn 4.61**
**Ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno y dylid adlewyrchu gwaith o dan gynllun person cymwys mewn ceisiadau am gymeradwyaeth rheolaeth adeiladu os yw'r cyfryw waith yn rhan o brosiect gwaith adeiladu risg uwch ehangach?**

Crynodeb o'r ymatebion

| | | |
|---|---|---|
| Cytuno | 37 | 93% |
| Anghytuno | 1 | 3% |
| Ddim yn cytuno nac yn anghytuno | 2 | 5% |
| Ddim yn gwybod | 0 | 0% |
| Cyfanswm yr ymatebion | 40 | 100%* |

*Nid yw'r canrannau yn gwneud cyfanswm o 100% oherwydd talgrynnu

**Cwestiwn 4.62**
**Rhowch esboniad dros eich ateb. Os ydych wedi nodi eich bod yn anghytuno, esboniwch pa newidiadau y dylid eu gwneud yn eich barn chi.**

Crynodeb o'r ymatebion

**142.** Roedd mwyafrif mawr o'r ymatebwyr yn cytuno. Ar y cyfan, roedd yr ymatebwyr o blaid ei gynnwys, ond thema gyffredin oedd nad yw aelodaeth o gynllun person cymwys ar ei ben ei hun yn gwarantu cymhwysedd ar gyfer gwaith adeiladu risg uwch.

**Cwestiwn 4.63**
**Sawl diwrnod ymlaen llaw y dylid rhoi gwybod i'r awdurdod lleol am y bwriad i gychwyn gwaith adeiladu risg uwch?**

Crynodeb o'r ymatebion

| | | |
|---|---|---|
| Dau ddiwrnod fel sy'n digwydd ar hyn o bryd | 3 | 7% |
| Pum diwrnod fel sy'n digwydd ar gyfer gwaith adeiladu risg uwch yn Lloegr | 32 | 78% |
| Nifer gwahanol o ddiwrnodau (esboniwch isod) | 6 | 15% |
| Ni ddylai fod angen hysbysiad cychwyn | 0 | 0% |
| Cyfanswm yr ymatebion | 41 | 100% |

**Cwestiwn 4.64**
**Rhowch esboniad dros eich ateb. Os ydych wedi nodi ‘nifer gwahanol o ddiwrnodau’, nodwch sawl diwrnod fyddai'n briodol yn eich barn chi.**

Crynodeb o'r ymatebion

**143.** Roedd y mwyafrif o'r ymatebwyr yn cefnogi cyfnod hysbysu o bum diwrnod, a fyddai'n cyd-fynd â'r rheoliadau yn Lloegr. Awgrymodd rhai gyfnodau hwy (hyd

at 10 diwrnod) ar gyfer prosiectau cymhleth er mwyn darparu ar gyfer cynllunio a dyrannu adnoddau yn well.

**Cwestiwn 4.65**
**Ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'r dull arfaethedig o ymdrin ag archwiliadau safle o waith adeiladu risg uwch, gan gynnwys y gofyniad i'r awdurdod lleol archwilio gwaith adeiladu risg uwch cyn penderfynu ar gais am dystysgrif cwblhau?**

Crynodeb o'r ymatebion

| | | |
|---|---|---|
| Cytuno | 35 | 90% |
| Anghytuno | 1 | 3% |
| Ddim yn cytuno nac yn anghytuno | 3 | 8% |
| Ddim yn gwybod | 0 | 0% |
| Cyfanswm yr ymatebion | 39 | 100%* |

*Nid yw'r canrannau yn gwneud cyfanswm o 100% oherwydd talgrynnu

**Cwestiwn 4.66**
**Rhowch esboniad dros eich ateb. Os ydych wedi nodi eich bod yn anghytuno, esboniwch pa newidiadau y dylid eu gwneud yn eich barn chi.**

Crynodeb o'r ymatebion

**144.** Roedd mwyafrif mawr o'r ymatebwyr yn cytuno. Roedd cefnogaeth gref o blaid archwiliadau gorfodol, gyda rhai sylwadau yn nodi pwysigrwydd archwiliadau ar y cyd â swyddogion tân. Roedd sicrhau bod gan awdurdodau lleol adnoddau digonol yn bryder a godwyd gan lawer o ymatebwyr.

**Cwestiwn 4.67**
**A oes gennych unrhyw sylwadau eraill mewn perthynas â'r cynigion?**

Crynodeb o'r ymatebion

**145.** Gwnaed pum sylw ymateb i'r cwestiwn hwn, gyda rhai ymatebwyr yn rhoi esboniad pellach o sylwadau a adawyd ar gwestiynau eraill. Roedd dau sylw yn ymwneud â chyflwyno tystysgrifau comisiynu a'r pwysau sydd ar swyddogion rheolaeth adeiladu i roi tystysgrifau cwblhau ar fyr rybudd heb fawr ddim amser i adolygu dogfennaeth a ddarparwyd.

**Ymateb y Llywodraeth**

**146.** Mae Llywodraeth Cymru yn croesawu'r gefnogaeth gref i'r mwyafrif o'n cynigion ar gyfer Porth 2 ar gyfer adeiladau risg uwch newydd.

**147.** Roedd pryderon ynghylch cysondeb â rheoliadau ac arferion presennol yn Lloegr yn thema a gododd dro ar ôl tro. Pwysleisiodd ymatebwyr bwysigrwydd cysondeb yn aml er mwyn osgoi dryswch. Ein bwriad yw y bydd y ddogfennaeth sydd ei hangen ar gyfer ceisiadau am gymeradwyaeth rheolaeth adeiladu ym Mhorth 2 fwy neu lai yr un peth â'r ddogfennaeth sydd ei hangen eisoes yn Lloegr yn enwedig o ran cynnwys y dogfennau rhagnodedig newydd. Fodd bynnag, rydym yn cydnabod y galwadau am wybodaeth ychwanegol mewn cyd-destunau penodol, megis adeiladau defnydd cymysg, ac am fwy o eglurder yn gyffredinol. Er nad ydym yn bwriadu gwneud newidiadau i'r wybodaeth ragnodedig ar hyn o bryd, byddwn yn sicrhau bod canllawiau ategol

yn helpu i sicrhau dehongli a gweithredu cyson rhwng awdurdodau lleol a rhanddeiliaid yn y diwydiant. At hynny, bydd y rheoliadau yn ei gwneud yn bosibl i'r awdurdodau lleol fabwysiadu dull hyblyg sy'n seiliedig ar risg o ymdrin â chyflwyno dogfennau, gan gynnwys pan fo cymeradwyaeth amodol yn briodol. Bydd awdurdodau hefyd yn parhau i feddu ar bwerau i lacio gofynion y rheoliadau adeiladu pan fo'n briodol. Disgwylir i'r pwerau hyn gael eu harfer â'r gofal dyladwy a gyda diogelwch adeiladau fel y brif ystyriaeth, gan adlewyrchu safonau proffesiynol a chyfrifoldebau presennol awdurdodau lleol.

**148.** O ran datganiadau o gymhwysedd, roedd 78% o'r ymatebwyr yn cefnogi'r dull gweithredu arfaethedig, er i bryderon gael eu codi ynghylch rôl awdurdodau lleol o ran dilysu cymhwysedd. Hoffem egluro na ddisgwylir i awdurdodau lleol asesu na dilysu cymhwysedd deiliaid dyletswydd. Y deiliaid dyletswydd eu hunain sy'n gyfrifol am sicrhau cydymffurfedd, yn unol ag egwyddorion cyffredinol y gyfundrefn rheolaeth adeiladu newydd. Fodd bynnag, bydd awdurdodau lleol yn cadarnhau bod y datganiadau gofynnol wedi'u cyflwyno fel rhan o'r broses gwneud cais. Os bydd ganddynt bryderon ynghylch cymhwysedd byddant yn gallu mynnu bod camau yn cael eu cymryd er mwyn sicrhau bod gan y rhai sy'n gwneud y gwaith adeiladu y cymhwysedd priodol.

**149.** O ran mater adrodd gorfodol am ddigwyddiadau, roedd 70% o'r ymatebwyr yn cytuno â'r cynnig i'w gwneud yn ofynnol i ddatganiad sy'n disgrifio'r system adrodd gael ei ddarparu fel rhan o'r cais am gymeradwyaeth rheolaeth adeiladu. Rydym yn cydnabod pryderon ynghylch y baich posibl ar awdurdodau lleol a'r angen am eglurder mewn systemau adrodd. Er mwyn bod yn glir, bydd deiliaid dyletswydd yn rhoi gwybod i awdurdodau lleol am ddigwyddiadau. Ni ddisgwylir i awdurdodau lunio adroddiadau eu hunain ond disgwylir iddynt adolygu adroddiadau a ddaw i law a chymryd camau y maent yn ystyried eu bod yn briodol mewn ymateb. Bydd hefyd yn ofynnol iddynt gyflwyno unrhyw adroddiadau ar ddigwyddiadau a gânt i Lywodraeth Cymru yn rheolaidd.

**150.** Yn olaf, codwyd materion yn ymwneud ag adnoddau a chapasiti mewn perthynas â llawer o agweddau ar y cynigion. Er enghraifft, er bod 93% o blaid ymgynghori ag Awdurdodau Tân ac Achub a bod 74% yn y cytuno â'r cyfnod ymgynghori lleiaf o 15 diwrnod, tynnodd ymatebwyr sylw at gapasiti cyfyngedig yr awdurdodau hyn i ymateb o fewn yr amserlenni arfaethedig. Gwnaethant alw am hyblygrwydd yn ystod y cyfnod ymgynghori. Rydym yn bwriadu caniatáu i'r cyfnod hwn gael ei estyn drwy gytundeb o'r ddeutu pan fo angen. Fodd bynnag, dylai hyn gael ei reoli yng nghyd-destun y cyfnod penderfynu ehangach ar gyfer y cais dan sylw.

**151.** Codwyd pryderon tebyg ynghylch capasiti awdurdodau lleol i ddarparu'r gwasanaethau sydd eu hangen o fewn yr amserlenni arfaethedig, gyda chyfeiriadau mynych at heriau a wynebir gyda phrosesau'r Pyrth yn Lloegr. Er bod graddfa gwaith adeiladu risg uwch yng Nghymru yn wahanol iawn i'r hyn a geir yn Lloegr a bod mwy o arolygwyr cofrestredig rheolaeth adeiladu o'r dosbarth gofynnol fesul adeilad risg uwch yng Nghymru nag sydd yn Lloegr, rydym yn cydnabod yr heriau gwirioneddol sy'n bodoli. Rydym yn gweithio gydag awdurdodau lleol ar faterion sy'n ymwneud â recriwtio a chapasiti, gan gynnwys buddsoddi yn y gwaith o recriwtio a hyfforddi arolygwyr adeiladu newydd ar y cyd â phartneriaid yn LABC Cymru.

# Gwaith adeiladu a wneir mewn adeiladau risg uwch sy'n bodoli eisoes

**Crynodeb o'r ymatebion i'r cwestiynau**

**Cwestiwn 4.68**
**Ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'r cynigion yn ymwneud â'r wybodaeth am waith adeiladu drwy gynlluniau person cymwys y dylid ei storio yn y llinyn aur?**

Crynodeb o'r ymatebion

| | | |
|---|---|---|
| Cytuno | 38 | 97% |
| Anghytuno | 0 | 0% |
| Ddim yn cytuno nac yn anghytuno | 1 | 3% |
| Ddim yn gwybod | 0 | 0% |
| Cyfanswm yr ymatebion | 39 | 100% |

**Cwestiwn 4.69**
**Rhowch esboniad dros eich ateb. Os ydych wedi nodi eich bod yn anghytuno, esboniwch pa newidiadau y dylid eu gwneud yn eich barn chi.**

Crynodeb o'r ymatebion

**152.** Roedd y mwyafrif helaeth o'r ymatebwyr (97%) o blaid cynnwys gwaith drwy gynlluniau person cymwys yn y llinyn aur. Pwysleisiodd ymatebwyr bwysigrwydd tryloywder, atebolrwydd a chynnal cofnod cyflawn o waith adeiladu, er i rai godi pryderon ynghylch eithriadau a'r angen am ganllawiau clir. Nodwyd na chafwyd yr un ymateb a oedd yn anghytuno â'r cynigion.

**Cwestiwn 4.70**
Ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'r categorïau arfaethedig o waith adeiladu, y math o waith adeiladu sydd wedi'i gynnwys ynddynt, a'r gofynion arfaethedig o ran gwybodaeth ar gyfer pob categori arfaethedig?

Crynodeb o'r ymatebion

| | | |
|---|---|---|
| Cytuno | 35 | 88% |
| Anghytuno | 0 | 0% |
| Ddim yn cytuno nac yn anghytuno | 4 | 10% |
| Ddim yn gwybod | 1 | 3% |
| Cyfanswm yr ymatebion | 40 | 100%* |

*Nid yw'r canrannau yn gwneud cyfanswm o 100% oherwydd talgrynnu

**Cwestiwn 4.71**
**Rhowch esboniad dros eich ateb. Os ydych wedi nodi eich bod yn anghytuno, esboniwch pa newidiadau y dylid eu gwneud yn eich barn chi, ac a oes unrhyw gategorïau gwaith ychwanegol y dylid eu rhestru.**

Crynodeb o'r ymatebion

**153.** Roedd mwyafrif helaeth o'r ymatebwyr yn cytuno â'r categorïau arfaethedig a'r gofynion o ran gwybodaeth ac nid oedd yr un ymatebydd yn gwrthwynebu'r cynigion. Er bod y categoreiddio'n cael ei ystyried yn rhesymegol ac yn gymesur, galwodd sawl ymatebydd am ddiffiniadau a chanllawiau cliriach, yn arbennig ar gyfer gwaith Categori B. Cododd rhai ymatebwyr hefyd bryderon am waith eithriedig.

**Cwestiwn 4.72**

**Ar gyfer ceisiadau ar gyfer gwaith ar adeiladau sy'n bodoli eisoes, ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'r cyfnod rhagnodedig o wyth wythnos y dylai'r awdurdod lleol ei fodloni wrth benderfynu ar geisiadau am gymeradwyaeth rheolaeth adeiladu?**

Crynodeb o'r ymatebion

| | | |
|---|---|---|
| Cytuno | 26 | 65% |
| Anghytuno | 12 | 30% |
| Ddim yn cytuno nac yn anghytuno | 2 | 5% |
| Ddim yn gwybod | 0 | 0% |
| Cyfanswm yr ymatebion | 40 | 100% |

**Cwestiwn 4.73**

**Rhowch esboniad dros eich ateb. Os ydych wedi nodi eich bod yn anghytuno, esboniwch pa newidiadau y dylid eu gwneud yn eich barn chi.**

Crynodeb o'r ymatebion

**154.** Er bod mwyafrif o'r ymatebwyr yn cytuno â'r cyfnod o wyth wythnos, mynegodd lleiafrif sylweddol bryderon. Thema gyffredin mewn pryderon a godwyd oedd y gallai fod angen cyfnodau hwy o amser ar gyfer prosiectau mwy cymhleth er mwyn sicrhau gwaith adolygu trylwyr a diogelwch. Awgrym cyffredin a gafwyd oedd y dylid caniatáu hyd at 12 wythnos ar gyfer prosiectau cymhleth, gyda rhai ymatebwyr yn awgrymu y dylid rhagnodi cyfnodau gwahanol o amser ar gyfer lefelau gwaith o waith.

**Cwestiwn 4.74**

**Ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'r cynigion yn ymwneud â'r wybodaeth am waith adeiladu mewn adeilad sy'n bodoli eisoes y dylid ei storio yn y llinyn aur?**

Crynodeb o'r ymatebion

| | | |
|---|---|---|
| Cytuno | 36 | 90% |
| Anghytuno | 1 | 3% |
| Ddim yn cytuno nac yn anghytuno | 3 | 8% |
| Ddim yn gwybod | 0 | 3% |
| Cyfanswm yr ymatebion | 40 | 100%* |

*Nid yw'r canrannau yn gwneud cyfanswm o 100% oherwydd talgrynnu

**Cwestiwn 4.75**
**Rhowch esboniad dros eich ateb. Os ydych wedi nodi eich bod yn anghytuno, esboniwch pa newidiadau y dylid eu gwneud yn eich barn chi.**

Crynodeb o'r ymatebion

**155.** Mae cefnogaeth gref o blaid storio gwybodaeth am waith adeiladu mewn adeiladau presennol yn y llinyn aur. Pwysleisiodd ymatebwyr bwysigrwydd cynnal cofnod cyflawn, cwir a hygyrch ar gyfer diogelwch a chydymffurfedd. Cododd rhai ymatebwyr bryderon ynghylch sut y byddai'r llinyn aur yn cael ei reoli ar gyfer adeiladau presennol pan nad yw'n bodoli ar hyn o bryd.

**Cwestiwn 4.76**
**A oes gennych unrhyw sylwadau eraill mewn perthynas â'r cynigion?**

Crynodeb o'r ymatebion

**156.** Gwnaed pum sylw mewn ymateb i'r cwestiwn. Ar y cyfan, defnyddiodd yr ymatebwyr y cwestiwn hwn i atgyfnerthu pwyntiau cynharach a chodi pryderon ynghylch rhoi'r cynnig ar waith . Roedd galw clir am broses gyflwyno gydweithredol ac wedi'i strwythuro ag amserlenni realistig, canllawiau digonol a hyblygrwydd yn y fframwaith rheoleiddiol. Awgrymodd un sylw y dylid caniatáu i gyrff rheolaeth adeiladu yn y sector preifat oruchwylio gwaith Categori B risg is.

**Ymateb y Llywodraeth**

**157.** Rydym yn croesawu'r gefnogaeth gref i'r cynigion sy'n ymwneud â storio gwybodaeth am waith adeiladu yn y llinyn aur. Pwysleisiodd ymatebwyr bwysigrwydd cynnal cofnod cyflawn a hygyrch o waith adeiladu, sy'n hanfodol i sicrhau diogelwch a chydymffurfiaeth mewn adeiladau risg uwch. Felly, byddwn yn bwrw ymlaen â rhoi'r cynnig ar waith gan ystyried, ar yr un pryd, yr angen am ganllawiau clir i fynd i'r afael â phryderon ynghylch eithriadau a gweithredu ymarferol.

**158.** Yn yr un modd, cafwyd cefnogaeth eang i'r cynnig i gategoreiddio gwaith adeiladu a diffinio gofynion o ran gwybodaeth. Er bod y categoreiddio'n cael ei ystyried yn rhesymegol ac yn gymesur, ar y cyfan, tynnodd adborth sylw at yr angen am ddiffiniadau clir, yn arbennig ar gyfer gwaith Categori B, a chododd bryderon ynghylch gwaith eithriedig. Nid ydym yn bwriadu newid y dull polisi ond byddwn yn ystyried y sylwadau hyn ac yn sicrhau bod canllawiau sy'n ategu'r rheoliadau yn rhoi eglurder.

**159.** O ran y cyfnod arfaethedig o wyth wythnos ar gyfer penderfynu ar geisiadau am gymeradwyaeth rheolaeth adeiladu, rydym yn cydnabod y sylwadau a wnaed yn enwedig ynghylch y ffaith y gallai'r cyfnod hwn fod yn rhy fyr ar gyfer adeiladau cymhleth ond yn hwy nag sydd raid ar gyfer mân waith. Rydym wedi penderfynu peidio ag estyn y cyfnod hwn na chyflwyno cyfnodau haenedig ar gyfer mathau gwahanol o waith, gan y byddai hyn yn cymhlethu'r fframwaith rheoleiddio yn fwy nag sydd raid. Fodd bynnag, nodwyd y bydd awdurdodau lleol yn gallu cytuno ar estyniadau lle y bo angen ac y gallai ceisiadau symlach gael eu prosesu'n gynt. Nodwn mai pum wythnos fyddai'r cyfnod presennol ar gyfer gwaith, er y byddai'r gofynion yn symlach.

## Proses rheoli newid gryfach ar gyfer adeiladau risg uwch

**Crynodeb o'r ymatebion i'r cwestiynau**

**Cwestiwn 4.77**
**Ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'r rhestr o newidiadau sylweddol?**

Crynodeb o'r ymatebion

| | | |
|---|---|---|
| Cytuno | 37 | 95% |
| Anghytuno | 1 | 3% |
| Ddim yn cytuno nac yn anghytuno | 1 | 3% |
| Ddim yn gwybod | 0 | 0% |
| Cyfanswm yr ymatebion | 39 | 100%* |

*Nid yw'r canrannau yn gwneud cyfanswm o 100% oherwydd talgrynnu

**Cwestiwn 4.78**
**Rhowch esboniad dros eich ateb. A oes unrhyw newidiadau ychwanegol y dylid eu hychwanegu at y rhestr, yn eich barn chi?**

Crynodeb o'r ymatebion

**160.** Roedd yr ymatebwyr yn cefnogi'r rhestr, ar y cyfan, ac yn ystyried ei bod yn gynhwysfawr. Fodd bynnag, gofynnodd sawl ymatebydd am ddiffiniadau clir a chafwyd rhai ceisiadau penodol am ddiwygiadau i'r rhestr megis cynnwys newidiadau yn ymwneud ag addasiadau i doeau a phaneli solar.

**Cwestiwn 4.79**
**Ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'r cyfnod rhagnodedig o chwe wythnos y dylai'r awdurdod lleol ei fodloni wrth benderfynu ar geisiadau rheoli newid ar gyfer newidiadau mawr?**

Crynodeb o'r ymatebion

| | | |
|---|---|---|
| Cytuno | 31 | 82% |
| Anghytuno | 4 | 11% |
| Ddim yn cytuno nac yn anghytuno | 3 | 8% |
| Ddim yn gwybod | 0 | 0% |
| Cyfanswm yr ymatebion | 38 | 100%* |

*Nid yw'r canrannau yn gwneud cyfanswm o 100% oherwydd talgrynnu

**Cwestiwn 4.80**
**Rhowch esboniad dros eich ateb. Os ydych wedi nodi eich bod yn anghytuno, esboniwch beth fyddai'n gyfnod rhesymol o amser yn eich barn chi.**

Crynodeb o'r ymatebion

**161.** Ar y cyfan, ystyriwyd bod chwe wythnos yn dderbyniol, ond pwysleisiodd sawl ymatebydd fod angen penderfyniadau a chyfathrebu amserol er mwyn osgoi oedi i brosiectau a risgiau i ddiogelwch.

**Cwestiwn 4.81**
**Ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'r rhestr o newidiadau hysbysadwy?**

Crynodeb o'r ymatebion

| | | |
|---|---|---|
| Cytuno | 36 | 95% |
| Anghytuno | 1 | 3% |
| Ddim yn cytuno nac yn anghytuno | 1 | 3% |
| Ddim yn gwybod | 0 | 0% |
| Cyfanswm yr ymatebion | 38 | 100%* |

*Nid yw'r canrannau yn gwneud cyfanswm o 100% oherwydd talgrynnu

**Cwestiwn 4.82**
**Rhowch esboniad dros eich ateb. Os ydych wedi nodi eich bod yn anghytuno, esboniwch a oes unrhyw newidiadau ychwanegol y dylid eu hychwanegu at y rhestr, yn eich barn chi.**

Crynodeb o'r ymatebion

**162.** Cafodd y rhestr dderbyniad da gyda mwyafrif helaeth o'r ymatebwyr yn cefnogi'r rhestr arfaethedig o newidiadau hysbysadwy ond gofynnodd sawl ymatebydd am ddefnyddio geiriad clir a sicrhau cymesuredd.

**Cwestiwn 4.83**
**Ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'r cyfnod rhagnodedig o 10 diwrnod gwaith ar gyfer newidiadau hysbysadwy cyn y gellir gwneud y newid?**

Crynodeb o'r ymatebion

| | | |
|---|---|---|
| Cytuno | 28 | 74% |
| Anghytuno | 7 | 18% |
| Ddim yn cytuno nac yn anghytuno | 3 | 8% |
| Ddim yn gwybod | 0 | 0% |
| Cyfanswm yr ymatebion | 36 | 100% |

**Cwestiwn 4.84**
**Rhowch esboniad dros eich ateb. Os ydych wedi nodi eich bod yn anghytuno, esboniwch beth fyddai'n gyfnod rhesymol o amser yn eich barn chi.**

Crynodeb o'r ymatebion

**163.** Er bod y cynnig yn cael ei gefnogi gan yr ymatebwyr, ar y cyfan, tynnodd sawl ymatebydd sylw at y gwahaniaeth rhwng y cynnig a rheoliadau sydd ar waith yn Lloegr gyda'r rhan fwyaf ohonynt yn nodi y byddai hyn yn achosi anhawster (y gwahaniaeth yw'r cyfnod stop arfaethedig o 10 diwrnod ar ôl rhoi gwybod am newid hysbysadwy). O'r rhai a oedd yn anghytuno â'r cyfnod o 10 diwrnod, roedd sawl un am gael cyfnod hwy a/neu hyblygrwydd o ran nifer y diwrnodau ei hun a'r hyn yr oedd yn ei olygu o ran parhad gwaith.

**Cwestiwn 4.85**
**Ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'r wybodaeth a nodir uchod y dylai'r cleient ei darparu i'r cleient newydd?**

Crynodeb o'r ymatebion

| | | |
|---|---|---|
| Cytuno | 37 | 100% |
| Anghytuno | 0 | 0% |
| Ddim yn cytuno nac yn anghytuno | 0 | 0% |
| Ddim yn gwybod | 0 | 0% |
| Cyfanswm yr ymatebion | 37 | 100% |

**Cwestiwn 4.86**
**Rhowch esboniad dros eich ateb. Os ydych wedi nodi eich bod yn anghytuno, esboniwch pa newidiadau y dylid eu gwneud.**

Crynodeb o'r ymatebion

**164.** Roedd pob un o'r ymatebwyr yn cefnogi'r gofyniad, gyda sawl sylw yn pwysleisio ei bwysigrwydd i sicrhau bod cyfrifoldebau cleientiaid yn parhau i gael eu cyflawni a bod cofnod cyflawn o waith a gwybodaeth am waith adeiladu yn cael ei gadw.

**Cwestiwn 4.87**
**Ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno bod 14 diwrnod yn gyfnod rhesymol o amser i'r cleient sy'n ymadael ddarparu'r wybodaeth ragnodedig i'r cleient newydd?**

Crynodeb o'r ymatebion

| | | |
|---|---|---|
| Cytuno | 31 | 82% |
| Anghytuno | 5 | 13% |
| Ddim yn cytuno nac yn anghytuno | 0 | 0% |
| Ddim yn gwybod | 2 | 5% |
| Cyfanswm yr ymatebion | 38 | 100% |

**Cwestiwn 4.88**
**Rhowch esboniad dros eich ateb. Os ydych wedi nodi eich bod yn anghytuno, esboniwch beth fyddai'n gyfnod rhesymol o amser yn eich barn chi.**

Crynodeb o'r ymatebion

**165.** Er bod yr ymatebwyr yn cytuno bod 14 diwrnod yn dderbyniol, ar y cyfan, cymysg oedd yr ymateb ymhlith y rhai a awgrymodd gyfnodau eraill. Nododd sawl ymatebydd y dylai fod yn fyrrach, ac roedd hefyd rai ymatebwyr a nododd nad yw'n ddigon hir, o bosibl, er mwyn darparu'r holl wybodaeth.

**Cwestiwn 4.89**
**Ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â chynnwys yr hysbysiad a nodir uchod y dylai'r cleient newydd ei ddarparu i'r awdurdod lleol?**

Crynodeb o'r ymatebion

| | | |
|---|---|---|
| Cytuno | 37 | 97% |
| Anghytuno | 0 | 0% |
| Ddim yn cytuno nac yn anghytuno | 0 | 0% |
| Ddim yn gwybod | 1 | 3% |

| | | |
|---|---|---|
| Cyfanswm yr ymatebion | 38 | 100% |

**Cwestiwn 4.90**
**Rhowch esboniad dros eich ateb. Os ydych wedi nodi eich bod yn anghytuno, esboniwch pa newidiadau y dylid eu gwneud.**

Crynodeb o'r ymatebion

**166.** Roedd bron pob un o'r ymatebwyr yn cytuno â'r cynnig, gyda sawl un yn nodi y byddai hysbysu yn hanfodol er mwyn cynnal goruchwyliaeth ac atal gwybodaeth hollbwysig rhag cael ei cholli yn ystod prosesau pontio cleientiaid.

**Cwestiwn 4.91**
**Ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno bod 28 diwrnod yn gyfnod rhesymol o amser i'r cleient newydd ddarparu'r hysbysiad i'r awdurdod lleol?**

Crynodeb o'r ymatebion

| | | |
|---|---|---|
| Cytuno | 32 | 84% |
| Anghytuno | 3 | 8% |
| Ddim yn cytuno nac yn anghytuno | 1 | 3% |
| Ddim yn gwybod | 2 | 5% |
| Cyfanswm yr ymatebion | 38 | 100% |

**Cwestiwn 4.92**
**Rhowch esboniad dros eich ateb. Os ydych wedi nodi eich bod yn anghytuno, esboniwch beth fyddai'n gyfnod rhesymol o amser yn eich barn chi.**

Crynodeb o'r ymatebion

**167.** Er bod mwyafrif mawr o'r ymatebwyr yn cytuno â'r cyfnod o amser, awgrym cyffredin ymhlith y rhai nad oeddent yn cytuno oedd y dylid lleihau'r cyfnod ar gyfer darparu hysbysiad i 14 diwrnod am eu bod o'r farn nad oedd angen 28 diwrnod.

**Cwestiwn 4.93**
**Ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'r gofyniad i'r cleient a/neu'r person a benodir roi gwybod i'r awdurdod lleol mewn achosion o ansolfedd?**

Crynodeb o'r ymatebion

| | | |
|---|---|---|
| Cytuno | 38 | 97% |
| Anghytuno | 0 | 0% |
| Ddim yn cytuno nac yn anghytuno | 1 | 3% |
| Ddim yn gwybod | 0 | 0% |
| Cyfanswm yr ymatebion | 39 | 100% |

**Cwestiwn 4.94**
**Rhowch esboniad dros eich ateb. Os ydych wedi nodi eich bod yn anghytuno, esboniwch pa newidiadau y dylid eu gwneud.**

Crynodeb o'r ymatebion

**168.** Roedd bron pob un o'r rhai a ymatebodd yn cytuno bod yn rhaid rhoi gwybod am achosion o ansolfedd er mwyn atal methiannau o ran diogelwch a sicrhau parhad prosiectau.

**Cwestiwn 4.95**
**Ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno bod 14 diwrnod yn gyfnod rhesymol o amser i'r cleient a/neu'r person a benodir ddarparu'r hysbysiad o ansolfedd i'r awdurdod lleol?**

Crynodeb o'r ymatebion

| | | |
|---|---|---|
| Cytuno | 31 | 82% |
| Anghytuno | 3 | 8% |
| Ddim yn cytuno nac yn anghytuno | 1 | 3% |
| Ddim yn gwybod | 3 | 8% |
| Cyfanswm yr ymatebion | 38 | 100%* |

*Nid yw'r canrannau yn gwneud cyfanswm o 100% oherwydd talgrynnu

**Cwestiwn 4.96**
**Rhowch esboniad dros eich ateb. Os ydych wedi nodi eich bod yn anghytuno, esboniwch beth fyddai'n gyfnod rhesymol o amser yn eich barn chi.**

Crynodeb o'r ymatebion

**169.** Er bod 14 diwrnod yn dderbyniol i'r rhan fwyaf o'r ymatebwyr, nododd rhai sylwadau a gafwyd ei fod yn rhesymol ac roeddent yn gwerthfawrogi'r cysondeb â rheoliadau sydd ar waith yn Lloegr, awgrymodd ymatebwyr eraill gyfnod byrrach o saith diwrnod er mwyn gallu ymdrin â risgiau yn gyflym.

**Cwestiwn 4.97**
**Ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'r gofyniad i roi gwybod i'r awdurdod lleol os bydd person yn ymwrthod ag eiddo?**

Crynodeb o'r ymatebion

| | | |
|---|---|---|
| Cytuno | 33 | 87% |
| Anghytuno | 0 | 0% |
| Ddim yn cytuno nac yn anghytuno | 3 | 8% |
| Ddim yn gwybod | 2 | 5% |
| Cyfanswm yr ymatebion | 38 | 100% |

**Cwestiwn 4.98**
**Rhowch esboniad dros eich ateb. Os ydych wedi nodi eich bod yn anghytuno, esboniwch pa newidiadau y dylid eu gwneud.**

Crynodeb o'r ymatebion

**170.** Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr yn cytuno bod hysbysu yn hanfodol er mwyn sicrhau y gall yr awdurdod lleol reoli risgiau a chynnal goruchwyliaeth. Ni chafwyd unrhyw awgrymiadau ar gyfer dulliau gweithredu  amgen.

**Cwestiwn 4.99**
**Ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno bod 28 diwrnod yn gyfnod rhesymol o amser i'r person sy'n ymwrthod â'r eiddo ddarparu copi o'r hysbysid o ymwrthodiad i'r awdurdod lleol?**

Crynodeb o'r ymatebion

| | | |
|---|---|---|
| Cytuno | 31 | 82% |
| Anghytuno | 1 | 3% |
| Ddim yn cytuno nac yn anghytuno | 2 | 5% |
| Ddim yn gwybod | 4 | 11% |
| Cyfanswm yr ymatebion | 38 | 100%* |

*Nid yw'r canrannau yn gwneud cyfanswm o 100% oherwydd talgrynnu

**Cwestiwn 4.100**
**Rhowch esboniad dros eich ateb. Os ydych wedi nodi eich bod yn anghytuno, esboniwch beth fyddai'n gyfnod rhesymol o amser yn eich barn chi.**

Crynodeb o'r ymatebion

**171.** Roedd y cyfnod o 28 diwrnod yn cael ei gefnogi gan yr ymatebwyr, ar y cyfan, er i rai ofyn am gysondeb â chyfnodau cysylltiedig eraill sy'n para 14 diwrnod. Awgrymodd un ymatebydd fod y cyfnod hwn yn gwrthdaro â'r cyfnod o 14 diwrnod a gynigiwyd er mwyn i'r cleient hysbysu'r awdurdod lleol am ansolfedd.

**Cwestiwn 4.101**
**Hoffech chi wneud unrhyw sylwadau ychwanegol mewn perthynas â newid cleient, megis amgylchiadau nad ydynt wedi'u nodi uchod y mae angen eu hystyried?**

Crynodeb o'r ymatebion

**172.** Gwnaeth pump o'r 61 o ymatebwyr sylw. Nid oedd unrhyw themâu cyffredin ymhlith y sylwadau, er i rai dynnu sylw at heriau gweithredol posibl naill ai yn nhimau rheolaeth adeiladu awdurdodau lleol neu'n gysylltiedig â'r potensial ar gyfer oedi i brosiectau. Nododd sylwadau eraill a gafwyd y gallai'r gweithdrefnau arfaethedig helpu i sicrhau bod cleientiaid sy'n newydd i'r rôl yn ymwybodol o'u rhwymedigaethau ac y byddent yn helpu i atal gwybodaeth rhag cael ei cholli.

**Cwestiwn 4.102**
**Ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno y dylid darparu hysbysiad yn cynnwys yr wybodaeth a amlinellir uchod i'r awdurdod lleol os bydd Prif Ddylunydd neu Brif Gontractwr prosiect adeiladu risg uwch yn newid?**

Crynodeb o'r ymatebion

| | | |
|---|---|---|
| Cytuno | 38 | 97% |
| Anghytuno | 0 | 0% |
| Ddim yn cytuno nac yn anghytuno | 1 | 3% |
| Ddim yn gwybod | 0 | 0% |
| Cyfanswm yr ymatebion | 39 | 100% |

**Cwestiwn 4.103**
**Rhowch esboniad dros eich ateb. Os ydych wedi nodi eich bod yn anghytuno, esboniwch pa newidiadau y dylid eu gwneud.**

Crynodeb o'r ymatebion

**173.** Roedd y mwyafrif helaeth o'r ymatebwyr o blaid ei gwneud yn orfodol i'r awdurdod lleol gael ei hysbysu pan fydd Prif Ddylunydd neu Brif Gontractwr ar brosiectau adeiladu risg uwch yn newid. Pwysleisiodd ymatebwyr bwysigrwydd tryloywder, atebolrwydd a chynnal cyfanrwydd y llinyn aur o wybodaeth am ddiogelwch adeilad.

**Cwestiwn 4.104**
**Os ydych wedi nodi eich bod yn cytuno, a yw 14 diwrnod yn gyfnod rhesymol o amser i ddarparu'r hysbysiad hwn, yn eich barn chi?**

Crynodeb o'r ymatebion

| | | |
|---|---|---|
| Ydy | 30 | 79% |
| Nac ydy | 6 | 16% |
| Ddim yn gwybod | 2 | 5% |
| Cyfanswm yr ymatebion | 38 | 100% |

**Cwestiwn 4.105**
**Rhowch esboniad dros eich ateb. Os ydych wedi nodi Nac ydy, esboniwch beth fyddai'n gyfnod rhesymol o amser yn eich barn chi.**

Crynodeb o'r ymatebion

**174.** Roedd nifer mawr o'r ymatebwyr yn cytuno bod 14 diwrnod yn gyfnod rhesymol ar gyfer rhoi gwybod am newidiadau mewn deiliaid dyletswydd. Fodd bynnag, awgrymodd rhai ymatebwyr gyfnodau byrrach (rhwng saith a 10 diwrnod) neu y dylid atal gwaith yn ystod prosesau pontio er mwyn osgoi bylchau o ran atebolrwydd.

**Cwestiwn 4.106**
**Ydych chi'n cytuno â'r dull o hysbysu'r awdurdod lleol am newid i'r prif ddeiliad dyletswydd ar gyfer cleientiaid domestig?**

Crynodeb o'r ymatebion

| | | |
|---|---|---|
| Cytuno | 35 | 95% |
| Anghytuno | 0 | 0% |
| Ddim yn cytuno nac yn anghytuno | 2 | 5% |
| Ddim yn gwybod | 0 | 0% |
| Cyfanswm yr ymatebion | 37 | 100% |

**Cwestiwn 4.107**
**Rhowch esboniad dros eich ateb. Os ydych wedi nodi eich bod yn anghytuno, esboniwch pa newidiadau y dylid eu gwneud.**

Crynodeb o'r ymatebion

**175.** Roedd mwyafrif helaeth o'r ymatebwyr yn cytuno â'r dull hysbysu arfaethedig pan fo'r cleient yn gleient domestig. Pwysleisiodd ymatebwyr symlrwydd a'r

angen i ddeiliaid dyletswydd gymryd cyfrifoldeb am gyfathrebu â'r awdurdod lleol.

**Cwestiwn 4.108**
**Ydy 5 diwrnod yn gyfnod rhesymol o amser i'r deiliad dyletswydd sy'n ymadael ddarparu'r datganiad i'r cleient domestig, yn eich barn chi?**

Crynodeb o'r ymatebion

| | | |
|---|---|---|
| Ydy | 35 | 92% |
| Nac ydy | 0 | 0% |
| Ddim yn gwybod | 3 | 8% |
| Cyfanswm yr ymatebion | 38 | 100% |

**Cwestiwn 4.109**
**Rhowch esboniad dros eich ateb. Os ydych wedi nodi Nac ydy, esboniwch beth fyddai'n gyfnod rhesymol o amser yn eich barn chi.**

Crynodeb o'r ymatebion

**176.** Roedd mwyafrif mawr o'r ymatebwyr yn cytuno bod pum diwrnod yn gyfnod rhesymol o amser i'r deiliad dyletswydd sy'n ymadael hysbysu'r cleient domestig. Ystyriwyd bod y cyfnod yn ymarferol a'i fod yn cyd-fynd â rheoliadau yn Lloegr.

**Cwestiwn 4.110**
**Ydy 14 diwrnod yn gyfnod rhesymol o amser i'r deiliad dyletswydd newydd ddarparu'r hysbysiad i'r awdurdod lleol, yn eich barn chi?**

Crynodeb o'r ymatebion

| | | |
|---|---|---|
| Ydy | 30 | 79% |
| Nac ydy | 4 | 11% |
| Ddim yn gwybod | 4 | 11% |
| Cyfanswm yr ymatebion | 38 | 100%* |

*Nid yw'r canrannau yn gwneud cyfanswm o 100% oherwydd talgrynnu

**Cwestiwn 4.111**
**Rhowch esboniad dros eich ateb. Os ydych wedi nodi Nac ydy, esboniwch beth fyddai'n gyfnod rhesymol o amser yn eich barn chi.**

Crynodeb o'r ymatebion

**177.** Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr yn cytuno bod 14 diwrnod yn gyfnod rhesymol o amser i'r deiliad dyletswydd newydd hysbysu'r awdurdod lleol. Fodd bynnag, awgrymodd rhai gyfnodau byrrach er mwyn sicrhau prosesau pontio cyflym ac awgrymodd eraill y byddai cyfnodau hwy o amser yn fwy addas er mwyn darparu ar gyfer gwiriadau cymhwysedd.

**Cwestiwn 4.112**
**A oes gennych unrhyw sylwadau eraill mewn perthynas â'r cynigion?**

Crynodeb o'r ymatebion

**178.** Gwnaed dau sylw ychwanegol, gyda'r naill a'r llall yn codi pryderon gwahanol. Tynnodd un sylw at y baich gwaith a'r costau ychwanegol, tra roedd y llall yn

ansicr ynghylch rôl cleientiaid domestig a chontractwyr domestig mewn prosiectau risg uchel, gan gyfeirio at wersi o drychineb Grenfell a newidiadau blaenorol i reoliadau.

**Ymateb y Llywodraeth**

**179.** Yn seiliedig ar yr ymatebion a gafwyd i'r ymgynghoriad, mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod y gefnogaeth gref i'r newidiadau arfaethedig i'r gyfundrefn rheolaeth adeiladu ar gyfer adeiladau risg uwch a diwygiadau ehangach i'r rheoliadau adeiladu. Ar draws sawl cwestiwn, roedd cyfraddau cytuno yn gyson uwch nag 85%, gyda rhai cynigion yn cael eu cymeradwyo gan bron pob un o'r ymatebwyr. Er enghraifft, roedd 95% yn cytuno â'r rhestrau o newidiadau mawr a hysbysadwy, sy'n adlewyrchu cefnogaeth gref i'r dull o reoli newidiadau i ddyluniad adeilad yn ystod y cam adeiladu.

**180.** Cafwyd rhai awgrymiadau i ddiwygio cyfnodau o amser o'r rhai a gynigiwyd, yn arbennig y cyfnod o 28 diwrnod ar gyfer hysbysu ALI am newid cleient a'r cyfnod o 14 diwrnod ar gyfer rhoi gwybod am ansolfedd. Ar ôl ystyried yr holl sylwadau, nid ydym o'r farn bod rhesymau cymhellol dros newid y cynigion a chreu gwahaniaethau diangen rhwng y rheoliadau a fyddai'n deillio o hynny a'r rhai sydd eisoes ar waith yn Lloegr.

**181.** Fodd bynnag, rydym wedi newid y dull o ymdrin â newidiadau hysbysadwy, sy'n golygu y bydd modd rhoi'r newidiadau hyn ar waith unwaith y bydd yr awdurdod lleol wedi'i hysbysu. Yna, bydd gan yr awdurdod 10 diwrnod gwaith i wrthwynebu'r newid ond ni fydd unrhyw ofyniad i roi'r gorau i unrhyw waith yn ystod y cyfnod hwn. Nodwn fod hyn yn cyd-fynd â rheoliadau sydd eisoes ar waith yn Lloegr. Er bod mwyafrif o'r ymatebwyr o blaid y cynnig gwreiddiol, ar ôl dadansoddi sylwadau a gafwyd a gweithgarwch ymgysylltu arall â rhanddeiliaid, rydym yn cydnabod na ddylai'r newidiadau hyn effeithio ar brosiect yn yr un ffordd ag y byddai newidiadau mawr yn ei wneud. Rydym hefyd yn cydnabod y galwadau cyson am gysondeb â'r rheoliadau sydd eisoes ar waith yn Lloegr. Felly, credwn mai newid y cynnig fel y disgrifiwyd uchod yw'r ffordd gywir ymlaen.

## Unioniad Adeiladau Risg Uwch

**Crynodeb o'r ymatebion i'r cwestiynau**

**Cwestiwn 4.113**
**A ydych yn cytuno neu'n anghytuno â'r cynnig i wrthod cais am uniondeb os oes angen gwaith ychwanegol i allu cydymffurfio â'r rheoliadau priodol?**

Crynodeb o'r ymatebion

| | | |
|---|---|---|
| Cytuno | 30 | 75% |
| Anghytuno | 5 | 13% |
| Ddim yn cytuno nac yn anghytuno | 5 | 13% |
| Ddim yn gwybod | 0 | 0% |
| Cyfanswm yr ymatebion | 40 | 100%* |

*Nid yw'r canrannau yn gwneud cyfanswm o 100% oherwydd talgrynnu

**Cwestiwn 4.114**
**Esboniwch eich ateb. Os ydych wedi nodi eich bod yn anghytuno, esboniwch pa newidiadau y dylid eu gwneud yn eich barn chi.**

Crynodeb o'r ymatebion

**182.** Mae cefnogaeth gref o blaid gwrthod ceisiadau am unioniad pan fo angen gwaith ychwanegol er mwyn sicrhau cydymffurfedd Fodd bynnag, mae llawer o ymatebwyr yn pwysleisio bod angen eglurder ynglŷn â'r hyn sy'n gyfystyr â “mân” waith o gymharu â gwaith “mawr” ac yn rhybuddio rhag mabwysiadu polisïau gwrthod rhy gaeth a allai rhwystro datrysiad neu gosbi gwaith brys. Codwyd pryderon hefyd ynghylch terminoleg a ddefnyddir yn y cynigion a sut mae ‘gwrthod’ cais yn rhyngweithio â darpariaethau presennol ar gyfer unioniad yn Rheoliadau Adeiladu 2010.

**Cwestiwn 4.115**
**A ydych yn cytuno neu'n anghytuno bod yn rhaid i'r ymgeisydd roi gwybodaeth am waith adeiladu a chopi o'r dystysgrif i'r person cyfrifol o fewn 5 diwrnod i'w derbyn?**

Crynodeb o'r ymatebion

| | | |
|---|---|---|
| Cytuno | 34 | 87% |
| Anghytuno | 1 | 3% |
| Ddim yn cytuno nac yn anghytuno | 2 | 5% |
| Ddim yn gwybod | 2 | 5% |
| Cyfanswm yr ymatebion | 39 | 100% |

**Cwestiwn 4.116**
**Esboniwch eich ateb. Os ydych wedi nodi eich bod yn anghytuno, esboniwch pa newidiadau y dylid eu gwneud yn eich barn chi.**

Crynodeb o'r ymatebion

**183.** Mae mwyafrif helaeth o'r ymatebwyr yn cytuno â'r cyfnod o bum diwrnod, gan ystyried ei fod yn rhesymol ac yn angenrheidiol i gynnal y “llinyn aur” o wybodaeth am ddiogelwch adeilad. Awgrymodd rhai ymatebwyr y dylai tystysgrif gael ei dyroddi'n awtomatig a chodi mân bryderon ynghylch oedi ymarferol.

**Cwestiwn 4.117**
**A oes gennych unrhyw sylwadau eraill mewn perthynas â'r cynigion?**

Crynodeb o'r ymatebion

**184.** Dim ond un sylw a gafwyd, a dynnodd sylw at bryderon ynghylch cymhwysedd y rhai sy'n awdurdodi gwaith ar Adeiladau Risg Uchel. Mae'r ymatebydd yn cefnogi'r diwygiadau ehangach y bwriedir iddynt ddileu bylchau hirsefydlog mewn rheolaeth adeiladu a chyfrifoldebau cleientiaid.

**Ymateb y Llywodraeth**

**185.** Roedd mwyafrif clir o'r ymatebwyr yn cefnogi'r cynigion a amlinellwyd yn yr ymgynghoriad. Er bod yr adborth yn gadarnhaol ar y cyfan, tynnodd

ymatebwyr sylw ar yr angen am arweiniad clir ar yr hyn sy'n gyfystyr â “mân” waith o gymharu â gwaith “mawr” a chodi pryderon ynghylch terminoleg a rhoi'r cynigion ar waith yn ymarferol. Bydd y Llywodraeth yn cadw'r gofyniad o bum diwrnod, gan ddarparu ar gyfer eithriadau rhesymol, a bydd yn bwrw ymlaen â chamau gweithredu allweddol er mwyn cyhoeddi canllawiau manwl ac ystyried argymhellion ychwanegol lle y'u nodir, gan gynnwys egluro diffiniadau a sicrhau cymhwysedd i wneud penderfyniadau mewn perthynas ag adeiladau risg uchel.

## Cwblhau gwaith ar adeilad risg uwch (Porth 3)

**Crynodeb o'r ymatebion i'r cwestiynau**

**Cwestiwn 4.118**
**A ydych yn cytuno neu'n anghytuno â'r cynnig y gellir gwneud cais am dystysgrifau cwblhau pan fydd yr holl waith hysbysadwy wedi'i gwblhau a bod yn rhaid i unrhyw waith i ymdrin â mân broblemau sydd i'w gwblhau ar ôl y pwynt hwn fod yn waith sydd y tu hwnt i ofynion y rheoliadau adeiladu?**

Crynodeb o'r ymatebion

| | | |
|---|---|---|
| Cytuno | 35 | 88% |
| Anghytuno | 3 | 8% |
| Ddim yn cytuno nac yn anghytuno | 2 | 5% |
| Ddim yn gwybod | 0 | 0% |
| Cyfanswm yr ymatebion | 40 | 100%* |

*Nid yw'r canrannau yn gwneud cyfanswm o 100% oherwydd talgrynnu

**Cwestiwn 4.119**
**Rhowch esboniad dros eich ateb. Esboniwch pa newidiadau y dylid eu gwneud (os o gwbl) yn eich barn chi.**

Crynodeb o'r ymatebion

**186.** Mae cefnogaeth gref (88%) o blaid caniatáu tystysgrifau cwblhau unwaith y bydd yr holl waith hysbysadwy wedi'i gwblhau, gydag unrhyw waith i ymdrin â mân broblemau yn cael ei gyfyngu i faterion nad ydynt yn ddarostyngedig i reoliadau adeiladu. Fodd bynnag, mae pryderon o hyd ynghylch amwysedd yr ymadrodd "gwaith i ymdrin â mân broblemau" a'i oblygiadau posibl i ddiogelwch.

**Cwestiwn 4.120**
**A ydych yn cytuno neu'n anghytuno â'r dogfennau y cynigir y dylid eu cynnwys gyda chais am dystysgrif cwblhau?**

Crynodeb o'r ymatebion

| | | |
|---|---|---|
| Cytuno | 36 | 95% |
| Anghytuno | 1 | 3% |
| Ddim yn cytuno nac yn anghytuno | 0 | 0% |
| Ddim yn gwybod | 1 | 3% |

| | | |
|---|---|---|
| Cyfanswm yr ymatebion | 38 | 100%* |

*Nid yw'r canrannau yn gwneud cyfanswm o 100% oherwydd talgrynnu

**Cwestiwn 4.121**
**Rhowch esboniad dros eich ateb. Esboniwch pa newidiadau y dylid eu gwneud (os o gwbl) yn eich barn chi.**

Crynodeb o'r ymatebion

**187.** Roedd mwyafrif helaeth o'r ymatebwyr (95%) yn cytuno â'r gofynion arfaethedig o ran dogfennaeth, ond galwyd am ganllawiau mwy manwl ac eglurder, yn arbennig mewn perthynas â diogelwch tân a newidiadau mewn deiliaid dyletswydd.

**Cwestiwn 4.122**
**A ydych yn cytuno neu'n anghytuno y dylai fod yn ofynnol i'r awdurdod lleol ymgynghori â'r awdurdod gorfodi, megis yr awdurdod tân ac achub, a lle y bo'n berthnasol, yr ymgymerwr carthffosiaeth, wrth benderfynu ar gais am dystysgrif cwblhau?**

Crynodeb o'r ymatebion

| | | |
|---|---|---|
| Cytuno | 34 | 87% |
| Anghytuno | 3 | 8% |
| Ddim yn cytuno nac yn anghytuno | 2 | 5% |
| Ddim yn gwybod | 0 | 0% |
| Cyfanswm yr ymatebion | 39 | 100% |

**Cwestiwn 4.123**
**Rhowch esboniad dros eich ateb. Esboniwch pa newidiadau y dylid eu gwneud (os o gwbl) yn eich barn chi.**

Crynodeb o'r ymatebion

**188.** Mae'r rhan fwyaf o'r ymatebwyr (87%) o blaid ymgynghori gorfodol ag awdurdodau tân ac achub a, lle y bo'n berthnasol, ymgymerwyr carthffosiaeth. Fodd bynnag, mae pryderon ynghylch oedi posibl a dyblygu ymgyngoriadau cynharach.

**Cwestiwn 4.124**
**A ydych yn cytuno neu'n anghytuno â'r meini prawf y dylai awdurdod lleol eu defnyddio wrth benderfynu a ddylid derbyn cais am dystysgrif cwblhau?**

Crynodeb o'r ymatebion

| | | |
|---|---|---|
| Cytuno | 37 | 97% |
| Anghytuno | 0 | 0% |
| Ddim yn cytuno nac yn anghytuno | 1 | 3% |
| Ddim yn gwybod | 0 | 0% |
| Cyfanswm yr ymatebion | 38 | 100% |

**Cwestiwn 4.125**
**Rhowch esboniad dros eich ateb. Esboniwch pa newidiadau y dylid eu gwneud (os o gwbl) yn eich barn chi.**

Crynodeb o'r ymatebion

**189.** Roedd bron pob un o'r ymatebwyr (97%) yn cytuno â'r meini prawf ar gyfer derbyn ceisiadau. Mae ymatebwyr yn pwysleisio bod angen safoni ac eglurder er mwyn sicrhau bod y meini prawf yn gadarn ac osgoi amwysedd.

**Cwestiwn 4.126**
**A ydych yn cytuno neu'n anghytuno â'r dull arfaethedig y dylai awdurdodau lleol ei ddefnyddio wrth benderfynu ar gais am dystysgrif cwblhau?**

Crynodeb o'r ymatebion

| | | |
|---|---|---|
| Cytuno | 35 | 95% |
| Anghytuno | 0 | 0% |
| Ddim yn cytuno nac yn anghytuno | 2 | 5% |
| Ddim yn gwybod | 0 | 0% |
| Cyfanswm yr ymatebion | 37 | 100% |

**Cwestiwn 4.127**
**Rhowch esboniad dros eich ateb. Esboniwch pa newidiadau y dylid eu gwneud (os o gwbl) yn eich barn chi.**

Crynodeb o'r ymatebion

**190.** Roedd mwyafrif helaeth o'r ymatebwyr yn cytuno â'r dull gweithredu arfaethedig ac nid oedd yr un ymatebydd yn anghytuno, er bod rhai yn teimlo nad yw'n ddigon manwl a bod angen canllawiau cliriach arno, yn arbennig mewn perthynas â dogfennaeth dderbyniol ac achredu trydydd parti.

**Cwestiwn 4.128**
**A ydych yn cytuno neu'n anghytuno â'r terfyn amser o 8 wythnos y dylai awdurdod lleol ei fodloni wrth benderfynu ar gais am dystysgrif cwblhau?**

Crynodeb o'r ymatebion

| | | |
|---|---|---|
| Cytuno | 26 | 63% |
| Anghytuno | 8 | 20% |
| Ddim yn cytuno nac yn anghytuno | 4 | 10% |
| Ddim yn gwybod | 3 | 7% |
| Cyfanswm yr ymatebion | 41 | 100 |

**Cwestiwn 4.129**
**Rhowch esboniad dros eich ateb. Esboniwch pa newidiadau y dylid eu gwneud (os o gwbl) yn eich barn chi.**

Crynodeb o'r ymatebion

**191.** Er bod 63% yn cytuno â'r terfyn amser o wyth wythnos, mae 20% o'r farn ei fod yn rhy hir neu'n rhy gaeth. Cafwyd ceisiadau am hyblygrwydd ac eglurder, yn

arbennig ar gyfer prosiectau llai o faint neu achosion o feddiannu adeilad ar frys.

**Cwestiwn 4.130**
**A ydych yn cytuno neu'n anghytuno â'r amrywiadau i'r cais arfaethedig am dystysgrif cwblhau i ystyried gwaith adeiladu wedi'i gwblhau'n rhannol a meddiannaeth fesul cam?**

Crynodeb o'r ymatebion

| | | |
|---|---|---|
| Cytuno | 34 | 89% |
| Anghytuno | 1 | 3% |
| Ddim yn cytuno nac yn anghytuno | 2 | 5% |
| Ddim yn gwybod | 1 | 3% |
| Cyfanswm yr ymatebion | 38 | 100% |

**Cwestiwn 4.131**
**Rhowch esboniad dros eich ateb. Esboniwch pa newidiadau y dylid eu gwneud (os o gwbl) yn eich barn chi.**

Crynodeb o'r ymatebion

**192.** Nododd y rhan fwyaf (89%) o'r ymatebwyr eu bod o blaid amrywiadau ar gyfer gwaith adeiladu wedi'i gwblhau'n rhannol a meddiannaeth fesul cam, gan gydnabod eu hymarferoldeb. Fodd bynnag, mae pryderon ynghylch diogelwch ac eglurder ynglŷn â chyfrifoldebau yn faterion allweddol o hyd.

**Cwestiwn 4.132**
**A ydych y cytuno neu'n anghytuno y dylai fod yn rhaid i'r awdurdod lleol ymgynghori â'r awdurdod gorfodi, megis yr awdurdod tân ac achub, a'r ymgymerwr carthffosiaeth cyn penderfynu ar gais am dystysgrif cwblhau'n rhannol yn yr un modd â'r hyn a gynigir ar gyfer tystysgrif cwblhau?**

Crynodeb o'r ymatebion

| | | |
|---|---|---|
| Cytuno | 32 | 84% |
| Anghytuno | 6 | 16% |
| Ddim yn cytuno nac yn anghytuno | 0 | 0% |
| Ddim yn gwybod | 0 | 0% |
| Cyfanswm yr ymatebion | 38 | 100% |

**Cwestiwn 4.133**
**Rhowch esboniad dros eich ateb. Esboniwch pa newidiadau y dylid eu gwneud (os o gwbl) yn eich barn chi.**

Crynodeb o'r ymatebion

**193.** Roedd y mwyafrif helaeth o'r ymatebwyr o blaid ymgynghori gorfodol ag awdurdodau gorfodi tra bod gwaith adeiladu wedi'i gwblhau'n rhannol. Pwysleisiodd ymatebwyr na ddylai safonau diogelwch gael eu tanseilio a bod awdurdodau tân ac achub yn chwarae rôl hollbwysig o ran sicrhau bod adeiladau yn barod i'w meddiannu.

**Cwestiwn 4.134**
**A ydych yn cytuno neu'n anghytuno â'r meini prawf y dylai awdurdod lleol eu defnyddio wrth benderfynu a ddylid derbyn cais am dystysgrif cwblhau'n rhannol?**

Crynodeb o'r ymatebion

| | | |
|---|---|---|
| Cytuno | 34 | 89% |
| Anghytuno | 1 | 3% |
| Ddim yn cytuno nac yn anghytuno | 2 | 5% |
| Ddim yn gwybod | 1 | 3% |
| Cyfanswm yr ymatebion | 38 | 100% |

**Cwestiwn 4.135**
**Rhowch esboniad dros eich ateb. Esboniwch pa newidiadau y dylid eu gwneud (os o gwbl) yn eich barn chi.**

Crynodeb o'r ymatebion

**194.** Roedd mwyafrif helaeth o'r ymatebwyr o blaid ymgynghori gorfodol ag awdurdodau gorfodi tra bod gwaith adeiladu wedi'i gwblhau'n rhannol. Pwysleisiodd ymatebwyr na ddylai safonau diogelwch gael eu tanseilio a bod awdurdodau tân ac achub yn chwarae rôl hollbwysig o ran sicrhau bod adeiladau yn barod i'w meddiannu.

**Cwestiwn 4.136**
**A ydych yn cytuno neu'n anghytuno â'r dull arfaethedig y dylai awdurdodau lleol ei ddefnyddio wrth benderfynu ar gais am dystysgrif cwblhau'n rhannol?**

Crynodeb o'r ymatebion

| | | |
|---|---|---|
| Cytuno | 33 | 89% |
| Anghytuno | 2 | 5% |
| Ddim yn cytuno nac yn anghytuno | 2 | 5% |
| Ddim yn gwybod | 0 | 0% |
| Cyfanswm yr ymatebion | 37 | 100%* |

*Nid yw'r canrannau yn gwneud cyfanswm o 100% oherwydd talgrynnu

**Cwestiwn 4.137**
**Rhowch esboniad dros eich ateb. Esboniwch pa newidiadau y dylid eu gwneud (os o gwbl) yn eich barn chi.**

Crynodeb o'r ymatebion

**195.** Cafodd y dull gweithredu arfaethedig dderbyniad da, ond mae pryderon o hyd ynghylch rheoli risgiau mewn adeiladau sydd wedi'u cwblhau'n rhannol. Awgrymodd rhai ymatebwyr ddulliau amgen fel tystysgrifau meddiannaeth er mwyn lliniaru'r risgiau hyn.

**Cwestiwn 4.138**
**A ydych yn cytuno neu'n anghytuno â'r terfyn amser o 8 wythnos y dylai awdurdod lleol ei fodloni wrth benderfynu ar gais am dystysgrif cwblhau'n rhannol?**

Crynodeb o'r ymatebion

| | | |
|---|---|---|
| Cytuno | 27 | 69% |
| Anghytuno | 8 | 21% |
| Ddim yn cytuno nac yn anghytuno | 2 | 5% |
| Ddim yn gwybod | 2 | 5% |
| Cyfanswm yr ymatebion | 39 | 100% |

**Cwestiwn 4.139**
**Rhowch esboniad dros eich ateb. Esboniwch pa newidiadau y dylid eu gwneud (os o gwbl) yn eich barn chi.**

Crynodeb o'r ymatebion

**196.** Er bod mwyafrif o'r ymatebwyr yn cefnogi'r terfyn amser o wyth wythnos, roedd llawer o'r farn y dylai fod yn hyblyg yn seiliedig ar gymhlethdod prosiectau. Gallai amserlen gaeth naill ai beri oedi i feddiannaeth neu danseilio gwaith craffu.

**Cwestiwn 4.140**
**A oes gennych unrhyw sylwadau eraill mewn perthynas â'r cynigion?**

Crynodeb o'r ymatebion

**197.** Er mai dim ond nifer bach a gafwyd, tynnodd y sylwadau sylw at bryderon systemig ynghylch capasiti gweithredu a'r risgiau sy'n gysylltiedig â meddiannu adeiladau'n rhannol. Mae diddordeb hefyd mewn cymorth canolog ar gyfer goruchwylio adeiladau risg uwch.

**Ymateb y Llywodraeth**

**198.** Bydd Llywodraeth Cymru yn bwrw ymlaen â chamau gweithredu i gyhoeddi canllawiau manwl a chadw hyblygrwydd mewn amserlenni statudol er mwyn helpu i roi'r cynigion ar waith yn ddiogel ac yn effeithiol.

**199.** Hoffem nodi bod rhai o'r argymhellion a wnaed gan ymatebwyr eisoes wedi'u rhoi ar waith gan y Bil Diogelwch Adeiladau (Cymru).

**200.** Dylid hefyd nodi bod yn rhaid i dystysgrif comisiynu gael eu cyflwyno ochr yn ochr â'r cais am dystysgrif gwblhau, gan alluogi'r awdurdod lleol i ystyried yr holl ddogfennaeth o fewn yr amserlen statudol.

**201.** Mewn ymateb i'r pryderon ynghylch amserlenni caeth, cynigiodd yr ymgynghoriad y caiff awdurdodau lleol ac ymgeiswyr gytuno, yn ysgrifenedig, i estyn y cyfnod penderfynu lle y bo angen, gan roi'r hyblygrwydd a geisiwyd.

# Adrodd Gorfodol am Ddigwyddiadau

**Crynodeb o'r ymatebion i'r cwestiynau**

**Cwestiwn 5.1**
**A ydych yn cytuno neu'n anghytuno, pan fydd deiliad dyletswydd wedi dod yn ymwybodol o ddigwyddiad rhaid iddo adrodd am y digwyddiad i'r awdurdod lleol heb oedi gormodol a darparu adroddiad ysgrifenedig o fewn 10 diwrnod calendr?**

Crynodeb o'r ymatebion

| | | |
|---|---|---|
| Cytuno | 32 | 80% |
| Anghytuno | 5 | 13% |
| Ddim yn cytuno nac yn anghytuno | 3 | 8% |
| Ddim yn gwybod | 0 | 0% |
| Cyfanswm yr ymatebion | 40 | 100%* |

*Nid yw'r canrannau yn gwneud cyfanswm o 100% oherwydd talgrynnu

**Cwestiwn 5.2**
**Rhowch resymau dros eich ateb. Os ydych yn anghytuno, esboniwch pa newidiadau y dylid eu gwneud, yn eich barn chi.**

Crynodeb o'r ymatebion

**202.** Roedd cefnogaeth gref o blaid ei gwneud yn ofynnol i ddeiliaid dyletswydd adrodd am ddigwyddiadau yn brydlon a chyflwyno adroddiad ysgrifenedig o fewn 10 diwrnod calendr. Fodd bynnag, cododd sawl ymatebydd bryderon ynghylch ymarferoldeb y cyfnod hwn o amser, yn arbennig ar gyfer ymchwiliadau cymhleth neu yn ystod gwyliau. Gofynnodd rhai ymatebwyr hefyd am gyllid a hyfforddiant i awdurdodau lleol er mwyn eu helpu i gasglu'r data.

**Cwestiwn 5.3**
**A ydych yn cytuno neu'n anghytuno â'r diffiniadau arfaethedig o ddigwyddiad diogelwch ac amod risg?**

Crynodeb o'r ymatebion

| | | |
|---|---|---|
| Cytuno | 30 | 75% |
| Anghytuno | 5 | 13% |
| Ddim yn cytuno nac yn anghytuno | 5 | 13% |
| Ddim yn gwybod | 0 | 0% |
| Cyfanswm yr ymatebion | 40 | 100%* |

*Nid yw'r canrannau yn gwneud cyfanswm o 100% oherwydd talgrynnu

**Cwestiwn 5.4**
**Rhowch resymau dros eich ateb. Os ydych yn anghytuno, esboniwch pa newidiadau y dylid eu gwneud, yn eich barn chi.**

Crynodeb o'r ymatebion

**203.** Roedd mwyafrif o'r ymatebwyr yn cytuno â'r diffiniadau arfaethedig ond roedd galw clir am ganllawiau clir a diffiniadau pendant er mwyn osgoi camddehongli a sicrhau bod diffiniadau'n cael eu defnyddio'n gyson rhwng prosiectau. Roedd rhai ymatebwyr o'r farn bod y diffiniadau yn golygu bod y trothwy ar gyfer adrodd yn rhy uchel ac y gallai arwain at dangofnodi.

**Cwestiwn 5.5**

**A ydych yn cytuno neu'n anghytuno â'r eithriadau arfaethedig i wybodaeth nad yw'n dderbyniol fel tystiolaeth mewn achos llys?**

Crynodeb o'r ymatebion

| | | |
|---|---|---|
| Cytuno | 29 | 74% |
| Anghytuno | 4 | 10% |
| Ddim yn cytuno nac yn anghytuno | 4 | 10% |
| Ddim yn gwybod | 2 | 5% |
| Cyfanswm yr ymatebion | 39 | 100%* |

*Nid yw'r canrannau yn gwneud cyfanswm o 100% oherwydd talgrynnu

**Cwestiwn 5.6**

**Rhowch resymau dros eich ateb. Os ydych yn anghytuno, esboniwch pa newidiadau rydych yn meddwl sydd eu hangen.**

Crynodeb o'r ymatebion

**204.** Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr yn cytuno â'r eithriadau arfaethedig, gan ystyried eu bod yn ffordd o annog arferion adrodd gonest. Fodd bynnag, roedd rhai o'r farn y dylid ehangu'r cwmpas i gynnwys gwybodaeth ffug neu gamarweiniol er bod hyn yn seiliedig ar rannau o Ddeddf Diogelwch Adeiladau 2022 sydd ond yn gymwys i Loegr.

**Cwestiwn 5.7**

**A ydych yn cytuno neu'n anghytuno bod yr wybodaeth arfaethedig sy'n ofynnol wrth adrodd am ddigwyddiad diogelwch yn briodol?**

Crynodeb o'r ymatebion

| | | |
|---|---|---|
| Cytuno | 34 | 87% |
| Anghytuno | 3 | 8% |
| Ddim yn cytuno nac yn anghytuno | 2 | 5% |
| Ddim yn gwybod | 0 | 0% |
| Cyfanswm yr ymatebion | 39 | 100% |

**Cwestiwn 5.8**

**Rhowch resymau dros eich ateb. Os ydych yn anghytuno, esboniwch pa newidiadau y dylid eu gwneud, yn eich barn chi.**

Crynodeb o'r ymatebion

**205.** Roedd mwyafrif o'r ymatebwyr yn cytuno bod y wybodaeth arfaethedig yn briodol. Pwysleisiodd ymatebwyr bwysigrwydd data manwl a chyson ond tynnodd rhai sylw hefyd at y baich posibl ar awdurdodau lleol.

**Cwestiwn 5.9**
**A oes gennych unrhyw sylwadau eraill mewn perthynas â'r cynigion?**

Crynodeb o'r ymatebion

**206.** Gwnaed pum sylw ychwanegol. Ailadroddodd ymatebwyr bryderon a godwyd mewn ymateb i gwestiynau blaenorol ynghylch rhoi'r cynigion ar waith yn ymarferol, y baich ar awdurdodau lleol, eglurder y disgwyliadau o ran adrodd a chysondeb systemau rhwng deiliaid dyletswydd. Yn yr un modd, gofynnodd rhai sylwadau am ganllawiau clir a chymorth gan Lywodraeth Cymru er mwyn sicrhau bod y cynigion yn cael eu rhoi ar waith yn effeithiol ac yn deg.

**Ymateb y Llywodraeth**

**207.** Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod y gefnogaeth gref i'r fframwaith adrodd gorfodol am ddigwyddiadau arfaethedig. Er bod hyn yn dangos consensws eang ynghylch pwysigrwydd adrodd yn amserol, cododd sawl ymatebydd bryderon ynghylch y cyfnod o 10 diwrnod a chysondeb gwybodaeth a phryderon ymarferol ynghylch sut y byddai'n data'n cael eu rheoli. Er nad ydym yn bwriadu newid y polisi arfaethedig, rydym yn cydnabod y pryderon hyn a byddwn yn ystyried y ffordd orau o helpu deiliaid dyletswydd ac awdurdodau lleol i fodloni'r gofynion hyn.

# Hysbysiadau Cydymffurfio a Hysbysiadau Stop

**Crynodeb o'r ymatebion i'r cwestiynau**

**Cwestiwn 6.1**
**A ydych yn cytuno neu'n anghytuno â'r cynnwys ar gyfer hysbysiadau cydymffurfio a nodir uchod?**

Crynodeb o'r ymatebion

| | | |
|---|---|---|
| Cytuno | 37 | 93% |
| Anghytuno | 0 | 0% |
| Ddim yn cytuno nac yn anghytuno | 3 | 8% |
| Ddim yn gwybod | 0 | 0% |
| Cyfanswm yr ymatebion | 40 | 100%* |

*Nid yw'r canrannau yn gwneud cyfanswm o 100% oherwydd talgrynnu

**Cwestiwn 6.2**
**Esboniwch eich ateb. Os ydych wedi nodi eich bod yn anghytuno, esboniwch pa newidiadau y dylid eu gwneud yn eich barn chi.**

Crynodeb o'r ymatebion

**208.** Roedd y mwyafrif helaeth o'r ymatebwyr yn cefnogi'r hysbysiadau cydymffurfio arfaethedig, gydag ymatebwyr yn cydnabod eu bod yn angenrheidiol a chysondeb â rheoliadau presennol. Fodd bynnag, codwyd pryderon ynghylch y potensial ar gyfer mwy o fiwrocratiaeth a'r risg y bydd cyrff rheolaeth adeiladu yn newid o fod yn hwyluswyr cydweithredol i fod yn orfodwyr llym, a allai danseilio ymddiriedaeth a threfniadau cydweithio yn y sector.

**Cwestiwn 6.3**
**A ydych yn cytuno neu'n anghytuno â'r cynnwys ar gyfer hysbysiadau stop a nodir uchod?**

Crynodeb o'r ymatebion

| | | |
|---|---|---|
| Cytuno | 36 | 92% |
| Anghytuno | 1 | 3% |
| Ddim yn cytuno nac yn anghytuno | 2 | 5% |
| Ddim yn gwybod | 0 | 0% |
| Cyfanswm yr ymatebion | 39 | 100% |

**Cwestiwn 6.4**
**Esboniwch eich ateb. Os ydych wedi nodi eich bod yn anghytuno, esboniwch pa newidiadau y dylid eu gwneud yn eich barn chi.**

Crynodeb o'r ymatebion

**209.** Ar y cyfan, roedd yr ymatebwyr o blaid defnyddio hysbysiadau stop fel dull gorfodi cryf er mwyn atal gwaith anniogel neu waith nad yw'n cydymffurfio â'r rheoliadau. Fodd bynnag, gwnaethant bwysleisio pwysigrwydd cymesuredd,

eglurder wrth roi cynigion ar waith a'r angen am systemau apelio er mwyn sicrhau tegwch a thryloywder.

**Cwestiwn 6.5**
**A ydych yn cytuno neu'n anghytuno y dylid hysbysu'r personau/cyrff a grybwyllir uchod ar ôl cyhoeddi hysbysiad cydymffurfio neu hysbysiad stop?**

Crynodeb o'r ymatebion

| | | |
|---|---|---|
| Cytuno | 35 | 90% |
| Anghytuno | 2 | 5% |
| Ddim yn cytuno nac yn anghytuno | 2 | 5% |
| Ddim yn gwybod | 0 | 0% |
| Cyfanswm yr ymatebion | 39 | 100% |

**Cwestiwn 6.6**
**Esboniwch eich ateb. Esboniwch a ddylid hysbysu unrhyw gyrff/personau eraill ar ôl cyhoeddi hysbysiad cydymffurfio neu hysbysiad stop.**

Crynodeb o'r ymatebion

**210.** Roedd cefnogaeth glir o blaid hysbysu rhanddeiliaid perthnasol ar ôl cyhoeddi hysbysiadau, gyda llawer yn dadlau dros restr ehangach sydd wedi'i diffinio'n glir. Ystyriwyd bod tryloywder a chyfathrebu'n gynnar yn hanfodol i reoli risgiau, sicrhau atebolrwydd a'i gwneud yn bosibl i gamau unioni gael eu cymryd yn amserol.

**Cwestiwn 6.7**
**A hoffech ddarparu unrhyw sylwadau ar ein dull gweithredu arfaethedig ar gyfer tynnu hysbysiadau cydymffurfio a hysbysiadau stop yn ôl?**

Crynodeb o'r ymatebion

**211.** Roedd ymatebwyr yn cefnogi'r hyblygrwydd i dynnu hysbysiadau yn ôl, gan gydnabod ei fod yn gam ymarferol tuag at symleiddio prosesau cyfreithiol. Fodd bynnag, gwnaethant bwysleisio bod angen tryloywder, atebolrwydd cyhoeddus a mesurau diogelwch er mwyn atal hysbysiadau rhag cael eu camddefnyddio neu ddryswch, yn arbennig mewn senarios risg uchel.

**Cwestiwn 6.8**
**A ydych yn cytuno neu'n anghytuno â'r newidiadau arfaethedig i'r eithriadau rhag camau gorfodi?**

Crynodeb o'r ymatebion

| | | |
|---|---|---|
| Cytuno | 24 | 63% |
| Anghytuno | 3 | 8% |
| Ddim yn cytuno nac yn anghytuno | 7 | 18% |
| Ddim yn gwybod | 4 | 11% |
| Cyfanswm yr ymatebion | 38 | 100% |

**Cwestiwn 6.9**
**Esboniwch eich ateb. Os ydych yn anghytuno, pa reoliadau y dylid eu heithrio?**

Crynodeb o'r ymatebion

**212.** Roedd y mwyafrif (63%) o'r ymatebwyr a atebodd y cwestiwn yn cytuno â'r newidiadau arfaethedig i'r eithriadau rhag camau gorfodi, gan ddangos bod cefnogaeth eang i ddiwygiadau y bwriedir iddynt hyrwyddo atebolrwydd, eglurder a chysondeb â'r gyfundrefn rheolaeth adeiladu.

**213.** Roedd pryderon o hyd ynghylch manylion prosesau gweithredu'r cynigion, yn arbennig mewn perthynas â thegwch, eglurder meini prawf a'r baich o ran adnoddau ar gyrff gorfodi. Roedd galw clir am well canllawiau, hyfforddiant a gweithgarwch ymgysylltu â rhanddeiliaid er mwyn sicrhau bod newidiadau i eithriadau yn atgyfnerthu'r broses orfodi yn hytrach na'i chymhlethu.

**Cwestiwn 6.10**
**A ydych yn cytuno neu'n anghytuno â'r dulliau gorfodi a gynigir ar gyfer adeiladau nad ydynt yn risg uwch, yn debyg i doriadau eraill o dan Reoliad 16?**

Crynodeb o'r ymatebion

| | | |
|---|---|---|
| Cytuno | 38 | 95% |
| Anghytuno | 0 | 0% |
| Ddim yn cytuno nac yn anghytuno | 2 | 5% |
| Ddim yn gwybod | 0 | 0% |
| Cyfanswm yr ymatebion | 40 | 100% |

**Cwestiwn 6.11**
**Rhowch esboniad dros eich ateb. Os ydych wedi nodi eich bod yn anghytuno, esboniwch pa newidiadau y dylid eu gwneud yn eich barn chi.**

Crynodeb o'r ymatebion

**214.** Roedd y mwyafrif helaeth o'r ymatebwyr yn cytuno y dylai dulliau gorfodi ar gyfer cydymffurfiaeth deiliaid dyletswydd mewn adeiladau nad ydynt yn risg uwch adlewyrchu'r rhai o dan Reoliad 16 o'r Rheoliadau Adeiladu (Cymeradwywyr Cofrestredig Rheolaeth Adeiladu etc.) (Cymru). Pwysleisiodd ymatebwyr fod angen canllawiau clir, hyfforddiant trylwyr a cham cyfryngu er mwyn datrys problemau cyn cymryd camau gorfodi ffurfiol.

**Cwestiwn 6.12**
**A ydych yn cytuno â'n cynnig i ganiatáu i geisiadau gael eu cyflwyno i Weinidogion Cymru a'r terfynau amser a'r prosesau a ddisgrifir uchod?**

Crynodeb o'r ymatebion

| | | |
|---|---|---|
| Cytuno | 32 | 84% |
| Anghytuno | 0 | 0% |
| Ddim yn cytuno nac yn anghytuno | 6 | 16% |
| Ddim yn gwybod | 0 | 0% |
| Cyfanswm yr ymatebion | 38 | 100% |

**Cwestiwn 6.13**
**Rhowch esboniad dros eich ateb. Os ydych wedi nodi eich bod yn anghytuno, esboniwch pa newidiadau y dylid eu gwneud yn eich barn chi.**

Crynodeb o'r ymatebion

**215.** Roedd ymatebwyr yn cefnogi'r gallu i wneud cais i Weinidogion Cymru, gan ystyried ei fod yn llwybr teg a thryloyw ar gyfer apeliadau. Fodd bynnag, codwyd pryderon ynghylch a oes gan weinidogion ddigon o adnoddau ac eglurder ynglŷn â'r hyn sy'n gyfystyr â gwaith risg uwch.

**Cwestiwn 6.14**
**A ydych yn cytuno â'r wybodaeth y mae'n ofynnol i'r apelydd ei chyflwyno?**

Crynodeb o'r ymatebion

| | | |
|---|---|---|
| Cytuno | 33 | 92% |
| Anghytuno | 0 | 0% |
| Ddim yn cytuno nac yn anghytuno | 3 | 8% |
| Ddim yn gwybod | 0 | 0% |
| Cyfanswm yr ymatebion | 36 | 100% |

**Cwestiwn 6.15**
**Rhowch esboniad dros eich ateb. Os ydych wedi nodi eich bod yn anghytuno, esboniwch pa wybodaeth y dylid ei chynnwys yn eich barn chi.**

Crynodeb o'r ymatebion

**216.** Ystyriwyd bod y gofynion o ran gwybodaeth yn rhesymol ac yn ddigonol i gefnogi asesiadau apelio teg. Roedd ymatebwyr yn gwerthfawrogi'r cysondeb â rheoliadau sydd eisoes ar waith yn Lloegr a'r cyfnod o 28 diwrnod.

**Cwestiwn 6.16**
**A ydych yn cytuno â'n cynnig i ganiatáu i apeliadau a cheisiadau gael eu cyflwyno i'r llysoedd ynadon o dan yr amodau a restrir?**

Crynodeb o'r ymatebion

| | | |
|---|---|---|
| Cytuno | 30 | 75% |
| Anghytuno | 4 | 10% |
| Ddim yn cytuno nac yn anghytuno | 4 | 10% |
| Ddim yn gwybod | 2 | 5% |
| Cyfanswm yr ymatebion | 40 | 100% |

**Cwestiwn 6.17**
**Rhowch esboniad dros eich ateb. Os ydych wedi nodi eich bod yn anghytuno, esboniwch o dan ba amgylchiadau y dylid gallu cyflwyno ceisiadau ac apeliadau i'r llys ynadon.**

Crynodeb o'r ymatebion

**217.** Er bod y rhan fwyaf o'r ymatebwyr yn cefnogi'r cynnig, roedd cryn bryder ynghylch gallu ynadon i ymdrin ag apeliadau technegol cymhleth. Roedd rhai

ymatebwyr yn dadlau dros dribiwnlysoedd arbenigol er mwyn sicrhau penderfyniadau seiliedig ar wybodaeth.

**Cwestiwn 6.18**
**A ydych yn cytuno â'r cyfnodau arfaethedig ar gyfer cyflwyno ceisiadau ac apeliadau?**

Crynodeb o'r ymatebion

| | | |
|---|---|---|
| Cytuno | 33 | 85% |
| Anghytuno | 0 | 0% |
| Ddim yn cytuno nac yn anghytuno | 6 | 15% |
| Ddim yn gwybod | 0 | 0% |
| Cyfanswm yr ymatebion | 39 | 100% |

**Cwestiwn 6.19**
**Rhowch esboniad dros eich ateb. Os ydych wedi nodi eich bod yn anghytuno, esboniwch beth fyddai'n gyfnod rhesymol yn eich barn chi a'ch rhesymau.**

Crynodeb o'r ymatebion

**218.** Cafodd y cyfnod o 21 diwrnod ei dderbyn yn eang fel un sy'n gymesur ac yn gyson â chyfundrefnau gorfodi eraill. Fodd bynnag, awgrymwyd y dylai fod hyblygrwydd ar gyfer amgylchiadau eithriadol er mwyn sicrhau tegwch.

**Cwestiwn 6.20**
**A ydych yn cytuno neu'n anghytuno â'r rhestr arfaethedig o geisiadau y gellir cyflwyno cais adran 30A ar eu cyfer?**

Crynodeb o'r ymatebion

| | | |
|---|---|---|
| Cytuno | 33 | 85% |
| Anghytuno | 0 | 0% |
| Ddim yn cytuno nac yn anghytuno | 5 | 13% |
| Ddim yn gwybod | 1 | 3% |
| Cyfanswm yr ymatebion | 39 | 100%* |

*Nid yw'r canrannau yn gwneud cyfanswm o 100% oherwydd talgrynnu

**Cwestiwn 6.21**
**Rhowch esboniad dros eich ateb. Os ydych wedi nodi eich bod yn anghytuno, esboniwch pa geisiadau y dylai cais adran 30A fod yn berthnasol iddynt.**

Crynodeb o'r ymatebion

**219.** Roedd consensws cryf bod y rhestr arfaethedig yn briodol a'i bod yn adlewyrchu rheoliadau sydd eisoes ar waith yn Lloegr. Pwysleisiodd ymatebwyr fod angen i Lywodraeth Cymru sicrhau bod adnoddau digonol ar gael er mwyn atal achosion o oedi a allai effeithio ar ymarferoldeb gwaith adeiladu risg uwch a chynhyrchiant.

**Cwestiwn 6.22**
**A ydych yn cytuno neu'n anghytuno â'r weithdrefn arfaethedig ar gyfer ceisiadau a wneir o dan adran 30A o Ddeddf 1984?**

Crynodeb o'r ymatebion

| | | |
|---|---|---|
| Cytuno | 31 | 84% |
| Anghytuno | 1 | 3% |
| Ddim yn cytuno nac yn anghytuno | 4 | 11% |
| Ddim yn gwybod | 1 | 3% |
| Cyfanswm yr ymatebion | 37 | 100%* |

*Nid yw'r canrannau yn gwneud cyfanswm o 100% oherwydd talgrynnu

**Cwestiwn 6.23**
**Rhowch esboniad dros eich ateb. Os ydych wedi nodi eich bod yn anghytuno, esboniwch pa newidiadau y dylid eu gwneud yn eich barn chi.**

Crynodeb o'r ymatebion

**220.** Cafodd y weithdrefn arfaethedig ei derbyn yn eang fel un sy'n rhesymegol ac yn gymesur. Fodd bynnag, codwyd pryderon ynghylch ei heffaith ar adnoddau awdurdodau lleol, yn arbennig yng nghyd-destun cyfyngiadau cyllidebol a gwaith adnewyddu risg uchel.

**Cwestiwn 6.24**
**A ydych yn cytuno neu'n anghytuno y dylai fod yn rhaid i gais o dan adran 30A o Ddeddf 1984 gael ei gyflwyno ar ffurf ysgrifenedig i Weinidogion Cymru o fewn chwe wythnos (gan ddechrau ar y diwrnod ar ôl diwedd y cyfnod ar gyfer gwneud penderfyniad ar y cais perthnasol)?**

Crynodeb o'r ymatebion

| | | |
|---|---|---|
| Cytuno | 30 | 83% |
| Anghytuno | 0 | 0% |
| Ddim yn cytuno nac yn anghytuno | 4 | 11% |
| Ddim yn gwybod | 2 | 6% |
| Cyfanswm yr ymatebion | 36 | 100% |

**Cwestiwn 6.25**
**Rhowch esboniad dros eich ateb. Os ydych wedi nodi eich bod yn anghytuno, esboniwch pa newidiadau y dylid eu gwneud yn eich barn chi.**

Crynodeb o'r ymatebion

**221.** Roedd y mwyafrif helaeth o'r ymatebwyr yn cefnogi'r terfyn amser o chwe wythnos, gan ystyried ei fod yn fesur teg ac angenrheidiol er mwyn sicrhau apeliadau amserol a lleihau nifer yr achosion o oedi gweinyddol.

**Cwestiwn 6.26**
**A ydych yn cytuno neu'n anghytuno â'r gofynion arfaethedig ar gyfer dogfennau ar gyfer ceisiadau adran 30A?**

Crynodeb o'r ymatebion

| | | |
|---|---|---|
| Cytuno | 33 | 89% |
| Anghytuno | 0 | 0% |

| | | |
|---|---|---|
| Ddim yn cytuno nac yn anghytuno | 3 | 8% |
| Ddim yn gwybod | 1 | 3% |
| Cyfanswm yr ymatebion | 37 | 100% |

**Cwestiwn 6.27**
**Rhowch esboniad dros eich ateb. Os ydych wedi nodi eich bod yn anghytuno, esboniwch pa newidiadau y dylid eu gwneud yn eich barn chi.**

Crynodeb o'r ymatebion

**222.** Ystyriwyd bod y gofynion arfaethedig ar gyfer dogfennau yn briodol ac yn fuddiol er mwyn sicrhau eglurder a pharhad yn y broses apelio. Roedd ymatebwyr yn ystyried eu bod yn gyson â safonau presennol a'u bod yn helpu i osgoi oedi diangen.

**Cwestiwn 6.28**
**A ydych yn cytuno neu'n anghytuno y dylai ymgeisydd hysbysu'r awdurdod lleol perthnasol am ei fwriad i gyflwyno cais adran 30A o leiaf ddau ddiwrnod gwaith cyn gwneud hynny?**

Crynodeb o'r ymatebion

| | | |
|---|---|---|
| Cytuno | 29 | 78% |
| Anghytuno | 2 | 5% |
| Ddim yn cytuno nac yn anghytuno | 5 | 14% |
| Ddim yn gwybod | 1 | 3% |
| Cyfanswm yr ymatebion | 37 | 100% |

**Cwestiwn 6.29**
**Rhowch esboniad dros eich ateb. Os ydych wedi nodi eich bod yn anghytuno, esboniwch pa newidiadau y dylid eu gwneud yn eich barn chi.**

Crynodeb o'r ymatebion

**223.** Er bod y mwyafrif o blaid y gofyniad i hysbysu'r awdurdod lleol o leiaf ddau ddiwrnod cyn gwneud cais, roedd sawl ymatebydd yn amau ei fod yn ddigonol a gwnaethant awgrymu cyfnod hwy er mwyn i awdurdodau lleol allu paratoi'n effeithiol.

**Cwestiwn 6.30**
**A ydych yn cytuno neu'n anghytuno â'r dull gweithredu arfaethedig mewn perthynas â chyflwyniadau electronig ar gyfer ceisiadau adran 30A?**

Crynodeb o'r ymatebion

| | | |
|---|---|---|
| Cytuno | 32 | 86% |
| Anghytuno | 0 | 0% |
| Ddim yn cytuno nac yn anghytuno | 4 | 11% |
| Ddim yn gwybod | 1 | 3% |
| Cyfanswm yr ymatebion | 37 | 100% |

**Cwestiwn 6.31**
**Rhowch esboniad dros eich ateb. Os ydych wedi nodi eich bod yn anghytuno, esboniwch pa newidiadau y dylid eu gwneud yn eich barn chi.**

Crynodeb o'r ymatebion

**224.** Roedd cefnogaeth eang i'r dull gweithredu arfaethedig mewn perthynas â chyflwyniadau electronig ac mae'n cyd-fynd ag arferion modern. Fodd bynnag, Codwyd rhai pryderon ynghylch dibynadwyedd a chynwysoldeb sy'n awgrymu bod angen mesurau diogelwch ac opsiynau amgen.

**Cwestiwn 6.32**
**A ydych yn cytuno neu'n anghytuno â'r broses arfaethedig ar gyfer gwneud penderfyniadau ar geisiadau adran 30A?**

Crynodeb o'r ymatebion

| | | |
|---|---|---|
| Cytuno | 34 | 92% |
| Anghytuno | 0 | 0% |
| Ddim yn cytuno nac yn anghytuno | 3 | 8% |
| Ddim yn gwybod | 0 | 0% |
| Cyfanswm yr ymatebion | 37 | 100% |

**Cwestiwn 6.33**
**Rhowch esboniad dros eich ateb. Os ydych wedi nodi eich bod yn anghytuno, esboniwch pa newidiadau y dylid eu gwneud yn eich barn chi.**

Crynodeb o'r ymatebion

**225.** Ystyriwyd bod y broses yn deg ac yn gadarn, gyda phwyslais ar dryloywder ac ymgynghori. Roedd rhanddeiliaid yn gwerthfawrogi'r ffaith y gall Gweinidogion Cymru ofyn am ragor o wybodaeth.

**Cwestiwn 6.34**
**A ydych yn cytuno neu'n anghytuno lle bo Gweinidogion Cymru yn ei gwneud yn ofynnol i'r awdurdod lleol perthnasol ddarparu gwybodaeth benodedig, neu ddarparu copïau o ddogfennau penodedig, na ddylai'r dyddiad a bennir yn yr hysbysiad ar gyfer darparu'r eitemau hyn fod yn llai na 14 diwrnod ar ôl dyddiad cyflwyno'r hysbysiad?**

Crynodeb o'r ymatebion

| | | |
|---|---|---|
| Cytuno | 29 | 76% |
| Anghytuno | 2 | 5% |
| Ddim yn cytuno nac yn anghytuno | 5 | 13% |
| Ddim yn gwybod | 2 | 5% |
| Cyfanswm yr ymatebion | 37 | 100%* |

*Nid yw'r canrannau yn gwneud cyfanswm o 100% oherwydd talgrynnu

**Cwestiwn 6.35**
**Rhowch esboniad dros eich ateb. Os ydych wedi nodi eich bod yn anghytuno, esboniwch pa newidiadau y dylid eu gwneud yn eich barn chi.**

Crynodeb o'r ymatebion

**226.** Er bod y cyfnod lleiaf o 14 diwrnod yn cael ei dderbyn ar y cyfan, roedd rhai rhanddeiliaid yn pryderu y gallai arafu prosesau neu roi pwysau ar adnoddau. Roedd eraill o'r farn ei fod yn gyfnod teg a chyson.

**Cwestiwn 6.36**

**A ydych yn cytuno neu'n anghytuno â'r dull gweithredu arfaethedig mewn perthynas â phenodi personau i wneud penderfyniadau ar geisiadau adran 30A?**

Crynodeb o'r ymatebion

| | | |
|---|---|---|
| Cytuno | 33 | 89% |
| Anghytuno | 0 | 0% |
| Ddim yn cytuno nac yn anghytuno | 4 | 11% |
| Ddim yn gwybod | 0 | 0% |
| Cyfanswm yr ymatebion | 37 | 100% |

**Cwestiwn 6.37**
**Rhowch esboniad dros eich ateb. Os ydych wedi nodi eich bod yn anghytuno, esboniwch pa newidiadau y dylid eu gwneud yn eich barn chi.**

Crynodeb o'r ymatebion

**227.** Roedd yr ymatebwyr o blaid dirprwyo i bersonau penodedig, ar yr amod eu bod yn annibynnol ac yn gymwys. Pwysleisiodd rhanddeiliaid fod angen safonau cadarn a hyfforddiant trylwyr.

**Cwestiwn 6.38**
**A ydych yn cytuno neu'n anghytuno y dylid ymdrin â'r cais gwreiddiol fel cais a wrthodwyd gan yr awdurdod lleol perthnasol o dan yr amgylchiadau arfaethedig a nodir uchod?**

Crynodeb o'r ymatebion

| | | |
|---|---|---|
| Cytuno | 28 | 76% |
| Anghytuno | 2 | 5% |
| Ddim yn cytuno nac yn anghytuno | 5 | 14% |
| Ddim yn gwybod | 2 | 5% |
| Cyfanswm yr ymatebion | 37 | 100% |

**Cwestiwn 6.39**
**Rhowch esboniad dros eich ateb. Os ydych wedi nodi eich bod yn anghytuno, esboniwch pa newidiadau y dylid eu gwneud yn eich barn chi.**

Crynodeb o'r ymatebion

**228.** Roedd y mwyafrif yn cytuno â'r cynnig hwn ac ystyriwyd bod y system ar gyfer gwrthod ceisiadau yn ffordd o atal oedi, ond roedd rhai yn pryderu ei bod yn cosbi ymgeiswyr yn annheg. Nododd rhai fod apeliadau a mesurau diogelwch yn hanfodol.

**Cwestiwn 6.40**
**A oes gennych unrhyw sylwadau eraill mewn perthynas â'r cynigion?**

Crynodeb o'r ymatebion

**229.** Cafodd y cynigion yn croesawu gan y byddent yn gwella diogelwch ac atebolrwydd. Fodd bynnag, roedd ymatebwyr o'r farn bod yn rhaid mynd i'r afael â phryderon ynghylch oedi yn y llysoedd a bylchau mewn cymhwysedd er mwyn sicrhau trefniadau gorfodi effeithiol.

**Ymateb y Llywodraeth**

**230.** Yn seiliedig ar yr ymatebion a gafwyd i'r ymgynghoriad, roedd cefnogaeth gyffredinol gref o blaid mesurau arfaethedig yr hysbysiad cydymffurfio a'r hysbysiad stop. Ar gyfartaledd, roedd mwy na 75% o'r ymatebwyr yn cytuno â'r cynigion yn y gwahanol gwestiynau, gyda rhai cwestiynau yn cael cyfraddau cytuno mor uchel â 95%. Roedd ymatebwyr yn cydnabod pwysigrwydd y dulliau gorfodi hyn er mwyn hyrwyddo diogelwch, atebolrwydd a chysondeb o fewn y gyfundrefn rheolaeth adeiladu. Er na chaiff unrhyw newidiadau i'r polisi arfaethedig eu gwneud ar hyn o bryd, tynnodd yr adborth sylw at yr angen am gymesuredd, eglurder a thegwch wrth roi'r cynigion ar waith, yn arbennig mewn perthynas â systemau apelio a rôl cyrff rheolaeth adeiladu.

**231.** Mewn ymateb i'r ymgynghoriad, bydd Llywodraeth Cymru yn cymryd camau er mwyn sicrhau y caiff canllawiau clir a hawdd eu deall eu cyhoeddi er mwyn helpu i roi hysbysiadau cydymffurfio a hysbysiadau stop ar waith. At hynny, caiff argymhellion a wnaed gan randdeiliaid, megis yr angen i ddarparu hyfforddiant, ymgysylltu â rhanddeiliaid a chyflwyno mesurau diogelwch er mwyn atal hysbysiadau rhag cael eu camddefnyddio, eu hystyried ymhellach mewn gwaith yn y dyfodol. Nod y camau gweithredu hyn yw mynd i'r afael â phryderon ynghylch biwrocratiaeth, pwysau ar adnoddau a thryloywder, gan sicrhau bod y fframwaith gorfodi yn parhau i fod yn effeithiol a bod pob parti cysylltiedig yn ymddiried ynddo.

# Gwaith Adeiladu Risg Uwch Awdurdodau Lleol

**Crynodeb o'r ymatebion i'r cwestiynau**

**Cwestiwn 7.1**
**Pan fo awdurdod lleol yn gwneud gwaith adeiladu risg uwch yn ei ardal ei hun, a ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno bod angen i awdurdod lleol arall oruchwylio'r gwaith hwnnw?**

Crynodeb o'r ymatebion

| | | |
|---|---|---|
| Cytuno | 28 | 70% |
| Anghytuno | 9 | 23% |
| Ddim yn cytuno nac yn anghytuno | 3 | 8% |
| Ddim yn gwybod | 0 | 0% |
| Cyfanswm yr ymatebion | 40 | 100%* |

*Nid yw'r canrannau yn gwneud cyfanswm o 100% oherwydd talgrynnu

**Cwestiwn 7.2**
**Esboniwch eich ateb. Os ydych chi wedi ateb anghytuno, esboniwch pa newidiadau y byddech chi'n eu gwneud neu a oes dulliau eraill y dylem eu hystyried, yn eich barn chi, i liniaru'r canfyddiad o wrthdaro buddiannau.**

Crynodeb o'r ymatebion

**232.** Roedd mwyafrif mawr o'r ymatebwyr yn cytuno y dylai awdurdod lleol arall oruchwylio gwaith adeiladu risg uwch a wneir gan awdurdod lleol yn ei ardal ei hun. Mae hyn yn adlewyrchu pryderon eang ynghylch achosion posibl o wrthdaro buddiannau ac awydd i gael goruchwyliaeth ddiduedd. Fodd bynnag, mae rhai ymatebwyr o'r farn bod y mesurau diogelwch presennol yn ddigonol ac maent yn awgrymu modelau mwy hyblyg neu gydweithredol.

**Cwestiwn 7.3**
**Gan gymryd bod angen y broses o gwbl, a ydych chi'n cytuno y dylai awdurdod lleol roi gwybod i Weinidogion Cymru am unrhyw waith adeiladu risg uwch y mae'n ei wneud?**

Crynodeb o'r ymatebion

| | | |
|---|---|---|
| Cytuno | 32 | 84% |
| Anghytuno | 3 | 8% |
| Ddim yn cytuno nac yn anghytuno | 3 | 8% |
| Ddim yn gwybod | 0 | 0% |
| Cyfanswm yr ymatebion | 38 | 100% |

**Cwestiwn 7.4**
**Esboniwch eich ateb. Os ydych chi wedi ateb anghytuno, esboniwch pa newidiadau ddylai gael eu gwneud, yn eich barn chi.**

Crynodeb o'r ymatebion

**233.** Roedd y mwyafrif helaeth o'r ymatebwyr yn cytuno y dylai awdurdodau lleol hysbysu Gweinidogion Cymru am unrhyw waith adeiladu risg uwch a wneir ganddynt. Ystyrir bod hwn yn gam hanfodol er mwyn sicrhau tryloywder ac atebolrwydd, yn arbennig os nad yw goruchwyliaeth gan awdurdod arall yn ei gwneud yn orfodol.

**Cwestiwn 7.5**
**Gan gymryd bod angen y broses o gwbl, a ydych chi'n cytuno â'r weithdrefn arfaethedig uchod?**

Crynodeb o'r ymatebion

| | | |
|---|---|---|
| Cytuno | 26 | 68% |
| Anghytuno | 4 | 11% |
| Ddim yn cytuno nac yn anghytuno | 7 | 18% |
| Ddim yn gwybod | 1 | 3% |
| Cyfanswm yr ymatebion | 38 | 100%* |

*Nid yw'r canrannau yn gwneud cyfanswm o 100% oherwydd talgrynnu

**Cwestiwn 7.6**
**Esboniwch eich ateb. Os ydych chi wedi ateb anghytuno, esboniwch pa newidiadau ddylai gael eu gwneud, yn eich barn chi.**

Crynodeb o'r ymatebion

**234.** Mae 68% o'r ymatebwyr yn cefnogi'r weithdrefn arfaethedig, er bod rhai sylwadau yn tynnu sylw at yr angen am fwy o eglurder a hyblygrwydd. Er bod y weithdrefn yn cael ei hystyried yn un ymarferol, ar y cyfan, mae pryderon o hyd ynghylch cymhlethdod gweinyddol, cost a chapasiti.

**Cwestiwn 7.7**
**Gan gymryd bod angen y broses o gwbl, a ydych chi'n cytuno â'r amserlen arfaethedig i Weinidogion Cymru ddilyn y broses?**

Crynodeb o'r ymatebion

| | | |
|---|---|---|
| Cytuno | 28 | 76% |
| Anghytuno | 1 | 3% |
| Ddim yn cytuno nac yn anghytuno | 6 | 16% |
| Ddim yn gwybod | 2 | 5% |
| Cyfanswm yr ymatebion | 37 | 100% |

**Cwestiwn 7.8**
**Esboniwch eich ateb. Os ydych chi wedi ateb anghytuno, esboniwch pa amserlen fyddai'n rhesymol, yn eich barn chi.**

Crynodeb o'r ymatebion

**235.** Mae 76% o'r ymatebwyr yn cytuno â'r amserlen arfaethedig i Weinidogion Cymru ddilyn y broses, gan ystyried ei bod yn rhesymol a'i bod yn cyd-fynd ag amserlenni deddfwriaethol eraill. Fodd bynnag, mae nifer bach o ymatebion yn

awgrymu y gallai fod angen hyblygrwydd os na ddeuir o hyd i awdurdod addas arall.

**Cwestiwn 7.9**
**Gan gymryd bod angen y broses o gwbl, a ydych chi'n cytuno y dylai holl swyddogaethau rheolaeth adeiladu awdurdodau lleol gael eu dynodi i'r awdurdod lleol arall?**

Crynodeb o'r ymatebion

| | | |
|---|---|---|
| Cytuno | 27 | 73% |
| Anghytuno | 5 | 14% |
| Ddim yn cytuno nac yn anghytuno | 4 | 11% |
| Ddim yn gwybod | 1 | 3% |
| Cyfanswm yr ymatebion | 37 | 100%* |

*Nid yw'r canrannau yn gwneud cyfanswm o 100% oherwydd talgrynnu

**Cwestiwn 7.10**
**Esboniwch eich ateb. Os ydych chi'n credu na ddylid dynodi pob swyddogaeth rheolaeth adeiladu, eglurwch pa newidiadau y dylid eu gwneud, yn eich barn chi.**

Crynodeb o'r ymatebion

**236.** Mae 73% o'r ymatebwyr yn cytuno y dylai'r holl swyddogaethau rheolaeth adeiladu gael eu dynodi i'r awdurdod lleol arall er mwyn sicrhau cysondeb ac osgoi dryswch. Mae rhai ymatebwyr yn dadlau dros gydweithio â'r awdurdod lletyol er mwyn cadw gwybodaeth leol a sicrhau goruchwyliaeth ddi-dor.

**Cwestiwn 7.11**
**Pe bai'r cynnig uchod i gael ei fabwysiadu, esboniwch a ydych chi'n rhagweld problemau ymarferol, ariannol, rheoleiddiol neu fel arall.**

Crynodeb o'r ymatebion

**237.** Ymatebodd 21 o bobl i'r cwestiwn hwn. Mae'r mwyafrif o'r ymatebion yn tynnu sylw at bryderon difrifol ynghylch ymarferoldeb a chost gweithredu'r system oruchwylio arfaethedig â'r adnoddau fyddai eu hangen i wneud hynny. Er bod cefnogaeth gysyniadol o blaid goruchwyliaeth annibynnol, mae'r goblygiadau gweithredol ac ariannol yn gofyn am waith cynllunio gofalus a chymorth.

**Cwestiwn 7.12**
**A oes gennych unrhyw sylwadau eraill mewn perthynas â'r cynigion?**

Crynodeb o'r ymatebion

**238.** Er mai dim ond nifer bach o ymatebion a gafwyd i Gwestiwn 7.12 (5 allan o 61), roedd y sylwadau a ddarparwyd yn ystyriol a gwnaethant godi pryderon difrifol ynghylch ymarferoldeb a biwrocratiaeth bosib y cynigion a'u goblygiadau o ran adnoddau. Mae cefnogaeth gyffredinol o blaid y bwriad sy'n sail i'r cynigion, yn arbennig i wella diogelwch adeiladau, ond mae galw clir hefyd i ystyried dull gweithredu symlach a llai beichus sy'n defnyddio arbenigedd presennol awdurdodau lleol ac yn osgoi dyblygu.

**Ymateb y Llywodraeth**

**239.** Pwnc a wnaeth ennyn llawer o ddiddordeb yn yr ymatebion yw hwn. Er bod llawer o'r cynigon yn cael eu cefnogi, ar y cyfan, roedd y sylwadau ychwanegol a gafwyd yn dangos pryder ynghylch y ffordd y byddai'r cynigion yn gweithio'n ymarferol.

**240.** Rydym wedi penderfynu atal cynnydd o ran y cynigion yn yr adran hon am y tro nes inni allu nodi ein sefyllfa yn gliriach ac ymgynghori â rhanddeiliaid ynghylch cymhlethdodau sut i sefydlu proses weithredol er mwyn mynd i'r afael â'r canfyddiad o wrthdaro buddiannau pan fo awdurdodau lleol yn goruchwylio gwaith ar adeiladau y maent yn berchen arnynt, y maent yn eu rheoli neu y maent yn gleientiaid ar eu cyfer.

# Newidiadau ehangach i reoliadau adeiladu

## Cais am gymeradwyaeth rheolaeth adeiladu ar gyfer gwaith adeiladu nad yw'n risg uwch

**Crynodeb o'r ymatebion i'r cwestiynau**

**Cwestiwn 8.1**
**A ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'r dull gweithredu a ddisgrifir uchod ar gyfer ceisiadau am gymeradwyaeth rheolaeth adeiladu ar gyfer gwaith adeiladu heb risg uwch?**

Crynodeb o'r ymatebion

| | | |
|---|---|---|
| Cytuno | 38 | 93% |
| Anghytuno | 0 | 0% |
| Ddim yn cytuno nac yn anghytuno | 3 | 7% |
| Ddim yn gwybod | 0 | 0% |
| Cyfanswm yr ymatebion | 41 | 100% |

**Cwestiwn 8.2**
**Esboniwch eich ateb. Os ydych chi wedi ateb anghytuno, esboniwch pa newidiadau ddylai gael eu gwneud, yn eich barn chi.**

Crynodeb o'r ymatebion

**241.** Roedd y mwyafrif helaeth o'r ymatebwyr (93%) yn cefnogi'r dull gweithredu arfaethedig ar gyfer ceisiadau am gymeradwyaeth rheolaeth adeiladu ar gyfer adeiladau nad ydynt yn rhai risg uwch. Mae'r ymatebwyr yn ystyried ei bod yn broses synhwyrol, gymesur a chliriach sy'n cyd-fynd â'r arferion presennol a newidiadau diweddar yn Lloegr. Fodd bynnag, codwyd pryderon ynghylch cysondeb terminoleg a'r diffiniad o adeiladau risg uwch.

**Ymateb y Llywodraeth**

**242.** Roedd cefnogaeth gref o blaid y dull gweithredu arfaethedig ar gyfer cymeradwyaeth rheolaeth adeiladu ar gyfer gwaith adeiladu nad yw'n risg uwch, gyda 93% o'r ymatebwyr yn cytuno. Er na chaiff unrhyw newidiadau eu gwneud i bolisi, cyhoeddir canllawiau i gefnogi'r broses o roi'r cynigion ar waith a chaiff adborth ar derminoleg a diffiniadau ei ystyried mewn diweddariadau yn y dyfodol.

## Cymeradwyaeth rheolaeth adeiladu'n dod i ben

**Crynodeb o'r ymatebion i'r cwestiynau**

**Cwestiwn 8.3**
**A ydych yn cytuno â'r diffiniad o 'ddechrau gwaith'?**

Crynodeb o'r ymatebion

| | | |
|---|---|---|
| Cytuno | 31 | 74% |
| Anghytuno | 4 | 10% |
| Ddim yn cytuno nac yn anghytuno | 7 | 17% |
| Ddim yn gwybod | 0 | 0% |
| Cyfanswm yr ymatebion | 42 | 100%* |

*Nid yw'r canrannau yn gwneud cyfanswm o 100% oherwydd talgrynnu

**Cwestiwn 8.4**
**Os ydych yn anghytuno, nodwch yr hyn rydych yn meddwl y dylid neu na ddylid ei gynnwys yn y diffiniad.**

Crynodeb o'r ymatebion

**243.** Er bod 74% o'r ymatebwyr yn cytuno â'r diffiniad arfaethedig o ddechrau gwaith, mae pryder amlwg ynghylch ei eglurder, y potensial ar gyfer ei gamddefnyddio a'r goblygiadau o ran gorfodi. Ystyriwyd bod y diffiniad yn well na'r fersiwn amwys flaenorol, ond bod angen ei fireinio ymhellach er mwyn atal achosion o 'chwarae'r' system a sicrhau na pherir oedi i waith sy'n allweddol i ddiogelwch.

**Cwestiwn 8.5**
**A ydych yn cytuno â defnyddio'r un diffiniad o 'ddechrau gwaith' i gynnwys pob math o waith adeiladu?**

Crynodeb o'r ymatebion

| | | |
|---|---|---|
| Cytuno | 36 | 84% |
| Anghytuno | 3 | 7% |
| Ddim yn cytuno nac yn anghytuno | 3 | 7% |
| Ddim yn gwybod | 1 | 2% |
| Cyfanswm yr ymatebion | 43 | 100% |

**Cwestiwn 8.6**
**Os ydych yn anghytuno, nodwch pa fathau o waith sydd angen diffiniad gwahanol o 'ddechrau gwaith'.**

Crynodeb o'r ymatebion

**244.** Mae consensws eang bod un diffiniad yn symleiddio gweithgarwch rheoleiddio ac yn gwella eglurder. Fodd bynnag, awgrymodd sawl ymatebydd fanylion technegol y dylid rhoi sylw iddynt er mwyn osgoi camddehongli a phroblemau o ran gorfodi.

**Cwestiwn 8.7**
**A ydych yn cytuno neu'n anghytuno y dylai'r person sy'n gwneud y gwaith hysbysu'r awdurdod lleol bod y gwaith wedi dechrau, o fewn deuddydd i'r gwaith ddechrau?**

Crynodeb o'r ymatebion

| | | |
|---|---|---|
| Cytuno | 30 | 71% |
| Anghytuno | 9 | 21% |

| | | |
|---|---|---|
| Ddim yn cytuno nac yn anghytuno | 3 | 7% |
| Ddim yn gwybod | 0 | 0% |
| Cyfanswm yr ymatebion | 42 | 100%* |

*Nid yw'r canrannau yn gwneud cyfanswm o 100% oherwydd talgrynnu

**Cwestiwn 8.8**
**Os ydych yn anghytuno, nodwch y cyfnod y byddech yn ei argymell, neu os ydych yn meddwl nad oes angen hysbysu'r awdurdod, eglurwch pam.**

Crynodeb o'r ymatebion

**245.** Er bod y rhan fwyaf o blaid hysbysu, mae rhai ymatebwyr o'r farn bod y cyfnod o ddeuddydd ar gyfer gwneud hynny yn rhy fyr ac y gallai achosi problemau. Mae hysbysu ymlaen llaw yn cael ei ffafrio er mwyn galluogi archwiliadau rhagweithiol ac osgoi gwaith ofer.

**Cwestiwn 8.9**
**A ydych yn cytuno neu'n anghytuno â'r amserlenni a gynigir er mwyn i'r awdurdod lleol gydnabod bod hysbysiad wedi dod i law (5 diwrnod) ac i benderfynu ar yr hysbysiad (4 wythnos)?**

Crynodeb o'r ymatebion

| | | |
|---|---|---|
| Cytuno | 27 | 68% |
| Anghytuno | 6 | 15% |
| Ddim yn cytuno nac yn anghytuno | 5 | 13% |
| Ddim yn gwybod | 2 | 5% |
| Cyfanswm yr ymatebion | 40 | 100%* |

*Nid yw'r canrannau yn gwneud cyfanswm o 100% oherwydd talgrynnu

**Cwestiwn 8.10**
**Os ydych yn anghytuno, nodwch pa amserlen yr ydych yn anghytuno â hi a pha gyfnod sy'n briodol, yn eich barn chi.**

Crynodeb o'r ymatebion

**246.** Mae'r amserlenni arfaethedig yn dderbyniol, ar y cyfan, ond ystyrir nad oes angen y cyfnod o bum diwrnod i gydnabod bod hysbysiad wedi dod i law.

**Cwestiwn 8.11**
**A ydych yn cytuno neu'n anghytuno y dylai fod rhaid i'r awdurdod lleol gyhoeddi hysbysiad gwrthod pan nad yw'n fodlon bod y gwaith wedi cael ei ddechrau?**

Crynodeb o'r ymatebion

| | | |
|---|---|---|
| Cytuno | 36 | 88% |
| Anghytuno | 4 | 10% |
| Ddim yn cytuno nac yn anghytuno | 1 | 2% |
| Ddim yn gwybod | 0 | 0% |
| Cyfanswm yr ymatebion | 41 | 100% |

**Cwestiwn 8.12**
**Os ydych yn anghytuno, nodwch pam.**

Crynodeb o'r ymatebion

**247.** Mae cefnogaeth eang o blaid hysbysiad gwrthod fel dull gorfodi angenrheidiol. Fodd bynnag, rhaid i'r gwaith o'i roi ar waith osgoi dyblygu prosesau presennol a gosod gormod o faich ar systemau rheolaeth adeiladu.

**Cwestiwn 8.13**
**A ydych yn cytuno neu'n anghytuno y dylai'r hysbysiad gwrthod nodi'r rheswm/rhesymau dros wrthod?**

Crynodeb o'r ymatebion

| | | |
|---|---|---|
| Cytuno | 37 | 90% |
| Anghytuno | 3 | 7% |
| Ddim yn cytuno nac yn anghytuno | 1 | 2% |
| Ddim yn gwybod | 0 | 0% |
| Cyfanswm yr ymatebion | 41 | 100%* |

*Nid yw'r canrannau yn gwneud cyfanswm o 100% oherwydd talgrynnu

**Cwestiwn 8.14**
**Os ydych yn anghytuno, nodwch pam.**

Crynodeb o'r ymatebion

**248.** Roedd y mwyafrif yn cefnogi'r cynnig, gydag ymatebion yn nodi bod rhoi'r rhesymau dros wrthod yn hanfodol er mwyn sicrhau tegwch a dysgu ac ar gyfer apeliadau posibl Mae'n meithrin ymddiriedaeth ac yn helpu i wella cydymffurfedd.

**Cwestiwn 8.15**
**A ydych yn cytuno y dylai'r hysbysiad gwrthod nodi pa waith mae angen ei gwblhau er mwyn ystyried bod y prosiect wedi cael ei ddechrau?**

Crynodeb o'r ymatebion

| | | |
|---|---|---|
| Cytuno | 36 | 86% |
| Anghytuno | 4 | 10% |
| Ddim yn cytuno nac yn anghytuno | 2 | 5% |
| Ddim yn gwybod | 0 | 0% |
| Cyfanswm yr ymatebion | 42 | 100%* |

*Nid yw'r canrannau yn gwneud cyfanswm o 100% oherwydd talgrynnu

**Cwestiwn 8.16**
**Os ydych yn anghytuno, nodwch pam.**

Crynodeb o'r ymatebion

**249.** Roedd sylwadau i'r cwestiwn hwn yn cytuno bod nodi pa waith sydd angen ei gwblhau er mwyn ystyried bod prosiect wedi cael ei ddechrau yn ddefnyddiol i ymgeiswyr a'i fod yn helpu i ddatrys problemau. Fodd bynnag, awgrymwyd y dylid gofalu peidio â rhoi cyngor ar waith dylunio na dyblygu ymdrech.

**Ymateb y Llywodraeth**

**250.** Roedd yr ymatebion i'r ymgynghoriad yn dangos bod cefnogaeth gref i'r cynigion, gyda mwy nag 80% o'r ymatebwyr, ar gyfartaledd, yn cytuno â mesurau allweddol megis un diffiniad o pryd mae gwaith wedi cael ei ddechrau, hysbysu awdurdodau lleol yn amserol a hysbysiadau gwrthod clir. Er i rai pryderon gael eu codi, yn arbennig mewn perthynas ag amserlenni ar gyfer hysbysu a gorfodi, roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr yn croesawu'r eglurder a'r cysondeb y byddai'r newidiadau hyn yn eu sicrhau.

**251.** Mewn ymateb, mae'r diffiniad o pryd mae gwaith wedi cael ei ddechrau wedi cael ei ddiwygio er mwyn sicrhau ei fod yn cyd-fynd yn agosach â'r dull gweithredu a ddefnyddir yn Lloegr, yn arbennig ar gyfer adeiladau newydd ac estyniadau. Cyhoeddir canllawiau er mwyn helpu i roi'r cynigion ar waith a chaiff argymhellion eraill a wnaed yn ystod yr ymgynghoriad, gan gynnwys manylion technegol ac awgrymiadau ar gyfer gwella prosesau hysbysu a gorfodi, eu hystyried wrth ddatblygu canllawiau a gweithdrefnau gweithredol.

## Ffurflenni annilys

**Crynodeb o'r ymatebion i'r cwestiynau**

**Cwestiwn 8.17**
**A ydych yn cytuno neu'n anghytuno y dylid rhagnodi ffurflen y mae'n rhaid i awdurdodau lleol ei defnyddio i ddatgan bod ffurflen a dderbyniwyd yn annilys?**

Crynodeb o'r ymatebion

| | | |
|---|---|---|
| Cytuno | 34 | 83% |
| Anghytuno | 2 | 5% |
| Ddim yn cytuno nac yn anghytuno | 3 | 7% |
| Ddim yn gwybod | 2 | 5% |
| Cyfanswm yr ymatebion | 41 | 100% |

**252.** Mae'r mwyafrif helaeth o'r ymatebwyr o blaid cyflwyno ffurflen safonedig ar gyfer datgan cyflwyniadau annilys. Mae ymatebwyr yn credu y byddai hyn yn gwella tryloywder, yn lleihau amwysedd ac yn sicrhau cysondeb o ran y ffordd yr ymdrinnir â ffurflenni ledled Cymru.

**Cwestiwn 8.18**
**Pe bai ffurflen yn cael ei rhagnodi sy'n caniatáu i awdurdodau lleol ddatgan bod ffurflen a dderbyniwyd yn annilys, pa resymau y dylid eu caniatáu dros ystyried bod ffurflen yn annilys? (Dewiswch bob un sy'n berthnasol)**

Crynodeb o'r ymatebion

| Rheswm dros ddatgan bod ffurflen yn annilys | Nifer yr ymatebwyr a oedd yn cytuno | Canran |
|---|---|---|

| | | |
|---|---|---|
| Mae a wnelo gwaith a ddisgrifir yn y ffurflen yn rhannol neu'n gyfan gwbl â gwaith adeiladu risg uwch. | 30 allan o 39 | 77% |
| Cyflwynwyd y ffurflen yn groes i adran 53D (5) o Ddeddf Adeiladu 1984 | 24 allan o 39 | 62% |
| Unrhyw reswm arall (nodwch) | 14 allan o 39 | 36% |

Crynodeb o'r ymatebion

**253.** Ar y cyfan, roedd yr ymatebwyr yn cefnogi'r rhesymau dros annilysrwydd a restrwyd, yn enwedig pan geir achosion o dorri'r gyfraith neu weithdrefnau. Mae galw cryf hefyd am hyblygrwydd, er mwyn i awdurdodau lleol allu ddefnyddio disgresiwn wrth nodi rhesymau dilys eraill. Fodd bynnag, mae angen eglurder ynglŷn â chanlyniadau peidio â dyroddi'r ffurflen ragnodedig.

**Ymateb y Llywodraeth**

**254.** Ar y cyfan, roedd ymatebion i'r ymgynghoriad yn gofyn am sawl reswm, ond ar ôl eu hadolygu, nodwyd bod sylw eisoes wedi'i roi i lawer o'r rhesymau ychwanegol a gynigiwyd neu eu bod eisoes yn seiliau dros wrthod. Caiff y ffurflen ei llunio gyda'r rhesymau fel y'u rhestrir isod:

-Mae'r gwaith yn waith adeiladu risg uwch na chaniateir i'r ymgeisydd ei oruchwylio, neu
-Mae'r gwaith y tu allan i gwmpas cofrestriad yr ymgeisydd, neu
-Rhoddwyd yr hysbysiad gwreiddiol yn groes i adran 53D (5) o Ddeddf Adeiladu 1984.

**255.** Bwriedir i'r ffurflen ffurfioli'r broses i awdurdodau pan geir un o'r rhesymau rhagnodedig mewn cais a gyflwynwyd. Yn achos rhesymau nad ydynt yn rhai rhagnodedig, gall yr ALl drafod â'r ymgeisydd a thrin unrhyw gais yn anffurfiol fel pe bai'n annilys, fel y gallent ei wneud ar hyn o bryd, neu ei wrthod os bydd angen. Ni fwriedir atal hynny drwy gyflwyno'r ffurflen hon.

## Cyrff cyhoeddus

**Crynodeb o'r ymatebion i'r cwestiynau**

**Cwestiwn 8.19**
**Pa ddull y dylem ei ddefnyddio i ymdrin â chyrff cyhoeddus?**

Crynodeb o'r ymatebion

| | | |
|---|---|---|
| Peidio â gwneud unrhyw newidiadau i'r system bresennol | 10 | 26% |
| Atal cyrff cyhoeddus rhag goruchwylio gwaith adeiladu risg uwch ond cadw'r gallu i | 12 | 32% |

| | | |
|---|---|---|
| gyrff cyhoeddus gynnal mathau eraill o reolaeth adeiladu | | |
| Atal cyrff cyhoeddus rhag gwneud unrhyw waith rheolaeth adeiladu | 15 | 39% |
| Unrhyw ddull arall (nodwch) | 1 | 3% |
| Cyfanswm yr ymatebion | 38 | 100% |

**Cwestiwn 8.20**
**Rhowch resymau dros eich ateb. Esboniwch a ddylid gwneud unrhyw newidiadau i'r dull a ddewiswyd gennych.**

Crynodeb o'r ymatebion

**256.** Mae'r mwyafrif o'r ymatebwyr o blaid atal cyrff cyhoeddus rhag gwneud gwaith rheolaeth adeiladu, yn arbennig ar gyfer adeiladau risg uwch gyda'r sefyllfa hon yn cael ei chymharu â chynigion ar gyfer atal awdurdodau lleol rhag goruchwylio eu gwaith adeiladu risg uwch eu hunain. Mae hyn yn adlewyrchu awydd cryf am ddidueddrwydd, cysondeb a chymhwysedd mewn prosesau goruchwylio rheoleiddiol. Mae pryder eang y gallai caniatáu i gyrff cyhoeddus hunanreoleiddio arwain at ganlyniadau sydd islaw'r safon a thanseilio ymddiriedaeth yn y system. Mae'r ymatebion hefyd yn awgrymu y dylid ei gwneud yn ofynnol i unrhyw gorff cymeradwy gyrraedd yr un safonau cyfreithiol a gweithdrefnol er mwyn cynnal atebolrwydd a hyder y cyhoedd.

**Ymateb y Llywodraeth**

**257.** Caiff cyrff cyhoeddus eu hatal rhag gwneud gwaith adeiladu risg uwch i'w cysoni â Chymeradwywyr Cofrestredig Rheolaeth Adeiladu er mwyn sicrhau mai dim ond awdurdodau lleol a all oruchwylio gwaith adeiladu risg uwch a pharhau â'r system bresennol ar gyfer gwaith arall.

**258.** Bydd angen i unrhyw gyrff cyhoeddus newydd sydd am wneud gwaith adeiladu gael eu cymeradwyo gan Weinidogion Cymru er mwyn cael eu heithrio rhag gofynion gweithdrefnol o dan y rheoliadau adeiladu. Os ceir cais i gorff cyhoeddus gael ei eithrio byddwn yn ystyried cwmpas unrhyw eithriad o'r fath yn ofalus.

## Diwygiadau i’r fframwaith Taliadau Awdurdodau Lleol

**Crynodeb o'r ymatebion i'r cwestiynau**

**Cwestiwn 8.21**
**A ydych yn cytuno â'r newidiadau hyn?**

Crynodeb o'r ymatebion

| | | |
|---|---|---|
| Cytuno | 27 | 69% |
| Anghytuno | 3 | 8% |
| Ddim yn cytuno nac yn anghytuno | 8 | 21% |

| | | |
|---|---|---|
| Ddim yn gwybod | 1 | 3% |
| Cyfanswm yr ymatebion | 39 | 100%* |

*Nid yw'r canrannau yn gwneud cyfanswm o 100% oherwydd talgrynnu

**Cwestiwn 8.22**
**Os ydych yn anghytuno, rhowch esboniad am eich ateb.**

Crynodeb o'r ymatebion

**259.** Mae cefnogaeth gref i'r newidiadau arfaethedig, yn arbennig mewn perthynas â moderneiddio'r fframwaith a chysoni â rheoliadau yn Lloegr. Fodd bynnag, mae pryderon o hyd ynghylch tryloywder costau ac eglurder cyfreithiol ynglŷn â thaliadau archwilio. Mae ymatebwyr am gael rhagor o fanylion cyn cymeradwyo'r newidiadau yn llawn.

**Cwestiwn 8.23**
**A ydych yn credu y dylid gwneud newidiadau eraill i fframwaith taliadau'r Awdurdod Lleol, gan gynnwys unrhyw swyddogaethau eraill y dylid codi tâl amdanynt?**

Crynodeb o'r ymatebion

| | | |
|---|---|---|
| Cytuno | 16 | 43% |
| Anghytuno | 5 | 14% |
| Ddim yn cytuno nac yn anghytuno | 12 | 32% |
| Ddim yn gwybod | 4 | 11% |
| Cyfanswm yr ymatebion | 37 | 100% |

**Cwestiwn 8.24**
**Os ydych yn cytuno, rhowch esboniad am eich ateb.**

Crynodeb o'r ymatebion

**260.** Mae rhywfaint o gefnogaeth o blaid ehangu cwmpas swyddogaethau y gellir codi tâl amdanynt, yn arbennig ar gyfer tasgau gweinyddol a thasgau nad ydynt yn rhai rheng flaen. Pwysleisiodd ymatebwyr fod angen tegwch, tryloywder a chysondeb wrth godi taliadau, yn ogystal â chydnabod y pwysau a osodir ar adnoddau awdurdodau lleol.

**Ymateb y Llywodraeth**

**261.** Bydd Llywodraeth Cymru yn ychwanegu swyddogaethau newydd y gellir codi tâl amdanynt mewn perthynas â swyddogaethau rheolaeth adeiladu newydd arfaethedig ar gyfer Awdurdodau Lleol.

- Camau a gymerwyd wrth benderfynu, ac mewn cysylltiad â newidiadau hysbysadwy i gais gwaith adeiladu risg uwch a gymeradwywyd yn flaenorol.

**262.** Penderfynu ar gais am dystysgrif gwblhau neu dystysgrif gwblhau rannol ar gyfer gwaith adeiladu risg uwch.

**263.** Caiff pob sylw arall ei fwydo i mewn i adolygiadau o daliadau yn y dyfodol.

## Profi a samplu awdurdodau lleol

**Crynodeb o'r ymatebion i'r cwestiynau**

**Cwestiwn 8.25**
**A ydych yn cytuno neu'n anghytuno â'r cynnig i ddechrau adran 33 o Ddeddf Adeiladu 1984 a hepgor rheoliadau 45 a 46 o Reoliadau Adeiladu 2010?**

Crynodeb o'r ymatebion

| | | |
|---|---|---|
| Cytuno | 32 | 80% |
| Anghytuno | 2 | 5% |
| Ddim yn cytuno nac yn anghytuno | 4 | 10% |
| Ddim yn gwybod | 2 | 5% |
| Cyfanswm yr ymatebion | 40 | 100% |

**Cwestiwn 8.26**
**Rhowch resymau dros eich ateb. Os ydych yn anghytuno, esboniwch pa newidiadau y dylid eu gwneud, yn eich barn chi.**

Crynodeb o'r ymatebion

**264.** Mae'r mwyafrif helaeth o'r ymatebwyr (80%) yn cefnogi'r cynnig, gyda rhanddeiliaid yn gwerthfawrogi cysondeb â Lloegr a threfniadau gwell ar gyfer goruchwylio diogelwch. Fodd bynnag, codwyd pryderon ynghylch y potensial ar gyfer gweithgarwch profi gormodol a'r angen am feini prawf clir ac atebolrwydd am gostau er mwyn osgoi oedi i brosiectau a beichiau annheg.

**Ymateb y Llywodraeth**

**265.** Rydym yn bwriadu cychwyn adran 33 o Ddeddf Adeiladu 1984 a hepgor rheoliadau 45 a 46 o Reoliadau Adeiladu 2010 gan na fyddai eu hangen mwyach.

## Hysbysiadau tramgwyddo difrifol a gyflwynir i Gymeradwywyr Cofrestredig Rheolaeth Adeiladu

**Crynodeb o'r ymatebion i'r cwestiynau**

**Cwestiwn 8.27**
**A ydych yn cytuno neu'n anghytuno â'r cynnig y dylid anfon copïau o hysbysiadau torri difrifol a roddwyd i gymeradwywyr rheoli adeiladu cofrestredig at awdurdodau lleol?**

Crynodeb o'r ymatebion

| | | |
|---|---|---|
| Cytuno | 39 | 98% |
| Anghytuno | 0 | 0% |
| Ddim yn cytuno nac yn anghytuno | 0 | 0% |
| Ddim yn gwybod | 1 | 3% |

| | | |
|---|---|---|
| Cyfanswm yr ymatebion | 40 | 100%* |

*Nid yw'r canrannau yn gwneud cyfanswm o 100% oherwydd talgrynnu

**Cwestiwn 8.28**
**Rhowch resymau dros eich ateb. Os ydych yn anghytuno, esboniwch pa newidiadau y dylid eu gwneud, yn eich barn chi.**

Crynodeb o'r ymatebion

**266.** Roedd pob un o'r ymatebwyr yn cefnogi'r cynnig, gan nodi bod angen tryloywder a phrosesau gorfodi cyson. Ystyrir bod rhannu hysbysiadau tramgwyddo yn hanfodol i liniaru risg yn rhagweithiol a sicrhau cysondeb rheoleiddio trawsffiniol.

**Ymateb y Llywodraeth**

**267.** Bydd Llywodraeth Cymru yn rhoi'r cynnig ar waith heb unrhyw newidiadau ac, ynghyd â Llywodraeth y DU, bydd yn ystyried y posibilrwydd o rannu hysbysiadau tramgwyddo a gyflwynir i Gymeradwywyr Cofrestredig Rheolaeth Adeiladu yng Nghymru a Lloegr yn drawsffiniol.

## Diwygiadau canlyniadol i ddeddfwriaeth arall

**Crynodeb o'r ymatebion i'r cwestiynau**

**Cwestiwn 8.29**
**A ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'r cynigion uchod?**

Crynodeb o'r ymatebion

| | | |
|---|---|---|
| Cytuno | 36 | 90% |
| Anghytuno | 0 | 0% |
| Ddim yn cytuno nac yn anghytuno | 3 | 8% |
| Ddim yn gwybod | 1 | 3% |
| Cyfanswm yr ymatebion | 40 | 100%* |

*Nid yw'r canrannau yn gwneud cyfanswm o 100% oherwydd talgrynnu

**Cwestiwn 8.30**
**Esboniwch eich ateb. Eglurwch pa newidiadau y dylid eu gwneud (os o gwbl), yn eich barn chi.**

Crynodeb o'r ymatebion

**268.** Mae consensws cryf bod angen diwygiadau canlyniadol er mwyn cynnal safonau cymhwysedd ym maes rheolaeth adeiladu. Fodd bynnag, mae ymatebwyr yn pwysleisio bod angen adnoddau digonol ac eglurder mewn prosesau gweithredu.

**Cwestiwn 8.31**
**A oes gennych chi unrhyw sylwadau ar y cynigion uchod ar gyfer diwygio Rheoliadau Adeiladu (Cymeradwywyr Cofrestredig Rheolaeth Adeiladu etc.)**

**(Cymru) 2024 neu Fframwaith Cymhwysedd Arolygwyr Adeiladu Cymru? Esboniwch pa newidiadau y dylid eu gwneud (os o gwbl), yn eich barn chi.**

Crynodeb o'r ymatebion

**269.** Dim ond 11 allan o 61 o ymatebwyr a atebodd y cwestiwn hwn. Ymhlith y rhai a'i hatebodd, roedd cefnogaeth gyffredinol o blaid cysoni â rheoliadau yn Lloegr er mwyn hyrwyddo cysondeb a hwyluso cydweithio trawsffiniol. Fodd bynnag, mynegodd rhai ymatebwyr bryderon ynghylch y broses dameidiog o benodi Cymeradwywyr Cofrestredig Rheolaeth Adeiladu, pwysau ar y gweithlu o Gymeradwywyr Cofrestredig Rheolaeth Adeiladu a heriau sy'n gysylltiedig ag asesiadau o gymhwysedd.

**Cwestiwn 8.32**
**A oes gennych unrhyw sylwadau eraill mewn perthynas â'r cynigion?**

Crynodeb o'r ymatebion

**270.** Dim ond pedwar ymateb a gafwyd i'r cwestiwn hwn. Er bod yr ymatebwyr yn cefnogi'r diwygiadau rheoleiddiol arfaethedig, ar y cyfan, maent yn pwysleisio bod angen dysgu o heriau o ran gweithredu sydd wedi'u hwynebu mewn mannau eraill. Maent hefyd yn pwysleisio pwysigrwydd sicrhau bod awdurdodau lleol yn cael adnoddau digonol a'u bod yn barod i gyflwyno'r gyfundrefn newydd yn effeithiol.

**Ymateb y Llywodraeth**

**271.** Bydd Llywodraeth Cymru yn bwrw ymlaen â'r cynigion fel y'u nodir yn yr ymgynghoriad, gan nodi bod 90% o'r ymatebwyr yn cytuno â'r diwygiadau canlyniadol arfaethedig.

**272.** Cyhoeddir canllawiau clir a hawdd eu deall er mwyn helpu i roi'r cynigion ar waith.

**273.** Caiff argymhellion pellach, yn arbennig y rhai sy'n ymwneud ag adnoddau, eglurder rheoleiddiol a chysoni â'r fframwaith presennol, eu hystyried fel rhan o'r camau nesaf.

# Darpariaethau trosiannol

**Crynodeb o'r ymatebion i'r cwestiynau**

**Cwestiwn 9.1**
**A ydych yn cytuno neu'n anghytuno y dylem ganiatáu i brosiectau sydd ar eu hanner pan ddaw'r rheoliadau ar ddeiliaid dyletswyddau i rym gael eu heithrio rhag y rheoliadau hynny?**

Crynodeb o'r ymatebion

| | | |
|---|---|---|
| Cytuno | 31 | 72% |
| Anghytuno | 7 | 16% |
| Ddim yn cytuno nac yn anghytuno | 4 | 9% |
| Ddim yn gwybod | 1 | 2% |
| Cyfanswm yr ymatebion | 43 | 100%* |

*Nid yw'r canrannau yn gwneud cyfanswm o 100% oherwydd talgrynnu

**Cwestiwn 9.2**
**Rhowch resymau eich ateb. Os ydych yn anghytuno, esboniwch pa newidiadau y dylid eu gwneud, yn eich barn chi.**

Crynodeb o'r ymatebion

**274.** Mae'r rhan fwyaf o'r ymatebwyr o blaid eithrio prosiectau sydd ar eu hanner rhag rheoliadau newydd ar ddeiliaid dyletswydd, gan gyfeirio at ymarferoldeb a'r tarfu y byddai cymhwyso'r rheoliadau yn ôl-weithredol yn ei achosi. Fodd bynnag, codwyd rhai pryderon ynghylch y potensial i ddatblygwyr gamddefnyddio'r eithriadau.

**Cwestiwn 9.3**
**A ydych yn cytuno neu'n anghytuno y dylem eithrio prosiectau sydd ar eu hanner pan ddaw'r rheoliadau Llinyn Aur i rym rhag y rheoliadau hynny?**

Crynodeb o'r ymatebion

| | | |
|---|---|---|
| Cytuno | 26 | 58% |
| Anghytuno | 14 | 31% |
| Ddim yn cytuno nac yn anghytuno | 5 | 11% |
| Ddim yn gwybod | 0 | 0% |
| Cyfanswm yr ymatebion | 45 | 100% |

**Cwestiwn 9.4**
**Rhowch resymau dros eich ateb. Os ydych yn anghytuno, esboniwch pa newidiadau y dylid eu gwneud, yn eich barn chi.**

Crynodeb o'r ymatebion

**275.** Er bod mwyafrif o'r ymatebwyr yn cytuno ag eithriadau, mae lleiafrif sylweddol yn pwysleisio pwysigrwydd cadw dogfennaeth am ddiogelwch. Mae llawer o'r farn y dylid llunio cofnodion llinyn aur rhannol neu led-gofnodion llinyn aur hyd yn oed ar gyfer prosiectau sydd ar eu hanner.

**Cwestiwn 9.5**
**A ydych yn cytuno neu'n anghytuno y dylid trin prosiectau pan ddaw'r rheoliadau Porth i rym fel pe baent eisoes wedi cael cymeradwyaeth Porth 2?**

Crynodeb o'r ymatebion

| | | |
|---|---|---|
| Cytuno | 29 | 67% |
| Anghytuno | 6 | 14% |
| Ddim yn cytuno nac yn anghytuno | 8 | 19% |
| Ddim yn gwybod | 0 | 0% |
| Cyfanswm yr ymatebion | 43 | 100% |

**Cwestiwn 9.6**
**Rhowch resymau dros eich ateb. Os ydych yn anghytuno, esboniwch pa newidiadau y dylid eu gwneud, yn eich barn chi.**

Crynodeb o'r ymatebion

**276.** Mae llawer o ymatebwyr o blaid trin prosiectau sydd ar eu hanner fel petaent wedi cael cymeradwyaeth Porth 2 er mwyn osgoi oedi. Fodd bynnag, mae rhai yn rhybuddio na ddylid peryglu diogelwch ac yn awgrymu adolygiadau interim neu archwiliadau symlach.

**Cwestiwn 9.7**
**A ydych yn cytuno neu'n anghytuno â'r dull hwn sy'n caniatáu cwblhau gwaith adeiladu sydd ar ei hanner pan ddaw'r rheoliadau newydd i rym i ddefnyddio darpariaethau presennol y dystysgrif gwblhau neu derfynol?**

Crynodeb o'r ymatebion

| | | |
|---|---|---|
| Cytuno | 33 | 80% |
| Anghytuno | 4 | 10% |
| Ddim yn cytuno nac yn anghytuno | 4 | 10% |
| Ddim yn gwybod | 0 | 0% |
| Cyfanswm yr ymatebion | 41 | 100% |

**Cwestiwn 9.8**
**Rhowch resymau dros eich ateb. Os ydych yn anghytuno, esboniwch pa newidiadau y dylid eu gwneud, yn eich barn chi.**

Crynodeb o'r ymatebion

**277.** Roedd cefnogaeth gref o blaid o blaid caniatáu i brosiectau sydd ar eu hanner ddefnyddio prosesau ardystio presennol. Fodd bynnag, mae rhai ymatebwyr yn argymell gwaith craffu ychwanegol er mwyn sicrhau y cynhelir safonau diogelwch.

**Cwestiwn 9.9**
**A ydych yn cytuno neu'n anghytuno bod Corff Cyhoeddus sydd wedi'i ddynodi at ddibenion rheolaeth adeiladu yn cael parhau i wneud gwaith rheolaeth adeiladu ar brosiectau sydd ar eu hanner?**

Crynodeb o'r ymatebion

| | | |
|---|---|---|
| Cytuno | 33 | 75% |
| Anghytuno | 5 | 11% |
| Ddim yn cytuno nac yn anghytuno | 6 | 14% |
| Ddim yn gwybod | 0 | 0% |
| Cyfanswm yr ymatebion | 44 | 100% |

**Cwestiwn 9.10**
**Rhowch resymau dros eich ateb. Os ydych yn anghytuno, esboniwch pa newidiadau y dylid eu gwneud, yn eich barn chi.**

Crynodeb o'r ymatebion

**278.** Mae llawer o ymatebwyr yn cytuno y dylai cyrff cyhoeddus barhau i arfer swyddogaethau rheolaeth adeiladu ar gyfer prosiectau sydd ar eu hanner er mwyn sicrhau parhad. Fodd bynnag, mae rhai yn galw am drefniadau dilysu annibynnol er mwyn sicrhau y cyrhaeddir safonau.

**Cwestiwn 9.11**
**A ydych yn cytuno neu'n anghytuno bod awdurdodau lleol sy'n goruchwylio eu prosiectau eu hunain ar adeiladau risg uwch yn cael parhau i wneud gwaith rheolaeth adeiladu ar brosiectau sydd ar eu hanner?**

Crynodeb o'r ymatebion

| | | |
|---|---|---|
| Cytuno | 33 | 77% |
| Anghytuno | 5 | 12% |
| Ddim yn cytuno nac yn anghytuno | 5 | 12% |
| Ddim yn gwybod | 0 | 0% |
| Cyfanswm yr ymatebion | 43 | 100%* |

*Nid yw'r canrannau yn gwneud cyfanswm o 100% oherwydd talgrynnu

**Cwestiwn 9.12**
**Rhowch resymau dros eich ateb. Os ydych yn anghytuno, esboniwch pa newidiadau y dylid eu gwneud, yn eich barn chi.**

Crynodeb o'r ymatebion

**279.** Mae'r rhan fwyaf o'r ymatebwyr yn cytuno y dylai awdurdodau lleol barhau i oruchwylio eu prosiectau adeiladu risg uwch ar eu hanner eu hunain, gan gyfeirio at ymarferoldeb a pharhad. Fodd bynnag, mae lleiafrif nodedig yn dadlau dros oruchwyliaeth allanol er mwyn lliniaru achosion o wrthdaro buddiannau.

**Cwestiwn 9.13**
**A ydych yn cytuno neu'n anghytuno ein bod, wrth ymdrin â cheisiadau i basio neu wrthod cynlluniau, yn parhau i ddefnyddio'r system y ceisiwyd cymeradwyaeth rheolaeth adeiladu drwyddi os cafodd y cais ei wneud cyn i'r system newydd ddod i rym?**

Crynodeb o'r ymatebion

| | | |
|---|---|---|
| Cytuno | 37 | 93% |
| Anghytuno | 0 | 0% |
| Ddim yn cytuno nac yn anghytuno | 3 | 8% |
| Ddim yn gwybod | 0 | 0% |
| Cyfanswm yr ymatebion | 40 | 100%* |

*Nid yw'r canrannau yn gwneud cyfanswm o 100% oherwydd talgrynnu

**Cwestiwn 9.14**
**Rhowch resymau dros eich ateb. Os ydych yn anghytuno, esboniwch pa newidiadau y dylid eu gwneud, yn eich barn chi.**

Crynodeb o'r ymatebion

**280.** Mae'r mwyafrif helaeth o'r ymatebwyr (93%) yn cytuno y dylid prosesu ceisiadau a wnaed cyn i'r system newydd gael ei chyflwyno o dan y gyfundrefn bresennol. Bydd hyn yn sicrhau parhad ac yn osgoi tarfu diangen neu'r angen i ail-wneud gwaith.

**Cwestiwn 9.15**
**A ydych yn cytuno neu'n anghytuno â'r cynnig bod darpariaethau pontio yn gymwys i adeiladau unigol yn unig yn hytrach na phrosiectau aml-safle?**

Crynodeb o'r ymatebion

| | | |
|---|---|---|
| Cytuno | 37 | 88% |
| Anghytuno | 2 | 5% |
| Ddim yn cytuno nac yn anghytuno | 3 | 7% |
| Ddim yn gwybod | 0 | 0% |
| Cyfanswm yr ymatebion | 42 | 100% |

**Cwestiwn 9.16**
**Rhowch resymau dros eich ateb. Os ydych yn anghytuno, esboniwch pa newidiadau y dylid eu gwneud, yn eich barn chi.**

Crynodeb o'r ymatebion

**281.** Mae 88% o blaid cymhwyso darpariaethau trosiannol at adeiladau unigol yn hytrach na safleoedd cyfan. Bydd y dull hwn o weithredu yn sicrhau goruchwyliaeth deg ac yn atal datblygwyr rhag camddefnyddio gwaith adeiladu sy'n dechrau ar safleoedd cyfan.

**Cwestiwn 9.17**
**A ydych yn cytuno neu'n anghytuno â'n ffordd o wrthod cau cymeradwyaeth i reolaeth adeiladu yn awtomatig ar gyfer hysbysiadau cychwynnol a gyflwynwyd cyn i adran 53A newydd Deddf Adeiladu 1984 ddod i rym?**

Crynodeb o'r ymatebion

| | | |
|---|---|---|
| Cytuno | 35 | 85% |
| Anghytuno | 2 | 5% |
| Ddim yn cytuno nac yn anghytuno | 3 | 7% |

| | | |
|---|---|---|
| Ddim yn gwybod | 1 | 2% |
| Cyfanswm yr ymatebion | 41 | 100%* |

*Nid yw'r canrannau yn gwneud cyfanswm o 100% oherwydd talgrynnu

**Cwestiwn 9.18**
**Rhowch resymau dros eich ateb. Os ydych yn anghytuno, esboniwch pa newidiadau y dylid eu gwneud, yn eich barn chi.**

Crynodeb o'r ymatebion

**282.** Mae 85% yn cytuno y dylid gwrthod cau cymeradwyaeth i reolaeth adeiladu yn awtomatig ar gyfer hysbysiadau cychwynnol, gan gefnogi parhad a thegwch. Fodd bynnag, mae pryderon ynghylch monitro a chysondeb â deddfwriaeth bresennol.

**Cwestiwn 9.19**
**Ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'r agwedd hon at ddychweliadau?**

Crynodeb o'r ymatebion

| | | |
|---|---|---|
| Cytuno | 38 | 90% |
| Anghytuno | 1 | 2% |
| Ddim yn cytuno nac yn anghytuno | 3 | 7% |
| Ddim yn gwybod | 0 | 0% |
| Cyfanswm yr ymatebion | 42 | 100%* |

*Nid yw'r canrannau yn gwneud cyfanswm o 100% oherwydd talgrynnu

**Cwestiwn 9.20**
**Rhowch resymau dros eich ateb. Os ydych yn anghytuno, esboniwch pa newidiadau y dylid eu gwneud, yn eich barn chi.**

Crynodeb o'r ymatebion

**283.** Mae 90% yn cytuno â'r dull arfaethedig o ymdrin â dychweliadau, gan bwysleisio bod angen parhad a goruchwyliaeth gymwys. Mae lleiafrif yn awgrymu y dylid sicrhau bod dychweliadau yn cyd-fynd yn agosach â'r gyfundrefn newydd ar gyfer adeiladau risg uwch.

**Cwestiwn 9.21**
**A ydych yn cytuno neu'n anghytuno bod cyfnod o chwe mis yn ddigonol cyn i reoliadau sy'n deillio o'r ymgynghoriad hwn ddod i rym?**

Crynodeb o'r ymatebion

| | | |
|---|---|---|
| Cytuno | 30 | 71% |
| Anghytuno | 9 | 21% |
| Ddim yn cytuno nac yn anghytuno | 3 | 7% |
| Ddim yn gwybod | 0 | 0% |
| Cyfanswm yr ymatebion | 42 | 100%* |

*Nid yw'r canrannau yn gwneud cyfanswm o 100% oherwydd talgrynnu

**Cwestiwn 9.22**
**Rhowch resymau dros eich ateb. Os ydych yn anghytuno, esboniwch pa newidiadau y dylid eu gwneud, yn eich barn chi.**

Crynodeb o'r ymatebion

**284.** Er bod 71% yn cytuno bod chwe mis yn ddigonol, codwyd pryderon ynghylch parodrwydd y sector. Pwysleisiodd ymatebwyr fod angen eglurder ynglŷn â'r dyddiad dechrau, hyfforddiant digonol a gwelliannu i systemau.

**Cwestiwn 9.23**
**A oes unrhyw ddarpariaethau pontio eraill yn ymwneud â'r ymgynghoriad hwn y credwch y dylid eu hystyried?**

Crynodeb o'r ymatebion

**285.** Er mai dim ond pum ymateb a gafwyd, mae'r adborth yn pwysleisio pwysigrwydd cymorth ymarferol ar gyfer rhoi'r cynnig ar waith. Ystyrir bod cyfathrebu clir ac addasu fesul cam yn hanfodol i sicrhau proses bontio lwyddiannus.

**Cwestiwn 9.24**
**A oes gennych unrhyw sylwadau eraill mewn perthynas â'r cynigion?**

Crynodeb o'r ymatebion

**286.** Atebodd naw allan o 61 o ymatebwyr y cwestiwn hwn. Ar y cyfan, mae'r ymatebwyr yn cefnogi'r cynigion ond yn pwysleisio bod angen systemau gweithredu cadarn. Mae pryderon ynghylch capasiti awdurdodau lleol, cysondeb mewn cymeradwyaethau a'r ffordd ymdrinnir â phrosiectau sydd ar eu hanner yn tynnu sylw at feysydd y mae angen rhoi sylw iddynt.

**Ymateb y Llywodraeth**

**287.** Oherwydd y gefnogaeth gyffredinol sydd i'r darpariaethau trosiannol, sy'n cyfateb i gyfradd cytuno o 77%, ar gyfer, ar gyfer yr holl ymatebion i'r ymgynghoriad, bydd Llywodraeth Cymru yn bwrw ymlaen â chyfres o gamau wedi'u targedu er mwyn sicrhau y caiff y cynigion eu rhoi ar waith yn effeithiol. Cyhoeddir canllawiau cynhwysfawr er mwyn helpu deiliaid dyletswydd, rheoleiddwyr a rhanddeiliaid eraill i ddeall a chymhwyso'r trefniadau trosiannol, gyda phwyslais penodol ar feysydd megis dogfennaeth llinyn aur rhannol ar gyfer prosiectau sydd ar eu hanner a rôl barhaus cyrff cyhoeddus ym maes rheolaeth adeiladu.

**288.** Lle mae ymatebwyr wedi codi pryderon penodol, megis yr angen am oruchwyliaeth annibynnol, addasu fesul cam neu fwy o eglurder ynglŷn â dyddiadau dechrau, caiff y rhain eu hadolygu'n ofalus a, lle y bo'n briodol, eu hadlewyrchu mewn deunyddiau atodol neu ddiweddariadau yn y dyfodol. Mae'r Llywodraeth yn ymrwymedig i sicrhau bod y broses bontio yn ymarferol ac yn gadarn, gyda systemau cyfathrebu a chymorth clir ar waith er mwyn cynnal safonau diogelwch a safonau rheoleiddio.

**289.** DS: Dylai Cwestiwn 9.17 fod wedi cyfeirio at gymeradwyaeth rheolaeth adeiladu a Hysbysiadau Cychwynnol. Cysylltodd paragraff 9.19 o'r ddogfen ymgynghori Hysbysiadau Cychwynnol yn anghywir ag Adran 32, sy'n gymwys i geisiadau ar gyfer cymeradwyaeth rheolaeth adeiladu yn y dyfodol a

chynlluniau sy'n cael eu hadneuo o dan ddarpariaethau trosiannol. Fodd bynnag, mae'r ymatebion yn awgrymu bod y cyfranogwyr yn deall ystyr fwriadedig y cwestiwn.

# Y Gymraeg

**Crynodeb o'r ymatebion i'r cwestiynau**

**Cwestiwn 10.1**
**Beth fyddai’r effeithiau yn eich barn chi? Sut y gellid cynyddu’r effeithiau cadarnhaol, neu liniaru’r effeithiau negyddol?**

Crynodeb o'r ymatebion

**290.** Ar y cyfan, roedd yr ymatebwyr yn credu na fyddai'r cynigion yn cael effaith negyddol ar y Gymraeg, ar yr amod bod dwyieithrwydd yn cael ei gynnal yn yr holl ddeddfwriaeth a chanllawiau. Roedd consensws bod trin y Gymraeg a'r Saesneg ar y sail eu bod yn gyfartal yn hanfodol, ac y gellid cynyddu cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg drwy fesurau rhagweithiol. Codwyd rhai pryderon ynghylch goblygiadau darpariaeth ddwyieithog o ran cost ac adnoddau.

**Cwestiwn 10.2**
**Esboniwch hefyd sut rydych yn credu y gellid llunio neu newid y camau gweithredu arfaethedig er mwyn cael effeithiau cadarnhaol neu fwy o effeithiau cadarnhaol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio’r Gymraeg a pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na’r Saesneg, heb unrhyw effeithiau andwyol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg a pheidio â thrin yr iaith Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.**

Crynodeb o'r ymatebion

**291.** Roedd yr ymatebwyr o'r farn y gallai'r camau gweithredu arfaethedig gael dylanwad cadarnhaol ar y Gymraeg petai safonau dwyieithog yn cael eu hymgorffori ym mhob sector. Ystyriwyd bod sicrhau dewis a hygyrchedd yn Gymraeg yn allweddol i sicrhau na fydd yr iaith yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg. Fodd bynnag, codwyd pryderon ynghylch capasiti'r gweithlu a'r goblygiadau o ran cost, yn arbennig yn y sector adeiladu.

**Ymateb y Llywodraeth**

**292.** Mae Llywodraeth Cymru yn croesawu'r holl gyfraniadau a wnaed mewn perthynas â'r cwestiwn hwn. Mae'r Gymraeg yn flaenoriaeth strategol i Lywodraeth Cymru a'i nod yw creu Cymru lle mae'r Gymraeg yn ffynnu. Rydym yn ymrwymedig i sicrhau na fydd unrhyw effeithiau andwyol ar gyfer pobl sy'n defnyddio'r Gymraeg ac na chaiff ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg. Er mwyn helpu i wneud hyn, mae Safonau'r Gymraeg yn set o ofynion cyfreithiol gyfrwymol sy'n gymwys i Lywodraeth Cymru. Ystyrir pob dogfen Rheoliadau Adeiladu yn erbyn y safonau ac fe'u cyhoeddir yn unol â hynny.

# Y camau nesaf

**293.** Bydd y diwygiadau angenrheidiol i reoliadau bellach yn cael eu datblygu yn unol ag ymatebion y Llywodraeth a amlinellwyd uchod, gyda'r nod o sicrhau y cânt eu gwneud yn nes ymlaen eleni ac y dônt i rym chwe mis yn ddiweddarach.

**294.** Wrth i'r rheoliadau a'r canllawiau cysylltiedig gael eu drafftio, rhoddir ystyriaeth bellach i lefel y manylder sydd ei hangen. Oherwydd natur dechnegol rhai o'r materion a godwyd yn ystod yr ymgynghoriad, efallai y bydd angen gwneud gwaith datblygu polisi ychwanegol. Caiff unrhyw ddatblygiadau o'r fath eu cyfleu'n glir i randdeiliaid.